
w w w . e c o r w y d d f a . c o . u k

# ECO'r Wyddfa

£1

RHIF 499
Mawrth
2022



# Dydd Gŵyl Dewi Hapus!

## Gŵyl y Banc

Yn dilyn penderfyniad dadleuol gan Gyngor Sir Gwynedd (oherwydd y gost arfaethedig), bydd eu gweithwyr (heblaw rhai staff hanfodol ac athrawon) yn cael diwrnod o wyliau ar y 1af o Fawrth eleni. Yn groes i benderfyniad Llywodraeth San Steffan, sy'n gwrthod datganoli'r grym i Gymru benderfynu ar ei wyliau banc cenedlaethol ei hun, penderfynodd Cabinet Cyngor Gwynedd i awdurdodi gŵyl y banc ychwanegol i'r staff i nodi statws a phwysigrwydd cenedlaethol Dydd Gŵyl Dewi. Ganol mis Chwefror gwnaeth Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri benderfyniad y bydd Dydd Gŵyl Dewi hefyd yn ddiwrnod o wyliau i'w staff hwythau!

Mae Cyngor Sir Caerffili bellach yn bwriadu lobïo llywodraethau Cymru a'r Deyrnas Unedig i gael gwneud Dydd Gŵyl Dewi yn ŵyl banc. Mae rhai cwmniau preifat Cymraeg a Chymreig hefyd yn cynnig diwrnod o wyliau i'w staff ar ddydd ein nawsant. Beth yw eich barn chi am hyn?

I ddarllen rhagor am hanes a thraddodiadau Gŵyl Dewi ewch i dudalen 17.

**Gwnewch y pethau bychain – tanysgrifiwch am flwyddyn i'r *Eco* am £10! (manylion ar dud. 2)**

Elin Enfys

**Chwilio am Elin Enfys**

**Ble mae Elin Enfys? Dewch o hyd iddi'n cuddio mewn 8 lle yn y papur.**



## Yn y rhifyn hwn:


- **Hanes hen gwmni adeiladu Thomas & Thomas. Ewch i Newyddion Waunfawr - tud 4**
- **Dathlu canmlwyddiant yr Urdd yn ein ysgolion - tud 5**
- **Chwilota - Dirgelwch yr Ewyllysiau - tud 22**





26

- **Sefydliad Coffa Llanrug yn 100 oed**



28

- **Ydach chi'n adnabod hen dîm y Darans?**

www.ecorwyddfa.co.uk

ECO'r Wyddfa

CYMRAEG

## SWYDDOGION A GOHEBWYR

**Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith**
Tony Elliott
Bwlch Cae Mawr, Deiniolen LL55 3LU.
07798 552238.
tonyelliott17@yahoo.com

**Golygydd Chwaraeon**
Richard Ll Jones
5 Y Ddôl, Bethel. 01248 670115.
richard.llwyd@yahoo.co.uk

**Golygydd yr Ifanc**
Marged Rhys
marged_3@hotmail.com

**Ffotograffydd**
Gwyndaf Hughes
Hafan, Ffordd Glanmoelyn, Llanrug.
01286 672221.
glasgoed@hotmail.com

**Trefnydd Hysbysebion a Dosbarthu**
Hefin Jones
Pantmwyn, Llanrug. 01286 673838.
hefsj@aol.com

**Trefnydd Ariannol**
Goronwy Hughes
Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug.
01286 674839.

**Trefnydd Gwerthiant Post**
Olwen Hughes
Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug.
01286 674839.

**Trefnydd Bwndelu**
Marian Jones
Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig.
01286 870292.

**Dylunydd**
Elgan Griffiths
post@elgangriffiths.com

## GOHEBWYR PENTREFI

**Bethel**:
Richard Ll Jones
5 Y Ddôl, Bethel. 01248 670115.
richard.llwyd@yahoo.co.uk

**Brynrefail:**
Lowri Prys Roberts
Godre'r Coed, Brynrefail. 01286 870580.
lowri-prys@supanet.com

**Caeathro:**
Lowri Ceiriog
4 Erw Wen, Caeathro.
lowriceiriog@hotmail.co.uk

**Deiniolen:**
Nia Gruffudd
3 Hafod, Clwt y Bont. 01286 870394.
glyn.gruffudd@btinternet.com

**Dinorwig:**
Marian Jones
Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig. 01286 870292.

**Llanberis:**
Eifion Roberts
Swn y Gwynt, Llanberis. 01286 870740.
eifionroberts132@btinternet.com

**Llanrug:**
Eryl Roberts.
Peris, 56 Glanffynnon, Llanrug.
01286 675384.

**Nant Peris:**
Kate Pritchard
01286 870189.
econantperis@hotmail.com

**Penisarwaun:**
ecopenisarwaun@hotmail.co.uk

**Waunfawr:**
Iola Gruffydd
iolallew@hotmail.co.uk

## Panel Golygyddol

Anfonwch eich straeon, newyddion, erthyglau a lluniau ar e-bost i ecorwyddfa@gmail.com os gwelwch yn dda, neu newyddion pentref yn uniongyrchol at y Gohebwyr Pentrefi isod.

Rydym yn croesawu erthyglau hyd at 600 gair o hyd ac mae angen anfon unrhyw luniau atom fel ffeiliau ar wahân. Os hoffech drafod eich cynnwys, mae croeso i chi gysylltu â Nesta Elliott ar 07825 586658

## Ble ga'i afael ar yr *Eco*?

Mae'r *Eco* ar werth yn y siopau canlynol:

- Y Co-op, Llanrug
- SPAR, Llanrug
- One Stop, Llanberis
- SPAR, Llanberis
- Garej Beran, Deiniolen
- Siop Waunfawr
- Garej Gwalia, Caeathro
- Caffi Maes, Caernarfon
- Siop Na-Nog, Caernarfon
- Palas Print, Caernarfon
- Siop Awen Menai, Porthaethwy

**Ydach chi eisiau derbyn copi o'r *Eco* yn rheolaidd bob mis? Tanysgrifiwch!**
Os ydach chi'n byw o fewn dalgylch yr *Eco*, pa well ffordd o wneud yn siwr na wnewch chi byth golli rhifyn na thrwy danysgrifio? Bydd ein criw o ddosbarthwyr caredig yn danfon copi drwy'r drws i chi, a gallwch arbed trafferth i chi eich hun drwy dalu o flaen llaw. Os prynwch danysgrifiad blwyddyn (Ebrill - Mawrth) fe gewch un rhifyn am ddim - dim ond £10 am 11 rhifyn, bargen yn wir!

Gellir archebu copiau drwy ebost (£10 am flwyddyn).

Gellir archebu copiau drwy'r post (£27 am flwyddyn).

Beth am roi tanysgrifiad fel rhodd pen-blwydd neu Nadolig i ffrind neu aelod o'r teulu sy'n byw tu allan i'r ardal?

I drefnu tanysgrifiad cysylltwch â Goronwy neu Olwen Hughes ar 01286 674839 neu goronwy@lineone.net

## Dyddiadau i'w cofio...

| Rhifyn | Dyddiad cau derbyn cynnwys (ail ddydd Gwener yn y mis) | Dyddiad cyhoeddi (pedwerydd dydd Gwener yn y mis) |
|---|---|---|
| Ebrill | 11 Mawrth | 25 Mawrth |
| Mai | 8 Ebrill | 22 Ebrill |
| Mehefin | 14 Mai | 28 Mai |

# Llythyrau

**Annwyl Ddarllenwyr**

Yn ddiweddar, bûm ar drywydd enw enillydd cadair Eisteddfod Bentref Waunfawr 1948. Mae'r gadair bellach wedi ennill ei phlwyf fel dodrefnyn deniadol ym mwthyn ysbaid Antur Waunfawr. Erbyn hyn, rydym wedi dod o hyd i enw. Ac felly dyma ddod ar ofyn darllenwyr yr Eco i gael rhagor o hanes yr unigolyn hwnnw.

Fyddai modd i unrhyw un sydd â gwybodaeth am Emyr Jones, Ty'n Ceunant a fyddai'n byw yn ystod y cyfnod hwnnw anfon e-bost at osian@anturwaunfawr.cymru neu roi caniad ar 07584 868521.

Diolch
Osian, o'r Antur

---

**Annwyl ddarllenwyr,**

Pethau prin yw Cryno-Ddisgiau (CD) erbyn hyn, ond cyhoeddir un arbennig iawn ar gyfer Gŵyl Ddewi eleni a fydd o ddiddordeb i drigolion bro'r Eco. Fe wyddoch i ni golli gŵr annwyl iawn o'r fro yn ddiweddar, sef Gwyn Parri, Cynefin, Deiniolen, ac yn ei angladd canwyd cân gan Mary Lloyd Davies a gyfansoddwyd gan Annette i'w phriod.

Mae'r gân honno bellach ar gael ar CD, yn Gymraeg a Saesneg, ynghyd â 14 o hoff emynau Mary. Prif bwrpas y llythyr hwn yw hysbysu cartrefi gofal a nyrsio yn ogystal â chartrefi henoed yr ardal fod copi o'r CD ar gael dim ond i chi anfon gair ata i ar e-bost (dafyddiwan2@gmail.com), neu anfon neges i Sain (01286.831111), Canolfan Sain, Llandwrog, Caernarfon LL54 5TG. Mi ofalwn y bydd copi o'r CD ar ei ffordd i chi ar unwaith.

Mae'r cynnig hwn yn agored hefyd i bawb sy'n gaeth i'w cartrefi oherwydd salwch.

Gan ddymuno blwyddyn oleuach i chi oll yn 2022.

Yn gywir
Dafydd Iwan

## Yn ystod y mis aeth heibio...

- Calon. Gŵr 57 oed o'r U.D.A. yn cael trawsblaniad calon, ac yn derbyn calon mochyn a gafodd ei haddasu yn ôl geneteg. Y driniaeth gyntaf o'i bath yn y byd.
- Gwres. Y flwyddyn 2021 oedd y chweched flwyddyn gynhesaf ers dechrau cofnodion.
- Cylch rhew. Am y drydedd flwyddyn yn olynol, cylch o rew yn cael ei weld ar afon yn nhalaith Maine. Tybir ei fod yn cael ei ffurfio o ganlyniad i drobwll yn yr afon a'r modd y mae'r cerrynt yn llifo heibio.
- Ffonau symudol. Mae'r athletwyr oedd yn cynrychioli Prydain yng Ngemau Olympaidd y Gaeaf yn Beijing wedi cael ffonau symudol dros-dro oherwydd ofnau y byddai ysbiwyr China yn eu hacio.
- Sunions. Nionod o fath newydd yn cael eu gwerthu gan gwmni Waitrose, sy'n rhoi sicrwydd na fydd neb yn colli deigryn tra'n eu torri.
- HS2. Mae dros gant o safleoedd archeolegol o bwys wedi eu darganfod hyd yma ar lwybr y rheilffordd arfaethedig. Y diweddaraf yw tref Rufeinig tua 2,000 o flynyddoedd oed yn Swydd Northampton.
- Lwc. Gŵr o Ganada yn ennill ddwywaith mewn pum mis

**Annwyl Ddarllenwyr**

Heb ymroddiad anhygoel ein gwirfoddolwyr, ni fyddai'n bosibl cynnal ein gwasanaeth *Childline* ar gyfer plant a phobl ifanc bob dydd o'r flwyddyn – ac yn sicr ni fyddai wedi bod yn bosibl hebddynt dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf.

Hoffem ddiolch o waelod calon i bob un o'n cwnselwyr gwirfoddol, yn ein canolfannau *Childline* yng Nghaerdydd a Phrestatyn, sy'n gweithio'n galed i gefnogi a gwrando (heb farnu) ar blant a phobl ifanc am unrhyw beth a allai fod yn eu poeni.

Wrth i ni ddechrau blwyddyn newydd, mae'r galw mor uchel ag erioed ac anaml y bydd ein hangen am wirfoddolwyr newydd yn diflannu. Dyna pam y byddwn yn parhau i geisio cefnogaeth oedolion yn ein cymunedau sy'n awyddus i gael rôl wirfoddol sydd mor heriol ac yn rhoi cymaint o foddhad.

Os hoffech ddarganfod mwy, a gweld a fyddai rhoi ychydig oriau'r wythnos i fod yno i blant a phobl ifanc yn rhywbeth yr hoffech ymrwymo iddo, gallwch fynd i https://www.nspcc.org.uk/ cefnogi-ni/gwirfoddoli-nspcc-childline/volunteer-childline-helpline.

Rydym yn gofyn yn benodol am wirfoddolwyr a all ein helpu i siarad â phlant yn Gymraeg. Gofynnwn i ymgeiswyr llwyddiannus, a fydd yn derbyn pecyn hyfforddi cynhwysfawr, roi o leiaf 4.25 awr yr wythnos fel cwnselydd *Childline*.

Diolch yn fawr am eich sylw i'r uchod.

Louise Israel
Rheolwr Tîm *Childline*

**Llythyr Golygyddol**

Dros y misoedd diwethaf rydym wedi cyfeirio sawl gwaith at y ffaith y bydd yr *Eco* yn cyrraedd carreg filltir pan ddaw rhifyn mis Ebrill o'r wasg. Hwnnw fydd rhifyn 500! Bu dipyn o bendroni hefyd ynghylch sut i nodi'r achlysur, a diolch yn fawr i'r rhai ohonoch sydd wedi cysylltu ag awgrymiadau. Gobeithio y byddwch, fel ninnau, yn edrych ymlaen at weld y rhifyn arbennig yn ymddangos.

Rhwng Chwefror 1976 ac Ebrill 2022 bydd 500 rhifyn wedi eu cyhoeddi, a phob un yn lafur cariad gan gymaint o bobl ar hyd y blynyddoedd. Tybed beth fydd hanes yr *Eco* i'r dyfodol? A welwn ni rifyn rhif 750 neu 1000 hyd yn oed? A hithau'n gyfnod Gŵyl Dewi, un o'r "pethau bychain" y gallwn ei wneud yw parhau i brynu'r *Eco*, ac efallai annog ffrindiau a chymdogion i danysgrifio. Wrth gychwyn tanysgrifiad blwyddyn gyda rhifyn mis Ebrill fe gewch chi un rhifyn am ddim. Be gewch chi'n well am £10?!

Ond yn ôl at ddathlu'r 500…Mae'r ddwy flynedd ddiwethaf wedi bod yn anodd, dyrys, unig a rhwystredig i lawer. Mae'r cyfleoedd i bobl ddod at ei gilydd i gynnal gweithgareddau a chymdeithasu wedi bod yn brin felly rydym fel tîm yn yr Eco yn credu bod angen atgyfodi'r cyfleoedd hynny. Cadwch olwg felly allan am weithgareddau fel teithiau cerdded neu weithdai celf mewn ysgolion fydd yn cael eu trefnu dros y misoedd nesaf.

Gan edrych ymlaen at gyd-ddathlu!

Y Tîm Golygyddol.

**Annwyl gyfaill,**

Rwy'n cysylltu i dynnu'ch sylw at alwad Llenyddiaeth Cymru am enwebiadau am rôl Bardd Cenedlaethol Cymru 2022 – 2025 a gofyn a fyddai darllenwyr eich papur bro'n enwebu'r bardd yr hoffech chi ei weld yn y rôl nesaf.

Mae rôl Bardd Cenedlaethol Cymru'n gyffrous ac amlwg sy'n cynrychioli ac yn dathlu diwylliant llenyddol Cymru gartref a thramor. Bydd y bardd nesaf yn y rôl yn cyflwyno barddoniaeth i gynulleidfaoedd newydd ac yn annog pobl i ddefnyddio'u lleisiau creadigol i ysbrydoli newid cadarnhaol.

O 20 Ionawr tan 14 Mawrth 2022, bydd Llenyddiaeth Cymru'n derbyn enwebiadau am fardd dawnus o Gymru i ymgymryd â'r rôl anrhydeddus hon.

Llenwch y ffurflen syml ar-lein - https://www.surveymonkey.co.uk/r/RJNDJLF - i ddweud wrthym pwy ddylai fod yn Fardd Cenedlaethol nesaf Cymru. Byddwn yn gofyn am eu henw a pham yr ydych yn eu henwebu. Y cyfan sydd angen i chi ei wneud yw dweud wrthym mewn 200 gair neu lai pam eu bod yn ymgeisydd addas ar gyfer y rôl.

Mae dwy ffordd o enwebu. Gallwch fynegi diddordeb eich hunain ar gyfer y rôl, neu gallwch enwebu rhywun arall. Gallwch enwebu bardd fel unigolyn neu ar ran mudiad, elusen neu gwmni arall yr ydych yn ei gynrychioli. Bydd panel penodi'n edrych ar bob enwebiad ac yn llunio rhestr fer o feirdd i'w gwahodd i ymgeisio ar gyfer y rôl.

Hefyd, hoffem ofyn a fyddech chi gystal â rhannu gwybodaeth am yr alwad gydag unigolion, grwpiau a chymunedau ymysg eich rhwydweithiau.

Mae'r enwebiadau'n gyfrinachol, ac felly ni fyddwn yn dweud wrth y bardd pwy a'u hawgrymodd ar gyfer y rôl. Bydd y rhestr o enwau hefyd yn cael ei chadw'n gyfrinachol, ac felly teimlwch yn rhydd i enwebu bardd neu fynegi eich diddordeb eich hun yn y rôl.

Ceir mwy o wybodaeth am y broses enwebu a gwaith Bardd Cenedlaethol Cymru ar wefan Llenyddiaeth Cymru - www.llenyddiaethcymru.org

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn enwebiadau yw 14 Mawrth 2022. A fedrwch chi helpu trwy rannu'r hysbys hwn gydag unrhyw gysylltiadau perthnasol?

Diolch yn fawr.
Marisa Loach

ar gardiau loteri a brynwyd yn yr un siop. Enillodd dros £58,000 gyda'r cyntaf a £52,000 gyda'r ail.

- Coral. Math newydd wedi ei ddarganfod dros 2,000 metr islaw'r môr i'r gogledd-orllewin o'r Alban.
- Nusantara. Enw newydd ar brifddinas newydd Indonesia wedi ei lleoli ar ynys Borneo.
- Oed. Y prif archfarchnadoedd yn arbrofi gyda thechnoleg sy'n 'adnabod' oedran unrhyw gwsmer sy'n ceisio prynu alcohol neu faco.
- Wythnos waith. Mae tua 30 o gwmniau ym Mhrydain wedi cychwyn arbrawf gydag wythnos waith o bedwar diwrnod yn unig gan eu gweithwyr, a hynny er mwyn darganfod a fyddant yn hapusach yn eu gwaith wrth barhau i gynhyrchu fel cynt.
- Tin Tin. Y cymeriad chwedlonol o anturiaethwr gan Herge wedi ei anrhydeddu gan lywodraeth Gwlad Belg. Bydd ef a'i roced yn ymddangos ar basport y wlad bellach.
- Nanoplastig. Y darnau eithafol o fychan – llai na meicroplastig – wedi eu darganfod ym mhegynnau y De a'r Gogledd am y tro cyntaf erioed.
- $CO_2$. Ymchwilwyr yn darogan y gallai allyriant carbon deuocsid ostwng dros 68% pe bai pawb yn y byd yn troi'n fegan o fewn y 15 mlynedd nesaf – ond ar yr un pryd, yn cydnabod na fyddai hyn byth yn digwydd.
- Blodau. Ymchwilwyr ym Mhrifysgol Caergrawnt wedi dadansoddi 400,000 o gofnodion am 406 o wahanol flodau ym Mhrydain sy'n dyddio'n ôl i 1753. Maent wedi darganfod fod amser blodeuo rhwng 1987 a 2019 fis ynghynt na'r rhai o 1753 hyd 1986; tystiolaeth bendant fod y byd yn cynhesu.
- Mellten. Cofnodwyd y fellten a barhaodd am fwyaf o amser uwchben Uruguay ym mis Mehefin y llynedd. Parhaodd am 17 eiliad.
- Mellten arall. Mae Asiantaeth Tywydd y Cenhedloedd Unedig wedi cofnodi'r fellten hiraf erioed, sef un a deithiodd ar draws tair talaith yn America; pellter o 477 milltir. Byddai taith o'r fath mewn awyren wedi parhau am tua 4 awr. Ychydig eiliadau oedd amser y fellten.

## Rhoddion

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

**£10** Elizabeth Evans, Bethel.

**£20** Gwen, er cof am ei mam Dilys Baylis.

**£50** Er cof am John, gan Menna a'r teulu.

**£100** Di-enw, Llanberis.

**£357** Er cof am Patricia Grace Larsen.

www.ecorwyddfa.co.uk

ECO'r Wyddfa

**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau i Sion Harman a Katie ar enedigaeth eu plentyn cyntaf – sef Emma Grace. Dymuniadau gorau i chi ar y magu!

**Diolchiadau**
Yn dilyn damwain yn ei chartref y llynedd, mae Mrs Annie Thomas, Stad Tŷ Hen, wedi ymgartrefu yng Nghartref Preswyl Plas Pengwaith, Llanberis. Treuliodd 65 mlynedd hapus yma yn y Waun a hoffai ddiolch i'w ffrindiau a'i chymdogion am eu dymuniadau da yn ystod ei chyfnod yn Ysbyty Gwynedd ac Ysbyty Eryri. (Cofion cynnes atoch Mrs Thomas: gobeithio gwnewch chi fwynhau'r atgofion am gwmni Mr T. A. Thomas eich gweddw, yn y golofn yma.)

**Profedigaeth**
Ar 30ain Ionawr, bu farw Elizabeth Williams, Bryn Beddau, Waunfawr. Estynnir ein cydymdeimlad dwysaf i'w gŵr Derec, y plant, Derfel a Sioned a'r wyrion Owain, Llion, Dyfrig a Mabli; hefyd Ceri ei merch yng nghyfraith a'r teulu ehangach. Diolch i'r teulu am y geiriau canlynol: "Bu farw Elizabeth Williams, Bryn Beddau, Waunfawr yn eithriadol o sydyn ac yn sioc enfawr i'r teulu cyfan. A hithau ond 67 mlwydd oed, roedd Liz yn berson preifat, tawel a doeth ac ni fedrir mesur y golled y bydd y teulu yn ei deimlo."

Ar 25ain Ionawr, bu farw Dafydd Thomas, Treforfan gynt yn 54 mlwydd oed. Er i Dafydd fyw yn Llanrug ers blynyddoedd, un o hogiau Waun oedd o, ac roedd wedi bod yn aelod gwerthfawr o dimau pêl droed y pentref - fel chwaraewr, capten a chefnogwr brwd. Mae ein cydymdeimlad yn fawr gyda'i deulu – Ann ei fam, Denise ei wraig, yr hogiau, Steff, Cain, Aled a Luc, ei frawd Gwyn a'r teulu ehangach.

**Gwellhad buan**
Gwellhad buan i Ann Jones, Croesor, Stad Glynafon wedi iddi gael triniaeth yn ddiweddar. Mae'n braf eich gweld wedi ail ddechra mynd am dro unwaith eto Ann!

**Newid aelwydydd**
Dymuniadau gorau i Eurwyn a Gwenda Griffith sydd wedi symud o Drefeddyg i Dalar Deg, ac i Paul, Sarah, Chay a Jacob Godfrey sydd wedi symud o Dalar Deg i Drefeddyg! Welwyd erioed symud tŷ mor ddi lol – gyda'r ddau deulu'n cario dodrefn o un tŷ i'r llall ar droed! Dymuniadau gorau i chi i gyd.

Mae hanes digon difyr i'r ddau dŷ yma gan i ddefnydd go wahanol fod iddynt ar y cychwyn. Adeiladwyd Trefeddyg yn 1939 yn gartref i Dr Miles a'r teulu. Bu'n feddygfa i'r pentref am flynyddoedd, ac mae nifer yn dal i gofio mai mewn stafell yn y tŷ yr arferai'r cleifion weld y doctor ar y cychwyn cyn codi'r adeilad bychan yn yr ardd fel meddygfa. Mae'n anodd credu rwan cymaint mae pethau wedi newid ers blynyddoedd cyntaf y feddygfa – mae 5 meddyg teulu yn y pentref erbyn hyn a meddygfa Liverpool House wedi mynd yn rhy fach ac anaddas iddynt. Ers ei adeiladu yn 1939, dim ond y teulu Miles gwreiddiol, Eurwyn a Gwenda a rwan Paul a Sarah a'r plant sydd wedi byw ynddo – mae'n rhaid ei fod yn gartref hapus!

Mae hanes tipyn mwy amrywiol i'r safle lle saif Dalar Deg ac un tŷ arall erbyn hyn. Yn union cyn adeiladu'r tai yma, roedd siop fwyd a phapurau newydd, a swyddfa bost yn sefyll yno, ond cyn hynny, bu'n weithdy a siop i gwmni "Thomas & Thomas". Dyma chydig o'r hanes fel y cofnodwyd gan Gwilym Morris Jones. (Diolch Mois!)

**Cwmni W.E & T.A.Thomas**
Roedd cwmni W.E. & T.A.Thomas yn y Waunfawr ('Thomas and Thomas') yn sicr o fod yn un o'r cwmniau adeiladu mwyaf llewyrchus yn yr ardal ar un cyfnod. Ffurfiwyd y cwmni gan y diweddar William. E. Thomas, a Thomas Arthur Thomas, hynny mae'n debyg wedi diwedd yr Ail Ryfel Byd. Arferai'r adeilad, sef y siop a'r gweithdy cyfochrog, fod ar y safle lle safai tŷ o'r enw Tŷ Newydd, oedd gyferbyn â chapel Croesywaun; ac fel 'Siop Tŷ Newydd' y cyfeirid at y lle. Ar wahân i adeiladu ac atgyweirio tai ac ati, roedd y cwmni ar un adeg yn drefnwyr angladdau ac yn gwneud eirch yn y gweithdy. Ym mlynyddoedd cynnar y 1960au, torrodd W. E. (Wil) Thomas gysylltiad â'r cwmni, ac o hynny ymlaen Thomas Arthur (T. A. Thomas) oedd y capten wrth y llyw.

Pan ddechreuais ar fy ngyrfa fel prentis saer coed yn 16 oed ym mis Ionawr 1964, roedd hyn yn brofiad hollol newydd i mi. Treulias fy niwrnod cyntaf yn y gweithdy yng Nghroesywaun dan ofal saer o'r enw Brynmor Evans. Un o Rostryfan oedd Brynmor, oedd yn grefftwr hynod dalentog. Cofiaf y diwrnod hwnnw o weld arch fawr lychlyd yn pwyso ar wal y gweithdy, a minnau bob hyn a hyn yn edrych yn ofnus i'w chyfeiriad. Erbyn hynny wrth gwrs roedd y gwaith cynnal angladdau â gwneud eirch wedi hen ddod i ben rai blynyddoedd ynghynt.

Ar yr iard roedd cwt sinc ('cwt du'), lle cedwid pethau fel coed a bagiau sment ynghyd â gwahanol gelfi ac ati; ac yn y cefn, cwt arall lle cedwid peipiau coper a mân bethau eraill ar gyfer plymio.

Gwerthid nifer o wahanol nwyddau yn y siop, pethau fel papur wal a phaent ynghyd â bageidiau hoelion, sgriws a phwti yn ogystal â gwahanol dŵls fel morthwylion, llifiau a bwyelli. Dyn o'r enw Cyril Jones oedd y siopwr, bryd hynny. Un o'r Weun oedd Cyril, dyn tal main tenau oedd wedi goddef gwaeledd am y rhan fwyaf o'i oes ac yn dioddef yn arw o'r crydcymalau. Pan fyddai'r siop yn dawel deuai Cyril i'r gweithdy gyda'i fwyell i dorri priciau tân a'u bwndelu gyda band rwber ar gyfer eu gwerthu am swllt y bwndel ar y cownter. Byddai Cyril bob amser wrth dorri'r priciau yn canu "O na byddai'n haf o hyd, Awyr las uwchben y byd", a hynny ran amlaf pan fyddai ambell gwsmer diamynedd yn y siop i'w glywed yn pesychu a tharo'r cownter gyda darn ceiniog neu debyg.

Drwodd o'r siop roedd swyddfa Cledwyn Edwards y clerc ('Yr offis'), a deuai yntau i'r gweithdy o bryd i'w gilydd i gael "ryw banad a brêc bach o'r hen waith papur 'na!".

Mae'n anodd credu heddiw bod cwmni bychan fel Thomas & Thomas yn cyflogi oddeutu 25 neu fwy o ddynion yn ystod y 60au. Roedd y rhain yn cynnwys nifer o wahanol grefftwyr, fel seiri coed, bricwyr a phlastrwyr ynghyd â nifer o labrwyr. Dyma enwau rhai ohonynt yn ôl y galw.

Seiri coed:
1 William Albert Jones: Un o'r Groeslon oedd 'Bert' bob amser a'i getyn yn ei gêg.
2 William Jones: "Wil bach Penygroes". Brawd J. A. Jones ("Joni call again") a arferai gadw siop watsys ac ati ar Stryd y Llyn. Roedd gan "Wil bach" lais main, ac fel "Wili llais y gwanwyn" y'i adwaenid gan y dynion. Byddai Wil bob amser pan wrth y fainc yn siarad efo'i hunan, ac yn aml clywais ef yn galw ambell hoelen oedd wedi plygu yn "Yr hen gnawas!"
3 Brynmor Evans: Roedd Brynmor yn saer o'r hen drefn; bob amser yn gwisgo oferôl gyda rwler dwy droedfedd ym mhoced ei frest, beret ar ei ben a phensal goch sgwâr wedi ei 'thycio' odano.
4 Bryn Williams: Un o'r Fron ger Carmel oedd Bryn.
5 Gwilym Morris Jones: (Minnau).

Plastrwyr:
1 Eric Edwards: "Eric Pay the man" fel y'i gelwid, o Gaernarfon.
2 Huw Owen: "Huw Gorlan", plastrwr llaw chwith o Ddeiniolen.
3 Bob Williams: Gŵr bonheddyg a thawel o'r Groeslon.
4 Leslie Jones: "Les Gadda", Bro Dawel Waunfawr.
5 Alwyn Jones: Prentis o'r Fron.

Briclears.
1 Dei Thomas: Un o Rostryfan oedd Dei. Ef oedd 'fforman' y bricwyr.
2 Iori a Ifor Roberts: Dau frawd o Gaernarfon.
3 Ifan Thomas:Un o'r Fron ger Carmel.
4 Robin Roberts: 9 Bryn Goleu, Waunfawr.
5 Emyr Jones: Prentis o Rosgadfan.

Labrwyr.
1 Eurful Owen: Ef fyddai'n dreifio'r loriau fel arfer. Roedd gan y cwmni ddwy lori bryd hynny, sef hen Bedford fawr wyrdd ac Austin lliw gwyrdd gydag enw'r cwmni ar ochr y drysau. Hefyd, 'Bedford van sliding door'.
2 Richard John Williams: Dic John, Tan-Ffordd, Betws Garmon.
3 Gwyrfai Jones: Gwyrfai Cilfechydd, neu "Gwyrfai Rallt". Cofiaf fel byddai Gwyrfai a Dic John yn dod i fyny Gallt y Bont yn y bore yn powlio eu beiciau a'u bagiau bwyd ar eu cefnau ac yn aros am ychydig ym mhen yr allt ger y Post i gael 'ryw sbelan bach' cyn reidio 'mlaen i'r gwaith yng Nghroesywaun.
4 Ifor Jones: "Ifor bach", o Benygroes.
5 Wil Owen: "Wil bach cofi dre". Cymeriad annwyl ac yn llawn hiwmor.
6 Wil a John Green: Tad a mab o Gaernarfon.
7 Trevor Beech: Trevor yn byw bryd hynny yn Nhŷ Wern, ger fferm Garreg Fawr.

Plymar.
1 Gwilym Thomas: Brawd Thomas Arthur. Byw yn Rhostryfan.

Beth am anfon lluniau ac atgofion am rai o siopau eraill Waunfawr ata'i erbyn y tro nesa?



# Ysgol Waunfawr

Bu'n fis prysur yn yr Ysgol gyda nifer o ddosbarthiadau'n mynd ar ymweliadau i gyfoethogi gwaith thema. Bu Dosbarth Moel Eilio'n astudio 'Cymru', a chawsant fore braf yn crwydro ym Mhorthaethwy yn astudio'r ddwy bont ac Eglwys Sant Tysilio. Yr oedd pawb wedi mwynhau a rhyfeddu!

Bu'r plant yn brysur hefyd yn creu llwyau caru i ddathlu diwrnod Santes Dwynwen.



**Dysgu am y gaeaf**

Bu Dosbarthiadau Moel Hebog a Mynydd Mawr yn brysur yn astudio'r 'Gaeaf' drwy weithgareddau amrywiol. Yr oeddent wedi cyfrannu at ymgyrch Cyfrif Adar yr Ardd yr RSPB a gwneud bwyd ar gyfer yr adar bach. I ddathlu diwedd y thema, cawsant barti arbennig yn y neuadd, gan chwarae gemau a chael siocled poeth.

**De-fib**

Mae Cyfeillion yr Ysgol wrthi'n brysur yn ceisio casglu digon o arian i brynu peiriant i'r Ysgol. Mae'r gronfa £200 yn brin ar hyn o bryd. Gweler tudalen Facebook yr Ysgol am fwy o fanylion ar sut i gyfrannu.

**Dydd Miwsig Cymru**

Yr oedd y plant wrth eu boddau yn cael gwrando ar gerddoriaeth o bob math i ddathlu'r achlysur arbennig.





**Dathlu 100 yr Urdd**

Braint oedd cael bod yn rhan o weithgareddau i ddathlu Canmlwyddiant yr Urdd yn ddiweddar trwy'r ymdrech i gael lle yn y 'Guinness World Records'.







DIONI™

Cysylltwch â Dioni i siarad am eich bwthyn gwylia
Gwion Llwyd 01341 247 200 gwion@dioni.co.uk
BUSNES LLEOL...CWSMERIAID BYD EANG





Royal Victoria Hotel LLANBERIS
www.theroyalvictoria.co.uk

Dathliadau ● Achlysuron Arbennig ● Cynadleddau
Pwyllgorau ● Bwydlen Bar ● Cinio Dydd Sul
● PRIODASAU ●

Ffôn - 01286-870253
enquiries@theroyalvictoria.co.uk

**Er Cof**
Â rhifyn diwethaf yr Eco newydd fynd i'w wely bu farw Morlais Williams wedi cryn gystudd draw yn Ysbyty Eryri. Yn wir, dyma un o gymeriadau'r pentref. Fel yr hoffai atgoffa pawb, un o 'hogia' Rhiwlas ydoedd. A byddai hen gymeriadau Bro Rhiwen neu ei hoff Bangor City yn britho'i sgyrsiau. Bu'n driw i'w wreiddiau ac yn gefnogwr selog – gartref a ffwrdd – o glwb Bangor. Wedi gadael yr ysgol ym Methesda bu'n gweithio fel pobydd ym musnes un o'r teulu yng Nghaergybi, ac yna'r un gwaith yng Nghaernarfon. Bu am gyfnod wedyn yn gweithio yn Ferodo. Ni fu'r blynyddoedd olaf yn hawdd gyda'r dallineb yn dwysáu. Cafodd gefnogaeth arbennig gan Delyth a'r teulu, a'r ci tywys April. Roedd yn falch o allu mynychu Clwb y Deillion yng Nghaernarfon a hefyd Clwb Bro Bethel. Daeth cynulliad da o deulu, ffrindiau a chyn gyd-weithwyr i'r gwasanaeth yng Nghapel Saron ac yna i'r gladdedigaeth ym Mhentir. Yr oedd arweiniad y Parchg Euron Hughes a Rhian Evans-Hill yn gweddu i'r dim. Cydymdeimlwn â Delyth a'r teulu. a'i chwaer Iona draw yn Rhiwlas.

**Er cof am Morlais Williams**
Blin iddo brath blynyddoedd,
Arfon House ei hafan oedd;
os storm yn hel, roedd Delyth
er y baich, heb wyro byth.
Y graig a ddeil yw gwraig dda,
ym Methel rhannwyd mwytha.
Help llaw bu'r 'bedair pawen'
aiff yn nos, ô'n ŵr ffon wen.
Yn y drin caed deuawd rhwydd,
'Ebrill' â'i warchod ebrwydd.
Un llai, heddiw'n mro Rhiwen
yn y clai rhown hogyn clên;
Cwsg gaiff ym mynwent Pentir
yn glyd, o'i boen, gweld yn glir.
(RLLJ)

Yr un yw ein cydymdeimlad â theulu'r diweddar Hugh Davies – Hughie Reffari – o Stâd Bro Rhos. Bu farw yntau wedi salwch byr draw yn Ysbyty Gwynedd. Un o hogiau Carneddi – Howget – oedd Hughie ond wedi ymgartrefu ym Methel ers sawl blwyddyn. Rhyw 'goli heb gyrraedd safon' oedd ei ddisgrifiad personol o'i ddyddiau cynnar ym myd y bêl, cyn dod yn reffari yn fuan iawn (gweler y golofn Chwaraeon.) Wrth ei waith bob dydd roedd yn oruchwiliwr yn y Gyfnewidfa Ffôn draw ym Mangor am sawl blwyddyn.

**Clwb Cant y Neuadd Goffa**
Mae'r Pwyllgor yn hynod falch o'r llu o ardalwyr sy'n gefnogol. Daeth yn amser i gyflwyno'r taliad am y flwyddyn hon, sef £12. Os oes rhai am ymuno am y tro cyntaf yna gellir cysylltu â Cled a Susan, 12 Bro Rhos, neu Sion Williams, 5 Y Ddôl. Mae'r gefnogaeth ariannol yma wedi bod yn gefn yn enwedig yn ystod y cyfnod di-weithgaredd diweddar yma. Fel arfer ceir tair gwobr ariannol yn y dynfa fisol. Dyma restr o'r enillwyr dros y misoedd diwethaf.
Medi: Meleri Hughes, Miriam Thomas, Maud Williams.
Hydref: Nia Davenport Owen, William Hefin Jones, Ella Roberts.
Tachwedd: Emma Bardsley, Sioned Woresley, Beti Owen.
Rhagfyr: Jean Jones, Carys Jones, Anita Owen.



**Clwb Cerdded Bethel**
Ar fore iach daeth 18 o gerddwyr ynghyd ar gyfer taith Chwefror. Ardal Beddgelert oedd y fangre ddewisiedig, gan ymlwybro o'r maes parcio ger yr ysgol i gyfeiriad Cwm Cloch. Yr oedd y bryniau'n gefndir clir ar hyd y daith. Roedd y cerddwyr yn galw heibio cartref y diweddar Edith Evans, neu Telynores Eryri fel ei gelwid. Tipyn o gymeriad ac arbenigwraig ar y delyn deires. Yn nyddiau bri'r Noson Lawen roedd deuawd o Edith a Thelynores Maldwyn yn tynnu'r to i lawr. 'Stars' go iawn, yn enwedig gyda'r cetyn yn ei cheg. Ymlaen wedyn am Lyn Llywelyn, ac yn nhawelwch llyn a bryn cafwyd cinio ar y meinciau wedi eu gosod yn y man delfrydol yno. Cofiwch bod croeso i bawb ymuno â'r grŵp, gyda'r prif gyswllt drwy Morfudd Thomas.

**Merched y Wawr**
Ar Zoom y cyfarfu'r aelodau mis Chwefror, a daeth nifer dda iawn i wrando am y datblygiadau cyffrous ym mhrosiect cymunedol Yr Orsaf, Penygroes.
Daeth Ben Gregory a Gwenllian atom i adrodd ychydig am y datblygiadau. Mae Ben yn aelod o Fwrdd Siop Griffiths er ei sylfaenu yn 2016. Yn wreiddiol o Dredegar, symudodd Ben i'r Gogledd ym 1998. Mae'n gweithio i Grŵp Cynefin ac yn gwirfoddoli efo nifer o brosiectau ym Mhenygroes, yn cynnwys y clybiau drama a ffilm.
Un o Aberystwyth yw Gwenllian, a hi yw Swyddog Dim Gwastraff yr Orsaf. Wedi graddio mewn Celf yn Llundain a gweithio dramor, ymunodd â thîm yr Orsaf ym Medi 2021. Ar hyn o bryd mae'n gweithio ar dri phrosiect, sef sefydlu Gardd Gymunedol ym Mhenygroes, datblygu Rhandiroedd Plas Silyn a rhedeg y Pantri Cymunedol.
Dangosodd Ben luniau o'r datblygiadau ers cau Siop Griffiths yn 2010. Yr oedd yn un o adeiladau hynaf Penygroes. Mae cofnodion o'i defnydd fel Tafarn y Stag's Head o 1828 hyd y Rhyfel Byd Cyntaf. Ym 1925, agorwyd Siop Griffiths fel *Ironmongers* a bu'r busnes yn nwylo'r teulu am 85 mlynedd.
Yn 2016, prynwyd y siop ag arian a gasglwyd yn y gymuned leol, a sefydlwyd Cymdeithas Budd Cymunedol. Yn 2019, prynwyd adeilad arall ar y safle. Erbyn hyn mae prosiect Siop Griffiths wedi codi dros filiwn o bunnoedd, ac mae'r arian wedi ei wario i adnewyddu'r adeiladau, agor caffi, llety a chanolfan ddigidol i blant a phobl ifanc.
Mae 7 yn gweithio i'r Orsaf erbyn hyn yn arwain prosiectau er lles trigolion Dyffryn Nantlle. Gellir cael mwy o wybodaeth drwy gysylltu â gwefan yr Orsaf. Diolchwyd i Ben a Gwenllian gan Anne Elis y Llywydd. Cyfeiriodd at be ellir ei gyflawni mewn cymuned pan mae pobl leol yn dangos ymroddiad, gweledigaeth a chydweithio.
Estynwyd croeso i Glenys draw yn Llanharan, ac hefyd i Owenna Hughes o Gaernarfon oedd yn ymuno am y tro cyntaf. Diolchwyd i Eirlys Williams a Gwenan Roberts am eu parodrwydd i aros yn aelodau o'r Pwyllgor Anabledd.
Mae trefniadau'r Bore Coffi dan nawdd grant y Loteri Genedlaethol a Chyngor Gwynedd yn prysuro ymlaen. Mae newid yn y dyddiad. Fe'i cynhelir rwan ar fore Gwener, 4ydd Mawrth yn y Neuadd Goffa. Bydd hyn yn galluogi disgyblion yr Ysgol i gael amser i ymarfer eitemau i'n diddori. Bydd aelodau'r Gangen yn cael nodyn i'w ddosbarthu i hysbysebu'r Bore Coffi. Cofiwch fod y digwyddiad yn agored i bawb yn y pentref gan mai'r prif fwriad yw cael cyfle i ail afael yn yr arferiad o gyd-gymdeithasu dros sgwrs a phaned.
Tynnodd Freda ein sylw at weithgareddau cenedlaethol y mudiad dros y mis ac yn enwedig Ddiwrnod y Llyfr. Mewn cydweithrediad â'r Mudiad Meithrin, gofynwyd i ni addurno ein ffenestri ar Ddydd Gŵyl Ddewi â lliwiau'r Urdd i ddathlu penblwydd arbennig y mudiad. Mae angen Golygydd i gylchgrawn Y Wawr ac ambell i is-swyddogion Rhanbarth. Os wyddoch am unrhyw un â diddordeb, cysylltwch ag Anne Elis.
Ein cyfarfod nesaf fydd y Bore Coffi ar 4ydd

Mawrth yn y Neuadd Goffa rhwng 10:00AM a 12 ganol dydd. Bydd yn agored i'r pentrefwyr a cheir adloniant gan ddisgyblion yr Ysgol. Os gwyddoch am unrhyw gymydog a hoffai ddod draw, rhowch wahoddiad iddynt. Bydd cludiant yn cael ei drefnu ar gyfer unrhyw un gydag anhawster cyrraedd y Neuadd. Bydd Liz Watkin yn anfon gwybodaeth ychwanegol i'r holl aelodau yn y dyddiau nesaf.

Anne Elis

**Oedfaon Mawrth**

Capel Saron : 6/3 Arwel Williams, 13/3 Ellie Jones, 20/3 Philip Barnett, 27/3 Parch. Richard Gillon (S).

Capel Cysegr : 6/3 Dorothy Williams, 13/3 a 20/3 Eurfryn Davies, 27/3 ( Sul y Mamau) Susan Williams (EFE).

Capel Bethel : 20/3 Parch. Ioan Gruffydd, 27/3 Canon Idris Thomas.

Croeso i bawb i'r oedfaon.

Rhaghysbyseb: Ar Sul olaf mis Mawrth yn y Cysegr bydd yr oedfa yng ngofal Susan Williams (Cynllun EFE). Y Sul yma yw Sul y Mamau. Y mae plant Ysgol Bethel yn gyfarwydd â Susan drwy ei hymweliadau. Estynnir croeso felly i unrhyw un o'r disgyblion a'u rhieni i ymuno yn yr oedfa fydd yn hwyliog fel y tuedda oedfaon Susan fod. Yn sicr, y flwyddyn hon bydd gennym lawer i ddiolch am gyfraniad ddi-flino 'mam'.



**Aelod Newydd**

Rydw i wedi tynnu sylw at y criw o ferched sydd allan ym mhob tywydd yn wythnosol yn codi'r sbwriel sy'n cael ei wasgaru'n ddi-hid gan unigolion heb na pharch at ardal nag amgylchfyd. Mae'n amlwg bellach fod rhai mannau penodol yn cael eu dewis gan y bobl hyn i ollwng eu sbwriel. O'r un rhywogaeth yw'r perchnogion sy'n troi nifer o'n llwybrau a ffyrdd yn doiledau awyr agored i'w cŵn. Byddaf yn aml yn meddwl mai dyma ran o gymdeithas sydd mor barod i gwyno pan nad yw 'criw Gwynedd neu Llanddeiniolen yn gwneud dim'. Wel, diolch felly i Iwan Morris sydd wedi ymuno gyda'r merched yn eu gorchwyl. Diolch i ti Iwan, am herio eraill ohonom i gyfrannu'n gymdeithasol fel hyn.

**Taliad yr Eco**

Gobeithio eich bod chi ddarllenwyr cyson yr *Eco* yn cofio mai dyma'r adeg o'r flwyddyn y cesglir yr arian. Fel y llynedd, £10 yw'r pris am rifynnau'r flwyddyn. Rydym yn ffodus iawn fel dosbarthwyr yma ym Methel fod y mwyafrif helaeth yn talu mewn un taliad. Mae hyn yn gwneud y cofnodi'n haws, ac hefyd yn gymorth i 'lif arian' y papur. Barn llawer o'r tu allan i'r ardal yw fod diwyg, safon cynnyrch ac amrywiaeth cynnyrch y misolyn yn gosod yr *Eco* yn uchel iawn yn nhabl y Papurau Bro. A bydded i hynny barhau. Cofiwch na allwn fyth gael gormod o weithwyr i'r winllan. Cofier hefyd y bydd yr *Eco* ymhen y mis yn cyrraedd y garreg filltir arbennig o gyhoeddi rhifyn rhif 500. Tipyn o gamp. Bydd yn rhifyn i'w gadw a'i drysori.

**Llwybrau**

Yn ddiweddar, bu cyfarfod rhwng y Cynghorwyr Jane Pierce a Richard Lloyd Jones gyda cynrychiolwyr Adran Llwybrau Cyngor Sir Gwynedd. Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn gwneud archwiliad o lwybrau mwyaf poblogaidd y plwyf – milltiroedd ohonynt. Y bwriad yw cael cyd-weithrediad rhwng y ddau gyngor i wella safon rhai ohonynt. Mae Cyngor Llanddeiniolen eisoes wedi rhoi arian o'r neilltu i'r pwrpas yma. Canolbwyntiwyd ar dri llwybr – y llwybr o gyfeiriad Cefn Gwyn i Seion, y llwybr o gefn y cae pêl-droed draw am Goed Bolyn, a'r llwybr ar draws y caeau gyferbyn â Chremlyn. Bydd y Cyngor Sir yn anfon adroddiad o'r cyflwr i'r Cyngor Cymuned. Y bwriad yw amlygu dyletswyddau'r ddau gyngor a'r tir feddiannwr yn y gwelliant. Edrychwn ymlaen at dderbyn yr adroddiad. Mae'r Clerc hefyd wedi derbyn adroddiad gan Gyngor y Felinheli yn nodi cyflwr y llwybrau sy'n croesi ffiniau'r ddau gyngor. Gobeithio bydd hyn yn arwain at gydweithio ym maes y llwybrau.

---

BORE COFFI

GWYL DEWI

AM DDIM

CROESO I BAWB

Dydd Gwener 4ydd Mawrth

Yn Y Neuadd Goffa Bethel

o 10.00 am — 12.00

Cyfle i bawb ail ddechrau cym-deithasu dros baned a sgwrs.

EITEM GAN BLANT Yr YSGOL

RAFFL £1

Noddwyd gan

CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND



## NANT PERIS


**Eglwys Sant Peris**

Cynhelir gwasanaeth y Cymun Bendigaid bob bore Sul am 9:30 y bore. Hefyd, cynhelir un ai gwasanaeth y Cymun Bendigaid neu'r Foreol Weddi bob dydd Mawrth am 11:00 y bore.

## Gwefan newydd Llechi Cymru yn rhoi cyfle i chi rannu eich hanesion chi



Gyda chwe mis ers dynodiad Safle Treftadaeth y Byd i Dirwedd Llechi gogledd-orllewin Cymru gan UNESCO, mae gwefan newydd **www.llechi.cymru** yn cynnig cyfle i bobl yr ardal rannu eu profiad nhw o bob agwedd o fyd y llechi.




Drwy nawdd Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, bu cydweithio rhwng Adran Technoleg Gwybodaeth a Gwasanaeth Twristiaeth Cyngor Gwynedd, er mwyn creu gwefan ddifyr, liwgar a defnyddiol.

Mae'r wefan yn rhannu'r stori yn ffeithiol gywir, yn ddifyr ac ar ffurf hawdd i'w ddeall a hynny trwy fideos, lluniau, mapiau, gwybodaeth ymweld ag adnoddau eraill.

Dywedodd y Cynghorydd Gareth Thomas, Aelod Cabinet Economi a Chymuned Cyngor Gwynedd:

"Mae 'na lot mwy i lechi na thoeon tai, ac rydan ni'n awyddus i weld y wefan yn gyfle i gysylltu gyda phobl yr ardal er mwyn rhoi cyfle iddynt rannu eu straeon a'u profiadau.

"Ar y wefan newydd, mae'r dudalen 'Pobl y Llechi' yn ein cyflwyno i unigolion sy'n gweithio neu wedi eu hysbrydoli gan bob agwedd o'r diwydiant neu'r dirwedd.

"Rydym yn annog cyfraniadau gan bobl leol sydd â chysylltiad llechi i rannu eu storïau gyda ni fel lleisiau lleol i'w cynnwys ar ein gwefan trwy gysylltu â **llechi@gwynedd.llyw.cymru**"

Mae Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru yn cynnwys chwe ardal allweddol: Chwarel y Penrhyn a Bethesda, a Dyffryn Ogwen at Aber Cegin (Porth Penrhyn), Tirwedd Fynyddig Chwarel Dinorwig, Tirwedd Chwareli Dyffryn Nantlle, Chwareli Gorseddau a Bwlch y Ddwy Elor, y Rheilffyrdd a'r Felin, Ffestiniog: ei Mwyngloddiau a'i Chwareli Llechi, 'dinas llechi' a'r Rheilffordd i Borthmadog, a Chwarel Bryneglwys, Pentref Abergynolwyn a Rheilffordd Tal-y-llyn.

I weld yr hyn sydd gan y wefan newydd i'w gynnig neu os am gyfrannu, ewch i **www.llechi.cymru**

# LLANBERIS

Os oes unrhyw unigolyn neu gymdeithas yn dymuno cyflwyno eitem o newyddion, llun neu erthygl i'r Eco, gallwch wneud hynny drwy gysylltu â mi drwy ffôn/ ebost neu alwad personol, yn y cyfeiriadau sydd o dan Newyddion Llanberis ar dudalen 2. Diolch yn fawr, Eifion Roberts.

**Arddangosfa**
Mae arddangosfa o waith Isaac Hughes, ffotograffydd cynnar Llanberis a oedd yn tynnu portreadau o bentrefwyr a chwarelwyr y cyfnod, i'w weld yn yr Eglwys rhwng 10:30AM a 2:00PM o ddydd Llun i ddydd Gwener.

**Eglwys Sant Padarn**
Gwasanaethau mis Mawrth:
6ed Mawrth, 11:00AM - Cymun Bendigaid
13eg Mawrth, 11:00AM - Cymun Bendigaid
20fed Mawrth, 11:00AM - Cymun Bendigaid
27ain Mawrth, 8:00AM - Cymun Bendigaid, 11:00AM - Cymun Bendigaid

**Clwb 100**
Enillwyr Clwb 100 mis Rhagfyr oedd: 1. Lynn Halstead, 2. Dennis Carr, 3. Beth Owen, 4. Elin Mai Williams, 5. Jean Jones.

Enillwyr mis Ionawr oedd: 1. Elis Roberts, 2. Ed Kelly, 3. Heulwen Edwards, 4. Buddug Wakeham, 5. Margaret Griffith.

**Capel Coch**
Ers i'r oedfaon ail ddechrau yn y Capel yn dilyn y cyfnodau clo, rydym wedi bod yn cyfarfod bob pythefnos, ar y Suliau y mae'r Gweinidog gyda ni. O ddechrau mis Ebrill, byddwn yn mynd yn ôl i'r drefn arferol o gyfarfod bob bore Sul am 10.00 o'r gloch. Ceir manylion llawn am yr oedfaon yn *Gronyn* bob wythnos ac ar wefan yr Ofalaeth **gronyn.org neu gronyn.wordpress.com**



**Merched y Wawr Llanberis a Nant**
Ar 1af Rhagfyr daeth Gareth Roberts i Eglwys Llanberis i gyflwyno peth o arddangosfa gwaith y ffotograffydd Isaac Huws, gyda lluniau ardal Llanberis yn ystod y 1870-1880au. Cafwyd cyfarfod difyr iawn a phawb wedi mwynhau, a phaned a mins pei yn dilyn y sgwrs. Diolch i Heather Lynne a Dilys Margaret Roberts am y gwaith paratoi, ac i Gareth wrth gwrs am gyflwyniad diddorol.

Cynhaliwyd Cinio Nadolig y gangen yng Ngwesty'r Gwynedd a chafwyd bwyd bendigedig eleni eto.

Ar 9fed Chwefor daeth Emyr Gibson i'r Eglwys i sôn am lwyddiant ei fenter gyda Distyllfa Afallon Môn, a hanes eu *gin* yn ennill y Wobr Aur Brydeinig yn 2021. Cafodd pawb flas bach. Diolch i Emyr ac am gael defnyddio'r Eglwys.

Bydd y cyfarfod nesaf yn y Ganolfan, Llanberis ar nos Fercher, 2il Mawrth am 7 o'r gloch, gyda Cadi Iolen yn westai'r noson.

**Casglwyr sy'n creu Pentref Taclus Llanberis**
Ers bron i bum mlynedd mae grŵp o wirfoddolwyr ysbrydoledig o Lanberis wedi gwneud gwahaniaeth mawr yn eu pentref. Yn dilyn cyfarfod cyhoeddus daeth y grŵp at ei gilydd i fynd bob bore Sul o amgylch y pentref i godi sbwriel. Mae'r grŵp, sy'n defnyddio'r enw Pentref Taclus Llanberis, wedi tyfu a denu mwy o wirfoddolwyr o ardaloedd eraill i ymuno â nhw ac maent wedi gwneud nifer o gyfweliadau ar y radio a theledu. Buont yn llwyddiannus yn ennill cystadleuaeth genedlaethol a chael gwerth £500 o offer glanhau gan gwmni Robert Scott o Oldham, a daeth perchennog a gweithwyr y cwmni i Lanberis i gyfarfod y grŵp ac ymuno i godi sbwriel. Dros y blynyddoedd, mae amryw o grwpiau lleol wedi ymuno hefyd, sef y Guides, grŵp canwïo a'r grŵp deifio.

Mae grŵp Pentref Taclus Llanberis mor falch eu bod wedi ail-gychwyn eto ar ôl cyfnod hir o fethu mynd i godi sbwriel gyda'i gilydd yn ystod y cyfnod clo. Maent dal wedi bod reit brysur yn ystod y flwyddyn a hanner ddiwetha, er hynny. Codi sbwriel fel unigolion, glanhau graffiti, plannu bylbiau cennin pedr a phlannu blodau o amgylch y pentref.

Ym mis Ionawr cawsant rodd ariannol gan Heddlu Gogledd Cymru, gan fedru prynu offer sydd



yn addas i blant ei ddefnyddio ac felly roeddent yn falch iawn o gael cwmni disgyblion Ysgol Dolbadarn yn ddiweddar i godi sbwriel wrth ochr y Llyn, a bydd hyn yn gwneud gwahaniaeth yn y dyfodol i warchod yr amgylchedd ac anifeiliaid gwyllt.

Dydd Sul, 6ed Chwefror, daeth y gwirfoddolwyr lleol allan ynghyd â gweithwyr o Always Aim High a Gwesty Victoria. Diwrnod reit gynhyrchiol wrth gasglu 16 bag o sbwriel, amryw ohono wedi bod yn yr is-dyfiant ers peth amser.

Os hoffwch chi ymuno gyda'r grŵp maent yn cyfarfod ar y Sul cyntaf bob mis, yn ddibynnol ar y tywydd, tan yr haf pan fyddant yn mynd allan bob wythnos. Croeso cynnes i bawb.

Chwiliwch am eu tudalen ar Facebook - Pentref Taclus Llanberis Tidy Village - a'u dilyn am ragor o wybodaeth. Cysylltwch drwy Facebook hefyd os hoffech fenthyg yr offer casglu sbwriel.



Gwasanaeth Gwres a Plymio
Gas Safe Register
Ar gyfer eich holl anghenion gwres a plymio
*Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser*
Arwel Jones - 1 Cefn Cynrig Bethel LL55 1UW
Ffôn (01248) 674927 Symudol - 07798 74618



Tim Rhwyfo Cymru 1958

**Hen luniau**
Dyma ddau lun a dynnwyd gan y diweddar Dilys Baylis o Lanberis. Mae ei merch, Gwendolyn, yn y ddau lun. Mae un yn dangos merched Llanberis efo tîm rhwyfo Cymru. Dilys wnaeth y Gwisgoedd Cymreig i groesawu Gemau'r Gymanwlad i Lyn Padarn a Llanberis yn 1958.

Llythyr gan Rol Williams, Waunfawr, ysgogodd i'r gemau ddod yma. Dydy Gwendolyn ddim yn cofio parti beth oedd yr ail lun. Tybed oes yna rywun yn gwybod mwy a beth ydy hanes pawb ers 64 mlynedd? Hefyd, does dim gwybodaeth am ddwy o'r merched, sef yr un ar y dde yn y rhes gefn a'r ail o'r chwith yn y rhes flaen. Da o beth fyddai cael cyfenw i Mary, Menai, Myra, Eurwen a May.



Parti Llanberis




# PENISARWAUN



Yn ystod gwasanaeth diolchgarwch yn Eglwys Santes Helen ar 25ain Hydref 2021, fe gyflwynwyd plac arbennig i Mr W. H. Williams, Arfryn, Llanrug, mewn cydnabyddiaeth a gwerthfawrogiad, am 40 mlynedd o wasanaeth fel prif organydd yr eglwys, ar achlysur ei ymddeoliad. Derbyniodd yr anrhydedd hwn gan y Parch Allan Wilcox i ddiolch am ei wasanaeth cyfan gwbl â thu hwnt i'r eglwys dros yr holl flynyddoedd.

**Eglwys Santes Helen**
Yn dilyn amser anodd a heriol yn ystod misoedd pandemig Covid-19, mae hi wedi bod yn gyfnod o agor a chau drysau yr Eglwys dros y ddwy flynedd aeth heibio.

Fel Eglwys rydym yn cydymdeimlo yn fawr iawn gyda phawb sydd wedi colli anwyliaid yn y cyfnod hwn ac yn dymuno adferiad buan i'r rhai sydd yn dal i ddioddef o'r salwch.

Yn dilyn y brechiadau mae'n edrych fel bod pethau yn ddechrau gwella yn araf deg a bywyd yn dod yn ôl i ychydig o normalrwydd. Rydym yn ddiolchgar dros ben i bawb sydd wedi bod yn gofalu am ei gilydd yn ein cymunedau, yn enwedig staff ein hysbytai, meddygfeydd lleol, gwasanaethau brys, cartrefi henoed a phawb sydd wedi sicrhau bod yr holl wasanaethau rydym yn dibynnu arnynt yn ddyddiol yn cario 'mlaen i redeg. Diolch i bawb.

**Gwasanaethau'r Eglwys**
Cynhelir Gwasanaeth o'r Cymun Bendigaid bob bore Sul am 11:00AM. Estynnir croeso cynnes i bawb i ymuno â ni. Mae rheolau Covid-19 yn dal mewn grym, er mwyn diogelwch i bawb.

Dros y Nadolig fe gynhaliwyd nifer o wasanaethau amrywiol gyda niferoedd da yn mynychu. Mynegwyd werthfawrogiad gan lawer o'r awyrgylch arbennig oedd yn yr Eglwys a'r modd yr oedd wedi ei haddurno mor chwaethus a phwrpasol i ddathlu Gŵyl y Geni. Hyfryd oedd gweld nifer o blant, pobol ifanc a theuluoedd ifanc yn yr Eglwys yn cyd-addoli dros yr Wŷl arbennig hon. Gobeithir yn y dyfodol agos ddechrau cynnal mwy o wahanol wasanaethau ar gyfer pob oed pan fydd effeithiau a sialensau'r pandemig wedi lleIhau ymhellach.

Rydym wedi gorfod gohirio y Gwasanaeth Arbennig am gyfnod byr i ddathlu can mlynedd ers sefydlu Plwyf Penisarwaun yn dilyn y datgysylltiad 101 o flynyddoedd yn ôl. Bydd manylion pellach yn cael eu cyhoeddi yn fuan.

**Y Fynwent**
Fe garai swyddogion yr Eglwys ddiolch yn fawr iawn am haelioni y rhai sydd wedi rhoi cyfraniad tuag at y gost o gynnal a chadw y fynwent dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae'r gwaith o gadw y fynwent yn daclus dros gyfnod y clo wedi parhau ac rydym yn ddiolchgar dros ben i Mr Morris o Gaernarfon a'i gyd-weithiwyr am eu gwaith. Os hoffech gyfrannu tuag at y gwaith yma derbynnir rhoddion yn ddiolchgar drwy Selwyn Griffith 7 Tal y Bont, Llanrug, LL55 4BT.

**Neuadd yr Eglwys**
Eto yn dilyn y cyfnod clo gwelwyd drysau'r Neuadd dan glo am nifer fawr o fisoedd. Da o beth yw gweld bod yna lu o wahanol weithgareddau yn cael eu cynnal yn ôl yno nawr gyda gweithgaredd pob nos o'r wythos, gan gynnwys y bingo wythnosol, cic focsio, clwb dawnsio hudolaeth a ambell i barti penblwydd. I logi'r neuadd cysylltwch ar 07966 013569.

**Bingo Arian**
Cynhelir bingo arian yn neuadd yr Eglwys pob nos Fercher am 7:00PM. Mae rheolau Covid-19 yn bodoli. Estynnir croeso cynnes i bawb.

# DEINIOLEN

**Neges gan y Cyng. Elfed Williams**
Mae'r gwaith i wella Ffordd Deiniol i lawr heibio Maes Gwylfa ac ymlaen at Allt Sam wedi ei gwblhau bellach. Gair o ddiolch i adran priffyrdd y Cyngor.

**Cronfa Ymddiriedolaeth Deiniolen**
Cyfarfu'r aelodau ar ddiwedd 2021 i drafod 4 cais a dderbyniwyd am gymorth. Dyfarnwyd cyfraniadau fel a ganlyn:

Merched y Wawr Deiniolen - £300
Seindorf Deiniolen - £900
Ysgol Feithrin - £800
Clwb Snwcer - £300

**Cydymdeimlo**
Cydymdeimlwn â theulu Miss Betty Williams, View Terrace, Deiniolen a fu farw yn Ysbyty Gwynedd yn 90 mlwydd oed ddydd Mawrth, Ionawr 25. Cydymdeimlwn â'i brawd Ieuan a'i chwaer-yng-nghyfraith Evelyn a'r holl deulu yn eu colled fawr.

Estynwn ein cydymdeimlad at deulu'r diweddar Elizabeth Parry Jones, Foel Gron, Dinorwig a fu farw'n diweddar yn 91 mlwydd oed. Cofion at Karen, Alison, Ruth a'r teulu i gyd.

**Teyrnged i Ronnie Williams, gynt o Ddeiniolen**
Ar 30ain Rhagfyr bu farw Ronnie Williams, yn 84 mlwydd oed, yng Nghaerlŷr (Leicester) lle'r oedd yn byw ers 1962. Cafodd ei eni ym Mhenisarwaun ond ei fagu gan ei nain yn Neiniolen ac edrychai arno'i hun fel 'un o hogia Llanbabs' i'r diwedd!

Dechreuodd weithio yn y chwarel yn 14 oed hyd nes galwyd ef i gyflawni ei wasanaeth cenedlaethol yng Nghorfflu Meddygol y Fyddin. Wedi ei gwblhau, fe ddechreuodd ar gwrs nyrsio seiciatreg yn Ysbyty'r Meddwl yn Ninbych ac ymgymryd â gyrfa eithaf anghyffredin yr oes honno. Yno y cyfarfu ag Yvonne, geneth o Sir Fflint oedd yn gweithio yn yr un maes. Ar ôl priodi symudodd y ddau i Gaerlŷr a magu bachgen a geneth, tra'n parhau hefo'u swyddi mewn gwahanol ysbytai yn y dref. Daliodd Ronnie i wneud gwaith ymgynghorol rhan-amser wedi ymddeol, ond bu'n rhaid iddo roi'r gorau iddo er mwyn edrych ar ôl Yvonne, a fu'n wael am beth amser cyn ei marwolaeth yn 2018.

Er treulio oes hir yng nghanol Lloegr, ni chollodd Ronnie'r mymryn lleiaf o'i Gymreictod. Bu ef a'i wraig yn aelodau pybyr o Gymdeithas Gymraeg y ddinas, a Ronnie'n Llywydd arni am rai blynyddoedd. Arferai drefnu teithiau i'r aelodau – i Gymru, wrth gwrs! Dilynai chwaraeon rygbi a phel-droed, a mawr fyddai ei lawenydd os digwyddai Cymru ennill. Roedd stoc o lyfrau Cymraeg ganddo yn y tŷ, ond beth roddai fwyaf o bleser iddo oedd derbyn yr Eco bob mis a chyfrannai'n achlysurol tuag ato, pob amser er coffadwriaeth am ei dad a laddwyd yn yr Eidal yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Un o Ddyffryn Conwy oedd o, yn hanu o hen deulu Efail Carneddau uwchben Llanrwst, a dyna'r cysylltiad rhwng Ronnie â mi – yr oedd fy mam yn gyfnither i'w dad. Parhaodd Ronnie yn driw iawn i'r berthynas, o'i blentyndod ymlaen. Cai bob amser groeso ar ein fferm pan ddeuai ar ei wyliau, ac ar adegau byddai yntau'n mynd a ni allan i ginio a'i gwmni hwyliog yn codi calon.

Cristion oedd yr 'hogyn Llanbabs' hwn, yn ei ddaliadau ac yn ei weithgareddau, y gallai'r hen bentref fod yn falch ohono.
*Sarah Kelly*

**Cylch Meithrin**
Hoffai'r Pwyllgor ddiolch i Emma am ei holl gwaith caled fel Cadeirydd i'r Cylch dros y blynyddoedd diwethaf a dymuno pob hapusrwydd iddi i'r dyfodol. Hoffai'r Pwyllgor hefyd groesawu Glesni Jones sydd wedi gwirfoddoli i fod yn Gadeirydd yn dilyn ymddiswyddiad Emma. Croeso atom.

Mae Anti Susan hefyd wedi gorffen gweithio yn y Cylch a hoffem ddiolch yn fawr iddi hithau am ei holl gwaith caled gyda'r holl blant bach dros y blynyddoedd.

Heb staff ymroddgar a gwirfoddolwyr gweithgar ar y Pwyllgor ni fyddai'r Cylch Meithrin yn bodoli, a byddai hynny'n golled fawr i holl blant bach y pentref.

**Cefnywaun ac Ebeneser**
Wedi dwy flynedd o fethu â chynnal oedfaon ers dechrau'r argyfwng Covid-19, bwriedir ail ddechrau oedfaon Cefnywaun ac Ebeneser yn Nhŷ Elidir ym mis Mawrth. Bydd yr oedfa gynatf am 3.30 o'r gloch ddydd Sul, Mawrth 6 yng ngofal y Gweinidog, y Parchg John Pritchard. Ceir manylion llawn am yr oedfaon yn *Gronyn* bob wythnos ac ar wefan yr Ofalaeth, **gronyn.org** neu **gronyn.wordpress.com.** Estynnir croeso cynnes i chi ymuno â ni.

# Ysgol Gwaun Gynfi

**Dathlu Canmlwyddiant yr Urdd**
Bu'r Ysgol yn rhan o'r ymdrech llwyddiannus i guro 'Guinness World Record', gan uwchlwytho fideo o'r plant yn canu 'Hei Mr Urdd'.

Fe wnaethom barhau â'r dathlu trwy goginio ac addurno cacennau.







**Blynyddoedd 3 a 4 yn Ymweld â Glanllyn**
Cawsom ddau ddiwrnod prysur iawn yn gwneud gwahanol weithgareddau. Pawb wedi mwynhau yn fawr. Diolch i Mr Owen, Miss Donna a Mrs Williams am eu gwaith caled yn gofalu amdanom.

Hoffem hefyd ddiolch i'r Urdd am y cyfle i fynychu er gwaethaf y cyfnod pryderus eto eleni.





**Gweithdy Deian a Loli**
Diolch yn fawr i griw Deian a Loli ddaeth draw i'r ysgol i gynnal gweithdy gyda disgyblion blynyddoedd 3, 4, 5 a 6. Roedd pawb wedi mwynhau cael cyfle i actio ac i berfformio. Mae rhai wedi bod yn ffodus iawn o gael eu dewis i'r gweithdy nesaf.

Pwy a ŵyr, efallai mai rhai o ddisgyblion Gwaun Gynfi fydd actorion Deian a Loli nesaf. Pob hwyl iddynt.

# Ysgol Brynrefail




**Profiad Gwaith am ddiwrnod yr wythnos yn Morrisons**
Llongyfarchiadau i Ian Jones (Blwyddyn 11) sydd wedi gallu cael cyfle i dreulio diwrnod yr wythnos ar brofiad gwaith yn Morrisons Caernarfon. Mae Ian yn cael dysgu sgiliau newydd tra ar brofiad gwaith yno ar ddydd Mercher y tymor hwn. Mae'n amlwg o'r llun bod Ian wedi gwirioni gyda'r cyfle hwn ac yn falch iawn o'r wisg a gafodd gan y cwmni i'w gwisgo tra'n gweithio yn y siop. Diolch i staff yr Hwb yn yr ysgol a staff Morrisons Caernarfon sydd wedi rhoi'r cyfle arbennig yma i Ian.





**Disgyblion Chweched Dosbarth yn rhannu eu technegau adolygu gyda'r BBC**
Llongyfarchiadau gwresog i ddau o'n disgyblion o'r Chweched Dosbarth ar gael eu dewis gan y BBC i weithio ar raglen ar gyfer gwefan Bitesize ar sgiliau a thechnegau adolygu ar gyfer arholiad. Mae Nel Jones – un o'n prif ddisgyblion – ym Mlwyddyn 13, ac yn gobeithio astudio Newyddiaduraeth yn y dyfodol. Mae Jack Booth yn ddisgybl ym Mlwyddyn 12 sydd â'i fryd ar astudio Gwyddorau Eigion. Byddant yn treulio cyfnod yn y brifddinas dros wyliau'r hanner tymor yn ffilmio. Go dda wir!

**Diwrnod Sgiliau Tymor y Pasg – 16eg Chwefror**
Erbyn i'r rhifyn hwn o *Eco'r Wyddfa* gael ei gyhoeddi fe fydd y diwrnod sgiliau wedi ei gynnal. Cewch fwy o hanes y diwrnod yn y rhifyn nesaf. Dyma amlinelliad o ba weithgareddau y bydd pob blwyddyn wedi eu gwneud: rhyw damaid i aros pryd!

Blwyddyn 7: Thema 'Yr Ynys' – gweithgareddau a sialensau tîm, drama a chelf, creu cân.

Blwyddyn 8: Thema 'Diwrnod Iechyd Meddwl' – sesiwn yn dysgu sut mae'r meddwl yn gweithio, yoga a cherdd, crefftau a sesiwn hapusrwydd.

Blwyddyn 9: Thema 'Byw Bywyd Iach' – iechyd corfforol a ffitrwydd, bwyta'n iach, iechyd meddwl.

Blwyddyn 10: Thema 'Gwaith y Bac' – gweithdai Her Fenter, datblygu syniad busnes, meddwl creadigol a gwaith tîm, fy CV.


Blwyddyn 11: Thema 'Adolygu' – gweithdy adolygu, strategaethau adolygu, sut i lwyddo yn fy arholiadau.

Blwyddyn 12: Thema 'Her y Gymuned' – mentora a chefnogi disgyblion Blwyddyn 7, 8 neu 9, datblygu sgiliau cydweithio, arwain ac effeithiolrwydd personol.

Blwyddyn 13: Ymchwil Unigol, sgiliau gweithio'n annibynnol, ymchwilio a llythrennedd digidol, effeithiolrwydd personol a datrys problemau, cyllid myfyrwyr, te bach.



**Disgyblion Blwyddyn 8 i'w gweld ar S4C**
Mae cyfres newydd i blant, 'Gwrach y Rhibyn', wedi cychwyn bob nos Wener ar Stwnsh. Cofiwch wylio disgyblion blwyddyn 8 yn cymryd rhan ar S4C neu S4C Clic.




**Er Cof am Mr Alwyn Francis Pleming**
(Cyn-bennaeth Cymraeg, Ysgol Brynrefail, Llanrug)

Gŵr siriol fu'n ysbrydoli, - athro
fu'n meithrin a rhoddi
o'i afiaith ein hiaith i ni
a'i llên yn wefr i'n llonni.

**Bryn Jones**





BYSUS RHIWLAS
BYSUS BACH A MAWR
ar gael ar gyfer pob math o LOGI PREIFAT
Nosweithiau allan, Partion, Tripiau ac ati.
Am wasanaeth personol a thelerau rhesymol -
Ffoniwch **(01248) 361044**
**D. P. OWENS** RHIWLAS







## CAEATHRO

**Capel**
Ar y 6ed o Fawrth bydd gwasanaeth dan arweiniad Llinos Roberts am 2:00PM. Bydd Cyfarfod Blynyddol i ddilyn am 3:00PM i aelodau a chyfeillion y Capel – cyfle i dderbyn adborth am y cyfnod a fu, ynghyd â chyfle i ddarparu sylwadau am weithrediad y Capel i'r dyfodol. Ar yr 20fed o Fawrth, bydd Gwasanaeth dan arweiniad Arwel Williams i gychwyn am 2:00PM.

**Apêl am newyddion**
Gyda chyfyngiadau Covid-19 yn parhau i gael effaith ar weithgareddau cymdeithasol Caeathro a'r cyffiniau, mae llenwi'r golofn yn ddiweddar wedi profi'n dipyn o dasg! Felly os oes gan unrhyw un ohonoch newyddion / lluniau yr hoffech eu cynnwys yn yr *Eco*, byddwn yn hynod ddiolchgar pe gallech gysylltu gyda mi drwy'r e-bost arferol. Diolch yn fawr.



# Ti'n cofio 40...30...20...10?

Wyddoch chi fod gwefan *Eco'r Wyddfa* – www.ecorwyddfa.co.uk – yn drysorfa o atgofion am yr hyn sydd wedi bod yn digwydd yn ein bro am dros 45 o flynyddoedd? Os ewch chi i'r adran 'Archif' ar y wefan fe gewch fynediad i'r holl hen rifynnau a nifer fawr o luniau.

Cyhoeddwyd rhifyn cyntaf yr *Eco* fis Chwefror 1976, a'r rhifyn hwn yw rhif 499, un yn brin o ddathlu cyhoeddi rhifyn 500. Dipyn o gamp! Ewch i gael cip ar yr hen rifynnau a'r lluniau i weld os yw'ch llun chi yno, pa newyddion gyrhaeddodd y tudalenau blaen neu beth oedd yn digwydd ym mis eich geni!

Er mwyn rhoi blas i chi, dyma ychydig o bytiau o gynnwys *Eco'r Wyddfa* mis Mawrth 40, 30, 20 a 10 mlynedd yn ôl…


ECO'R WYDDFA
Yn Eisiau – Trefnydd Gwerthiant
DATHLU 85 MLYNEDD GYDA'I GILYDD
CAR ARBENNIG YN LLANRUG
CYFLE I GYNRYCHIOLI CYMRU
CODI PRIS YR ECO

## Mawrth 1982

Pris yn 15c.

- Cyhoeddi y bydd pris yr *Eco* yn codi i 20c o'r rhifyn nesaf ymlaen.
- Dyfodiad car arbennig iawn i Stad Minffordd, Llanrug, yn eiddo i Mr Richard Owen. Cafodd model yr El-Pantera gan gwmni De-Tomaso o'r Eidal ei adeiladu â llaw, ac yn ôl yr hysbyseb, "Dyma'r car cyflymaf sy'n cael ei gynhyrchu ar gyfer y ffordd", gyda chyflymdra o 192 m.y.a. Roedd car Mr Owen yn un o ddim ond dau yn y byd i gyd oedd â pheiriant arbennig Blue Print yn ei wneuthuriad – roedd un o'r ceir yn America a'r llall yn Llanrug!
- Adroddiadau di-ri am lwyddiant ffug-eisteddfod Bro'r *Eco* a gynhaliwyd ym mis Chwefror. Enillwyr Tlws y Ffwlbri oedd pentref Bethel.
- Cyfarwyddiadau ar sut i dyllu twll mewn coeden fedwen er mwyn tynnu 'sudd y fedwen'. Mae'r sudd yn ei dro yn cael ei gymysgu â lemon, oren, rhesin, burum a siwgr a'i drin er mwyn creu gwin. Mae'n win sy'n hanu o ardal môr y Baltig ac roedd yn hynod boblogaidd yn Rwsia yn y 19eg ganrif, mor boblogaidd nes bod fforestydd cyfan yn cael eu difa.
- Yn dilyn eu buddugolaeth yng nghystadleuaeth werin yr Urdd, roedd y grŵp Gwlith o Ysgol Brynrefail yn cymryd rhan yng nghystadleuaeth Cân i Gymru. Yn dilyn hynny byddent hefyd yn cael mynd ymlaen i gynrychioli Cymru yn yr Ŵyl Geltaidd yn Nghil Airne, Iwerddon.


CAR ARBENNIG YN LLANRUG


ESTD 1973
WAVELLS
AWARD WINNING BUTCHERS AND DELI
DELI A CHIGYDD O FRI
Bryn ac Angela Williams
LONDON HOUSE LLANRUG
yr ŵyn lleol mwyaf blasus
selsig cartre
cigoedd parod i'w bwyta
archebion ar gyfer y rhewgist
(01286) 673574


## Mawrth 1992

Pris yn 25c.

- Ar y dudalen flaen gwelwn anrhydeddu chwaraewyr y fro – gwobrwyo Michael Wroe, y sgïwr talentog, gyda Thlws Chwaraewr y Flwyddyn yn Arfon. Yng nghorff y papur, ar dudalen 13, dysgwn fod ei chwaer Caitlin hefyd wedi ei dewis i fod yn aelod o dîm sgïo Prydain.
- Dathlu canmlwyddiant cyhoeddi cylchgronau gan yr Urdd. Ym 1892 yr ymddangosodd *Cymru'r Plant* gyntaf, ac erbyn 1992 roedd gan yr Urdd dri chylchgrawn *CIP*, *Bore Da* a'r cylchgrawn *Mynd* ar gyfer dysgwyr.
- Dyma lun o ddisgyblion Ysgol Bethel yn 1932, a gyhoeddwyd gan fod yr Ysgol yn astudio hanes lleol.
- Prosiect sy'n cael ei arwain gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn cyfieithu ffurflenni sy'n cael eu defnyddio gan lysoedd ynadon, gan mai llai na 10% o ffurflenni oedd ar gael yn y Gymraeg tan hynny.


ECO'R WYDDFA
CYSWLLT Â'R INDIA
GWENAN AR EI FFORDD
ANRHYDEDDU CHWARAEWYR Y FRO – MICHAEL AR Y BRIG –
TERRY WEDI DYCHWELYD
HWYL, A DIOLCH ANTI MERI




ECO'r Wyddfa

**Hoffech chi hysbysebu eich busnes yma?**

Cysylltwch â'n Trefnydd Hysbysebion a Dosbarthu

Hefin Jones
Pantmwyn, Llanrug
01286 673838
hefsj@aol.com




**Mawrth 2002**
Pris yn 40c.


ECO'R WYDDFA

Gaddo 700 o Swyddi

- Stori'r dudalen flaen yw dyfodiad posib canolfan sgïo dan-do i safle Chwarel Glyn Rhonwy yn Llanberis. Roedd honiad, a gobaith, y byddai angen buddsoddiad o £150miliwn ac y byddai'r cynllun yn creu 700 o swyddi, gyda 90% o'r rheiny ar gael i bobl Gwynedd a Môn.
- Bu trafodaeth am ddyfodol yr Eco, ac apêl am wirfoddolwyr i helpu gydag amrywiol swyddi, mewn rhifynau blaenorol. Erbyn y rhifyn hwn ym mis Mawrth, gwneir apêl eto am 2 neu 3 o unigolion i helpu gyda'r gwaith golygyddol. Mae'r apêl honno'r un mor berthnasol yn 2022!
- Llwyddiant i ddisgyblion Ysgol Brynrefail – Cenin Eifion ac Emma Williams wedi eu dewis i chwarae i dîm rygbi merched dan 16 oed Gogledd Cymru. Rhagor o ddifyrwch yn yr Ysgol gydag ymweliad Stifyn Parri, fu'n cynnal sesiwn hyfforddi canu a 'pop idol' er mwyn ceisio darganfod seren nesaf y 'West End'.
- Atgofion difyr J. Rhyd Humphreys am ei blentyndod fel disgybl yn Ysgol Waunfawr yn nhridegau'r ganrif ddiwethaf.
- Hysbyseb am raglen newydd fyddai'n cychwyn ar S4C, sef 04 Wal, gyda Siân Lloyd ac Aled Sam yn cyflwyno. Mae Aled Sam yn dal wrthi'n cyflwyno rhaglenni sy'n busnesa yn nhai pobl ugain mlynedd yn ddiweddarach!
- Gwahoddiad i drigolion lleol i ddod i gyfarfod cyhoeddus i drafod ymestyn Lôn Las Peris, sef y llwybr beicio sy'n rhedeg ar hyd ochr Llyn Padarn.


Model o'r datblygiad newydd all ddod i ardal yr Eco.

---

**Mawrth 2012**
Pris yn 50c.


ECO'r Wyddfa

Llundain pia'n hi - nid Llanberis


- Siom na fyddai Ras yr Wyddfa'n cael ei darlledu ar S4C yn nes ymlaen yn y flwyddyn (Gorffennaf) am ei bod yn cael ei chynnal yr un pryd â chychwyn Gemau Olympaidd Llundain. Blaenoriaethau, hyna bedio!
- Erthygl 'Cofio Dilys Cadwaladr', y ferch gyntaf i ennill Coron yr Eisteddfod Genedlaethol, a hynny ym 1953.
- Mae Geidwragedd o'r ardal wedi ennill gwobr Amgylchedd Cymru 'Gwobr Cymru Daclus 2011' ar gyfer Gwella Coetir.
- Roedd cynigion cychwynnol Comisiwn Ffiniau i Gymru yn argymell newid llwyr i ffiniau etholaethau seneddol. Awgrymwyd y dylai Bethel, Deiniolen a Phenisarwaun ymuno ag etholaeth Menai ac Ynys Môn, tra bod Llanrug, Cwm-y-Glo a Llanberis yn ymuno ag etholaeth anferth Gwynedd. Byddai'r etholaeth 'Gwynedd' newydd yn ymestyn hyd at Fachynlleth i'r de, dyffryn Conwy i'r dwyrain a Dwyfor a Meirionnydd yn gyfan. Diolch byth na ddaeth dim o'r argymhellion!




CREU • CYMUNEDAU • GWYRDD
GWYRDDNI
COMMUNITY • CLIMATE • ACTION

Lowri Hedd Vaughan ydw i a dwi'n falch iawn o gael gweithio gyda mudiad GwyrddNi yn ardal Dyffryn Peris er mwyn creu digwyddiadau arbennig - Cynulliadau Cymunedol ar yr Hinsawdd - i alluogi cymunedau i ddod at ei gilydd i ddysgu, rhannu, trafod a gweithredu tuag at ddyfodol adfywiol.

Mae atgofion melysaf fy mhlentyndod bron i gyd mewn cae, neu goedwig neu ger corff o ddŵr; ar fferm odro fy nhaid a nain yn Sir Benfro, yng nghoedwig pinwydd Bodffordd ac yn yr afon ger Pont Abarim yn Llanfachraeth. Dwi'n gobeithio y bydd yr un peth yn wir i fy meibion pan ddont i adfyfyrio ar eu dyddiau cynnar.

Mae meddwl am sut etifeddiaeth amgylcheddol y bydd gan y genhedlaeth nesaf i'w fwynhau yn codi cymysgedd o deimladau ynof fi. Mae'r gymdeithas sydd ohoni yn sefyll ar groesffordd rhwng adferiad a cholledion bioamrywiaeth a'n ffyrdd presennol o fyw.

Ydych chi'n pendroni ynglŷn â'r un mathau o gwestiynau a finnau ers rhai blynyddoedd?

Be' ydy graddfa'r argyfwng hinsawdd yn fyd eang?

Sut mae'n debygol o'n heffeithio yma yng Nghymru?

Be sy'n digwydd yn barod i fynd i'r afael â'r broblem?

Be' alla i ei wneud yn bersonol?

Beth allwn ni ei wneud fel cymuned?

Bydd Cynulliadau Cymunedol ar yr hinsawdd yn cyflwyno tystiolaeth byw a gwybodaeth gynhwysfawr ar y materion yma i gyd. Bydd rhywfaint o'r wybodaeth yn heriol ond bydd y rhan helaeth yn ysbrydoli.

Byddwch yn cael dod i wybod mwy am eich milltir sgwâr, ei hanes a'i natur, am eich cymdogion ac arloeswyr lleol, cenedlaethol a rhyngwladol. Cewch wrando, trafod a mynegi barn. Bydd cyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp hwyliog ac ymweliadau maes.

Yn bwysicaf oll, bydd y Cynulliad yn dod a syniadau ac argymhellion at ei gilydd er mwyn i ni gael gweithredu yn gadarnhaol i greu'r math o ddyfodol y carwn ei weld i ni'n hunain ac i'r cenedlaethau sydd i ddod.

Mae eich profiadau, eich teimladau a'ch syniadau chi yn werthfawr dros ben. Cewch gefnogaeth bob cam o'r ffordd i fynychu a chymryd rhan a chael bod o wasanaeth i'ch ardal.

Os dymunwch ateb yr alwad i fod ar flaen y gad ac yn creu gwell yfory - cwblhewch y ffurflen mynegiant diddordeb drwy roi'r ddolen yma yn eich porrwr - https://bit.ly/GwyrddNiPeris - ac mae'n bosib y cewch eich dewis fel un o'r 50 fydd yn cynrychioli cymunedau Dyffryn Peris trwy broses unigryw a chyffrous.

Gallwch hefyd gysylltu â fi am fwy o wybodaeth neu gael cip ar ein gwefan - www.gwyrddni.cymru

Lowri Vaughan
lowri@deg.cymru
07850 352 478

---

## O Ben Dinas, Llanddeiniolen
**11.02.2022**


Edrych mewn drych yw crwydro - i'w chopa,
ceir chwip o olygfa;
o dir braf, tapestri bro,
heb iaith pwy fydd i'w bwytho?

**Richard Lloyd Jones**

# Cyfle i roi barn ar asesiad o lesiant yn eich ardal chi

Mae pobl Gwynedd ac Ynys Môn yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn ymgynghoriad cyhoeddus ar ddogfennau drafft sy'n amlinellu'r prif faterion fydd angen sylw mewn cymunedau ar draws y ddwy sir.

Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn - sy'n cynnwys y ddau gyngor sir, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Chyfoeth Naturiol Cymru - wedi rhannu'r ddwy sir yn 14 o ardaloedd llai ar gyfer Asesiad o Lesiant Lleol. Mae 8 o'r rhain yng Ngwynedd, ac mae ardal Dyffryn Peris yn rhan o 'Ardal Caernarfon'. Mae gwaith ymchwil manwl wedi ei gynnal ar bob un o'r 14 ardal er mwyn deall a dysgu mwy am lesiant yr ardaloedd hynny.




Yn ogystal â'r data sydd wedi ei gasglu, mae partneriaid y Bwrdd wedi ymgysylltu'n helaeth yn ystod y misoedd diwethaf. Y prif ddarn o waith yng Ngwynedd yw ymarferiad 'Ardal Ni 2035' lle mae grwpiau, mudiadau a chynghorau lleol wedi adnabod blaenoriaethau posib fydd angen sylw dros y 10-15 mlynedd nesaf. Ym Môn, cafodd holiadur cyhoeddus ei gylchredeg oedd yn gofyn i drigolion ddweud beth oeddent yn ei hoffi am eu hardal a beth oeddent am ei wella.

Bwriad Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn yw defnyddio casgliadau'r gwaith ymchwil ac ymgysylltu yma i greu cynllun llesiant ar gyfer y ddwy sir, er mwyn cyflawni gwelliannau a fydd yn sicrhau'r dyfodol gorau posib i gymunedau yn unol â disgwyliadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

Meddai Emyr Williams o Barc Cenedlaethol Eryri, Cadeirydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn:

"Ein nod fel Bwrdd ydi sicrhau bod darparwyr gwasanaethau cyhoeddus ar draws y ddwy sir yn cydweithio i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau trigolion Gwynedd ac Ynys Môn.

"Nod yr asesiadau llesiant yw edrych mewn manylder ar y materion economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol hynny sy'n berthnasol i holl gymunedau'r ardal.

"Er mwyn sicrhau ein bod ar y trywydd cywir, rydym yn awyddus i gael barn pobl ar y dogfennau drafft lleol cyn cyhoeddi'r fersiynau terfynol o'r asesiadau ym mis Mai.

"Fwy na dim, rydym am wybod os yw trigolion yn teimlo bod yr wybodaeth rydym wedi ei gasglu a'i gynnwys yn adlewyrchiad teg o'u cymunedau, neu os oes unrhyw wybodaeth allweddol ar goll.

"Ar ddiwedd yr ymgynghoriad byddwn yn defnyddio'r holl wybodaeth ac ymatebion yr ydym wedi ei gasglu i greu cynllun llesiant fydd yn llywio gwaith y Bwrdd am y pum mlynedd nesaf."

Mae'r ymgynghoriad ar agor tan 15 Mawrth 2022 a gellir darllen y dogfennau drafft a llenwi holiadur byr drwy ymweld a www.LlesiantGwyneddaMon.org/cy/

Mae copïau papur hefyd ar gael yn llyfrgelloedd Gwynedd a Môn

## LLANRUG

**Diolchiadau**

Dymuna Menna, Fferm Minffordd, ddiolch o galon i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am yr holl gardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar ei phenblwydd yn 80 oed.


**Diolch**

Dymuna Jennifer, Nigel, Bryn ac Iola ddiolch yn ddiffuant iawn i bawb o'r teulu a'u ffrindiau am eu caredigrwydd wedi iddynt golli Gareth Thomas, oedd yn ŵr, tad a thaid arbennig iawn. Diolch i'r Parch John Pritchard, Llanberis am arwain gwasanaeth teimladwy yn yr Amlosgfa; i Mrs Einir Wyn Williams yr organyddes ac i'w ffrind Mr John Pritchard, Caernarfon am ei deyrnged werthfawr. Gwerthfawrogwyd yn fawr y lluniaeth ardderchog a baratowyd gan eu ffrindiau yng Nghapel y Rhos. Rhaid cydnabod gwasanaeth arbennig Mrs Meinir Griffith, Tros y Waen am ei charedigrwydd a'i chynhaliaeth annwyl iddynt fel teulu ar amser mor drist ac anodd. Diolch o galon am y rhoddion hael a dderbyniwyd tuag at Feddygfa Llanberis a Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd er cof am Gareth.

AVW Advanced Vehicle Workshop
Arbenigwyr mewn ceir VW
Audi, Seast, Skoda a Porche
Gwasanaeth Lleol, Cyfeillgar a Phroffesiynol ers 1975
Which? Trusted trader
01286 673559
BOSCH Service
Parth 2, Stad Ddiwidiannol Cibyn, Caernarfon, LL55 2BD - www.AVWBosch.co.uk

DODREFN A LLORIAU
PERKINS
01286 673535
www.perkinsfurniture.co.uk
16 Stryd Porth Mawr, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1AG

E. W. PRITCHARD
Trefnwyr Angladdau
CENTRAL GARAGE, LLANBERIS
FFÔN - (01286) 870202



Tyddyn Teg
Bwyd - Tir - Pobl
LLYSIAU LLEOL FFRES
Ymunwch â'n cynllun llysiau!
Dewch i'n siop!
- Rydym bob amser gyda llysiau blasus a ffres o'n caeau a'n twneli polythen.
- Rydym wedi ein lleoli ym Methel ar y ffordd tuag at Llanrug.

Cysylltwch â ni: **07599 813777**
info@tyddynteg.com
Neu ewch i'n gwefan: **www.tyddynteg.com**

# Ysgol Gynradd Llanrug








**Dathlu Mistar Urdd yn 100 oed**
Cafwyd diwrnod prysur yn dathlu Canmlwyddiant Yr Urdd yn ddiweddar. Roedd pob dosbarth yn byrlymu gyda gweithgareddau, cyn gorffen y dydd gyda chacen Mr Urdd!








**Blwyddyn Newydd Dda Chineaid**
Rydym wedi gwir fwynhau dysgu am ddathliadau Blwyddyn Newydd Y Chineaid. Daeth Elsi â rhai o arteffactau gan ei theulu i'w dangos. Cafwyd cinio blasus a chyfle i wisgo dillad arbennig, cyn gorffen y dathliadau gyda dawns a "fortune cookies" i bawb.




**Thema Teithio**
Mae blynyddoedd 3 a 4 wedi bod yn gweithio ar y thema 'Teithio' yn ddiweddar. Fel rhan o'u gwaith bu Dosbarth Y Garn yn creu Peiriant Amser!

Mae llawer mwy o luniau a ffilmiau i'w gweld ar Twitter @YsgolGynLlanrug.





**Dydd Miwsig Cymru**
Rydym wrth ein boddau efo pob math o gerddoriaeth Gymraeg ac wedi gwirioni deall fod cysylltiad rhwng Nedw a'r band Candelas. Dyma rai o ddisgyblion blwyddyn 5 a 6 yn edrych ymlaen i gael dathlu Dydd Miwsig Cymru.





# Anrheg o Gwpan a Thebot o Ebenezer





Oes gennych chi gwpan bach lliw pinc a thebot o'r un lliw gyda'r geiriau 'A Present from Ebenezer' arnynt? Wel mae gan John ac Alwena Hughes-Jones, sydd yn byw yn Crawia, Llanrug, gwpan o'r fath, ac mae gan Eleri Jones (gynt o Gae Main ac wedyn Rhydfadog, Deiniolen), sydd yn byw yn Llanelwy ers priodi yn 1976, debot o'r un lliw.

Mae'r gwpan wedi bod yn eistedd yn daclus iawn mewn cwpwrdd gwydr yng nghartref Alwena a'i gŵr yn Crawia ers hanner can mlynedd. Does dim gwybodaeth ar y gwpan, fel dyddiad a gwneuthurwyr, ac o'r herwydd does wybod beth yw ei hanes. Tybed ai anrheg o Ebenezer y pentref, neu o Gapel Ebenezer oedd hi?

Yr unig beth mae John ac Alwena yn ei wybod gyda sicrwydd yw mai gan daid a nain Alwena y daeth y gwpan iddyn nhw. Enw ei nain a'i thaid oedd John a Mary Edwards. Bu'r ddau yn byw yn Fron Olau, Gallt y Foel, cyn symud wedyn i 8 Tai Gweledfa neu View Terrace, Deiniolen. Pan fu farw'r ddau, fe ddaeth y gwpan i ddwylo Alwena.

Gan wyres arall i John a Mary Edwards y mae'r tebot. Daeth Eleri, cyfnither Alwena, ar draws y tebot wrth iddi glirio cartref ei rhieni yn Rhydfadog ar ôl i'w mam farw ac mae wedi ei gadw ers hynny. Fel yn hanes y gwpan, does dim gwybodaeth arno sydd yn nodi dyddiad na'r gwneuthurwr, na phwy oedd yn ei werthu.

Fel y soniwyd yn rhifyn Chwefror yr Eco, Ebenezer oedd yr enw ar bentref Deiniolen hyd at 1926, ac felly cymerir bod y gwpan a'r tebot yn dyddio yn gynharach na hynny. Yn ddiddorol iawn, roedd H. R. Jones, sef y gŵr arweiniodd yr ymgyrch dros newid yr enw o Ebenezer i Ddeiniolen yn byw am gyfnod yn 8 Tai Gweledfa, lle'r oedd taid a nain Alwena ac Eleri yn byw. Heddiw mae plac ar wyneb y tŷ gyda'r geiriau 'Cartref H. R. Jones, Arloeswr a Chenedlaetholwr'. Byddai'n dda cael gwybod pa bryd y bu H.R. yn byw yno.

Os oes rhywun yn gwybod pa bryd y bu H. R. Jones yn byw yn 8 Tai Gweledfa, mi fyddai Glyn Tomos yn falch o glywed gennych. Ei fanylion cyswllt yw 07917 317205 neu tomos882@btinternet.com



Alwenna Hughes-Jones gyda'r gwpan




Y gwpan binc

## DINORWIG

Aeth mis arall heibio, a braf gweld y dydd yn ymestyn bellach. Nid yw'r tywydd chwaith wedi bod yn rhy ddrwg, er i ni gael trwch o eira ar y mynyddoedd. Diolch na ddaeth yn ddim is, er bod gennym fis arall i fynd heibio cyn y byddwn wedi cefnu ar fygythiad y gaeaf.

**Profedigaeth**
Cydymdeimlwn â Mrs Betty Jones, Tan y Buarth Uchaf a'r teulu ar golli ei brawd hynaf yn 87 oed. Roedd yn byw ar Ynys Môn.

**Damwain**
Mae'n chwith peidio â gweld Mr John Horrigan, Ger y Coed yn mynd a dod ar hyd y ffordd yn dilyn damwain ddrwg i'w law. Gobeithio'n fawr y bydd wedi cael dod gartref o'r ysbyty erbyn i'r rhifyn hwn eich cyrraedd.

**Cefnywaun ac Ebeneser**
Wedi dwy flynedd o fethu â chynnal oedfaon ers dechrau'r argyfwng Covid-19, bwriedir ail ddechrau oedfaon Cefnywaun ac Ebeneser yn Nhŷ Elidir ym mis Mawrth. Bydd yr oedfa gyntaf am 3:30PM ddydd Sul, 6ed Mawrth yng ngofal y Gweinidog, y Parchg John Pritchard. Ceir manylion llawn am yr oedfaon yn *Gronyn* bob wythnos ac ar wefan yr Ofalaeth, **gronyn.org** neu **gronyn.wordpress.com.** Estynnir croeso cynnes i chi ymuno â ni.

**Marwolaethau**
Yn ystod un penwythnos ddechrau Chwefror collwyd tair o aelodau'r capel, a chydymdeimlwn â'u teuluoedd a'u cydnabod oll.

Miss Betty Williams: Bu farw Betty Williams, 4 Cynfi Terrace yn hynod o sydyn yn 90 oed. Roedd yn aelod ffyddlon yng Nghapel Cefn y Waun; yn un o'r organyddion ac yn gyfrifol am y llyfrau ariannol. Gwnaeth y ddwy swydd gyda graen. Bu'r gwasanaeth angladdol yn yr Amlosgfa, Bangor.

Mrs Aileen Williams: 3 Y Bwthyn gynt. Yr un mor sydyn oedd colli Aileen yn 92 oed, a hynny yn fuan wedi ei derbyn i Ysbyty Gwynedd. Yr oedd wedi symud i Hafan Elan, Llanrug er mwyn cael bod yn nes at ei merch, Nerys. Fe'i claddwyd ym Mynwent Macpelah gyda'i diweddar ŵr, Glyn.

Mrs Elizabeth Jones, Foel Gron yn 91 oed: Bu'n byw gydol ei hoes yn y Foel ac yn aelod ffyddlon yn y capel nes iddo gau ei ddrysau. Ymaelododd wedyn ag Eglwys Crist, Llandinorwig. Cydymdeimlwn â'i merched, Karen, Alison a Ruth.

"Mawrth a ladd, Ebrill a fling." Daeth yr hen ddywediad yn wir yn gynharach eleni.

**Cofion**
Anfonwn ein cofion at bawb o'r ardal sydd heb fod yn dda eu hiechyd dros y mis diwethaf.

Cwôt di-dal
HUW OWEN
PLASTRWR
ADEILADWR LLEOL
23 BLWYDDYN O BROFIAD
Ffôn - 01286 677668
Symudol - 07940023159

Gladwyn, Ffordd yr Orsaf
LLANRUG
LL55 4AG
Ebost - lisa.huw@btinternet.com

SAMARIAID
Gogledd Orllewin Cymru
Beth bynnag rydych chi'n ei wynebu
Rydyn ni yma i wrando
Llinell Gymraeg ddi-dâl
7-11pm bob nos
0808 164 0123
Gwefan: www.samariaidbangor.cymru

# Un funud fach …

## BRYNCYN DEWI

Os byw ac iach, caf fynd am dro i Dregaron pan gynhelir yr Eisteddfod yno – ar y trydydd cynnig – ym mis Awst. Hyd y cofiaf, fûm i erioed yn y dre hon o'r blaen. Ac nid nepell o Dregaron mae yna bentref na fûm erioed ar ei gyfyl er i'w enw fod yn gyfarwydd i mi ers yn ifanc iawn. Yr un peth a gofiaf am ddathliadau Gŵyl Ddewi yn Ysgol Dolbadarn fy mhlentyndod ydi bod y chwedl gyfarwydd am y ddaear yn codi dan draed Dewi Sant wrth iddo bregethu yn Llanddewi Brefi'n cael ei hadrodd i ni bob blwyddyn.

Gallaf ddychmygu y bydd amryw o eisteddfodwyr yn awyddus i dreulio awr neu ddwy yn y pentref hwnnw eleni. Yn ôl y traddodiad, y bryncyn y saif Eglwys Dewi Sant arno heddiw yw bryncyn enwog Dewi. Ac os llwyddaf i fynd yno, caf innau fel llawer un arall, ddychmygu Dewi'n pregethu ar y darn tir hwn a'r ddaear yn codi dano er mwyn i bawb ei weld a'i glywed.

Mae stori Llanddewi Brefi wedi dal dychymyg pobl ers cenedlaethau. Hyd y cofiaf, nid chwedl oedd hi i mi yn yr Ysgol ers talwm ond hanes. A hyd yn oed os ydw i bellach yn credu mai un o'r chwedlau a luniwyd am Dewi a Seintiau eraill ei gyfnod ydi'r stori hon, rwy'n dal i gredu bod yna godi wedi digwydd yn Llanddewi. Os na chodwyd Dewi, mi ddyrchafwyd Iesu Grist trwy bregethu Dewi yno ac ym mhobman arall y bu'n cyhoeddi'r newydd da amdano ar hyd ei weinidogaeth.

Feddylioch chi erioed be' fyddai gan Dewi ei hun i'w ddweud am stori'r tir yn codi? Rhyw feddwl ydw i na fyddai o am roi fawr o sylw iddi. Oherwydd nid dyn chwedlau oedd Dewi ond dyn y gwir. A hyd yn oed pe byddai stori'r bryncyn yn gyfan gwbl wir, tybio ydw i y byddai Dewi'n mynnu bod dyrchafu Iesu Grist gan' cymaint pwysicach na chodi talp o dir. I Dewi, nid bryncyn ac arno eglwys yn dwyn ei enw, sy'n bwysig ond yr Efengyl y bu ef a'i gydweithwyr yn ei chyhoeddi. A mentraf ddweud y byddai Dewi'n dweud wrthyf fi a phawb arall a fydd yn ymweld â'i hen ardal yr haf hwn i hoelio'n sylw yn gyntaf nid ar ddarn o dir nac addoldy ond ar yr Iesu y bu ef yn ei gyhoeddi i bobl ei oes.

Does dim dwywaith amdani, mi godwyd Dewi. Fe'i codwyd gan Dduw i bregethu'r Efengyl ac i ledaenu'r Ffydd Gristnogol. Fe'i codwyd gan yr Ysbryd Glân i gyhoeddi Iesu Grist i bobl ei oes. Ac nid i'w oes ei hun yn unig chwaith gan fod Dewi wedi parhau i dystio dros y canrifoedd.

Mi af am dro i Landdewi, ac mi gaf olwg ar fryncyn ac eglwys. A gallaf ddychmygu, wrth i mi edrych arnynt y bydd Dewi'n mynnu fy mod yn codi fy ngolwg at fryncyn arall ac arno groes ac ar honno, yn dioddef a marw drosom, wrthrych mawr ffydd y ddau ohonom.

*JOHN PRITCHARD*



# Dydd Gŵyl Dewi

'Gwisg genhinen yn dy gap, a gwisg hi yn dy galon…' dyfyniad addas iawn i ddechrau mis Mawrth, oherwydd ar 1af Mawrth bob blwyddyn byddwn ni, fel Cymry, yn dathlu ein nawddsant, Dewi Sant.



**Dathlu**

Yng Nghymru eleni, bydd llawer o blant yn mynd i'r ysgol yn eu gwisg Gymreig draddodiadol – y merched mewn sgert a betgwn wlanen, ffedog a siôl, a het ddu uchel, a'r bechgyn mewn crys, gwasgod wlanen, trowsus tri-chwarter a sanau hir, a chrafat am eu gyddfau. Neu efallai byddant yn dewis gwisgo crys pêl-droed neu rygbi Cymru a bydd llawer un wedi cael peintio eu hwynebau – gyda'r ddraig goch yn un o'r ffefrynnau. Bydd ambell ysgol hefyd yn trefnu cyngerdd neu eisteddfod fel rhan o'r dathlu.

Bydd llawer yn gwisgo cenhinen bedr neu genhinen, er bod sawl damcaniaeth am sut ddaeth y llysieuyn a'r blodyn yma yn ddau o symbolau cenedlaethol Cymru. Bydd llawer o gymdeithasau os ydynt yn cael cinio Dydd Gŵyl Dewi yn cychwyn eu pryd o fwyd efo cawl cennin – blasus iawn! Mae gen i gof o ddathlu gyda phryd o fwyd yn yr ysgol uwchradd (fel aelod o'r Gymdeithas Ddadlau) – cawl cennin, ham a salad. Ac i orffen y pryd? Bara brith, teisennau 'Berffro a theisen gri…Erbyn heddiw – cig oen Cymreig fyddwn i'n ei fwyta, gan gefnogi ein hamaethwyr lleol ar yr un pryd.

Cyn i'r Covid-19 daro roedd sawl tref yn ogystal â dinas Caerdydd yn cynnal gorymdaith flynyddol fel rhan o'r dathliadau – a phobl yn gorymdeithio yn eu gwisgoedd Cymreig ac yn chwifio baneri'r Ddraig Goch, Owain Glyndŵr, neu Dewi Sant.

Arferion eraill poblogaidd oedd cynnal cyngherddau, nosweithiau llawen, ciniawau a phartïon mewn sawl rhan o Gymru ar 1af Mawrth, ond mae digwyddiadau cyffelyb hefyd yn cael eu trefnu ymhob cwr o'r byd fel rhan o'r dathliadau.

**Y dyn ei hun**

Prin yw ein gwybodaeth am ein nawddsant. Dyma beth sydd gan yr Amgueddfa Genedlaethol i'w ddweud,

*'… Yn ôl Rhygyfarch bu farw Dewi yn y flwyddyn 589. Enw ei fam oedd Non, ac roedd ei dad, Sant, yn fab i Geredig, brenin Ceredigion. Wedi iddo gael ei addysg yng Ngheredigion, fe aeth Dewi ar bererindod trwy dde Cymru a gorllewin Lloegr, lle sefydlodd ganolfannau crefyddol o bwys megis Glastonbury a Croyland. Aeth hefyd ar bererindod gyda Theilo a Phadarn i Gaersalem, lle cafodd ei wneud yn archesgob.'*

**Ffeithiau diddorol am Dewi:**

**Gwyrth** Mae'n debyg i Dewi gael ei addysg yn Llanilltud Fawr, ac adferodd olwg ei diwtor Sant Paulinus.

**Tyddewi** Sefydlodd fynachlog yn y porthladd Rhufeinig 'Menevia' yn Sir Benfro. Daeth y lle hwn yn ddinas gadeiriol enwyd ar ôl Dewi – Tyddewi. Daeth Eglwys Gadeiriol Tyddewi yn gyrchfan boblogaidd i bererinion, yn enwedig wedi i'r Pab gydnabod Dewi yn swyddogol fel sant ym 1120.


**Pererindod** Roedd llawer o bererindodau yn mynd i Dyddewi. Dywed rhai pobl bod dwy bererindod i Dyddewi yn cyfateb i un bererindod i Rufain, a thair yn cyfateb ag un i Jerwsalem.

**Y bregeth ar y bryn** Un o'r chwedlau enwocaf am Dewi yw'r bregeth yn Llanddewi Brefi, Ceredigion. Roedd torf anferth wedi dod ynghyd i wrando ond cwynodd llawer nad oeddent yn gallu gweld na chlywed beth oedd yn digwydd. Yn ôl y chwedl gosododd Dewi hances ar y llawr, sefyll arni ac er syndod i bawb cododd bryn bach o dan ei draed gan ei godi i olwg yr holl gynulleidfa. Dywed rhai bod colomen wen wedi glanio ar ei ysgwydd, a chredir bod hyn yn arwydd gan Dduw o'i sancteiddrwydd.

**"Gwnewch y pethau bychain…"** Rhai o eiriau olaf Dewi cyn iddo farw oedd ei rai enwocaf. Cofnodwyd ei bregeth olaf yn Llyfr Ancr Llanddewibrefi o'r 14eg Ganrif: 'Arglwyddi, frodyr a chwiorydd, byddwch lawen a chedwch eich ffydd a'ch cred, a gwnewch y pethau bychain a welsoch ac a glywsoch gennyf i'.


HYWEL WILLIAMS

AELOD SENEDDOL ARFON



01286 672076

8 Stryd y Castell Caernarfon

hywel.williams.mp@parliament.uk

Talwyd costau'r cyhoeddiad hwn gan Senedd San Steffan, o gronfeydd cyhoeddus

# Ar ben arall i'r lein

Sut mae'r gaeaf yma wedi eich trin tybed? Mae yn sicr wedi dal pethau'n ôl, yn enwedig pan mae gymaint o waith cynnal i wneud ar y dyfroedd. Gan ei bod wedi bod mor eithriadol o wlyb, pwy mewn difri sydd eisiau bod i fyny i'w geseiliau mewn mwd? A do dwi wedi gwneud tipyn o pethau gwirion fel hyn dros y blynyddoedd, ond dim mwy. Efallai fod y blynyddoedd yn dal i fyny â mi o'r diwedd, er hynny mae digon i'w wneud i fy nghadw yn brysur, fel ceisio fy ngoreu i gadw dau ben llinyn at ei gilydd gyda'r holl waith gweinyddol sydd yn dod i ffordd y Gymdeithas. Pa waith gweinyddol medda chwi, wel dyma fraslun o be sy'n mynd ymlaen. Cais cynllunio Seiont Manor, ac roedd yn dda gweld fod Cyngor Cymuned Llanrug wedi gwrthod y cais, ac fel cynffon i hyn rwy'n deall fod Dŵr Cymru am gynnal asesiad o effeithlonrwydd y gwaith. Er bod hyn i'w gymeradwyo, y siom yw wrth gwrs fe gymerith flynyddoedd i'r holl beth ddwyn ffrwyth. Yn y cyfamser mae be sy'n cael ei arllwys i'r afon, wel ddim be fuasai rhywun yn ei ddisgwyl yn yr oes yma. Ond cofiwch mai cofnodion o gyfarfodydd rhai o'r asiantaethau sy'n gyfrifol am blismona peth fel hyn wedi penderfynu, yn ddistaw bach wrth gwrs, nad ydynt am ddod allan i archwilio cwynion am faterion o'r fath – dim yn fater brys yn eu golwg.

Tra yn ardal Crawia, rydym wedi cyfarfod gyda swyddog datblygu cynefinoedd Ymddiriedolaeth Afonydd Gogledd Cymru. Mae gwaith i'w wneud i uwchraddio'r llwybr/grisiau sy'n arwain o Bont Crawia i lawr i'r Finiog, gwneud hi'n haws i'r hen griw fynd at yr afon! Yn ogystal ail osod y bont dros Ffôs y Dail ger Llyn Harri, a ehangu gwaith i greu mannau bwrw grawn yn y ffôs hyd at derfyn Rhyd y Fuwch.

Mater arall sydd newydd godi ei ben, yw'r cais cynllunio sydd wedi ei gyflwyno i godi pontŵn/glanfa yn y Gilfach Ddu, at ddefnydd rhai ag anableddau. Mae Cymdeithas Canŵio Cymru yn rhan o'r cynllun, yn anffodus tydi rhain ddim yn griw hawdd i ddelio â nhw, yn enwedig pan mae cymdeithasau pysgota yn y cwestiwn. Yn y fan hyn mae'r cais wedi ei gyflwyno dros ran o dir Cyngor Gwynedd, ond yn anffodus iddynt y Gymdeithas yw perchenogion hawliau pysgota'r eiddo. Rydym wedi pwyntio hyn allan, ond does neb gyda'r cwrteisi i drafod y mater. Ond mewn difri a oes eisiau mwy o adnoddau cychod pleser ar Lyn Padarn, a oes eisiau denu mwy o draffig, gyda'r trelars tynnu cychod a gwmpas y lle. Y lle priodol i beth fel hyn ydi yn y Glyn, ble mae digon o lefydd parcio, mynediad di-drafferth a thoiledau cyhoeddus wrth law. Ond efallai fod rhai yn ddigon bodlon gweld y faniau gwersylla yn landio ar lan y llyn yn y Gilfach Ddu. Er bod hyn i gyd yn Llanberis, Cyngor Cymuned Llanddeiniolen sy'n cael y brathiad cyntaf ar benderfynu'r cais. Ia cofiwch, mae pen yma o'r llyn yn bwysig dros ben i fagwraeth y torgoch, sydd unwaith eto wedi dechrau bwrw grawn yn y gro yng ngheg Afon y Bala. Mae adroddiad amgylcheddol ynghlwm â'r cais yn dweud na chaiff y cynllun unrhyw effaith ar y torgoch, datganiad anghyfrifol a dweud y lleiaf ac yn amlwg wedi ei wneud gan rai sydd yn hollol anwybodus o'r problemau sy'n gysylltiedig â'r 'sgodyn yma. Neb yn meddwl cyfeirio at y problemau sydd wedi amlygu eu hunain gyda llecynnau magu'r pysgodyn hyfryd yma sydd wedi dod yn sgil adeiladu gorsaf bŵer Dinorwig, sef colli y cyfan o Lyn Peris, rhan fawr o afon Peris a'r afon Dudodyn yn gyfan gwbwl. A oes eisiau mwy o aflonyddwch?

Mae cais Cyngor Gwynedd i greu llwybr cyhoeddus ar draws tir y clwb o bentref Pontllyfni i lawr i'r môr wedi ei ganiatáu, cawn weld gwaith i adeiladu mynedfa newydd yn fuan, gobeithio bydd rhyw gamau y cael eu cymryd i ddelio â'r baw cŵn sy'n bla ar hyd ein llwybrau ymhob man, ac yn enwedig pan mae rhywun yn 'sgota'r nos a dychwelyd am y car gyda rhywbeth drewllyd ar ei wellingtons.

Gyda'r Covid yma wedi gorfodi cau lawr ar gyfarfodydd, rwyf wedi dod yn dipyn o gamblar ar gymryd rhan mewn cyfarfod dros y we – Zoom dwi'n meddwl ydi'r term priodol. Wel mae un peth yn sicr does dim dadlau





**Dyma ddau o'r hen luniau – a sgota torgoch o geg Afon y Bala. Nodir maint y torgoch, dyma oedd effaith o'r tyfiant algi.**



a methu cytuno yn perthyn i drafodaeth fel hyn. Felly bu hi 2ail pan gynhaliwyd cyfarfod o Grŵp Pysgodfeydd Dyfrdwy, Clwyd a Gwynedd. Y prif bennawd oedd cyflwr y stoc eogiaid dros y wlad. Bu i'r niferoedd yn 2021 ddisgyn i'r isaf erioed. Y prif reswm yn nhyb y gwyddonwyr yw newid y tymheredd a bod eisiau cysidro mwy o gyfyngu ar bysgota. Ni fedraf feddwl am fwy o reolau i gyfyngu ar bysgota, heblaw i bawb aros gartref a chloi'r enwair yn y twll dan y grisiau. Dim cyfeiriad at yr effaith mae llygredd sy'n llifo i'r dyfroedd yn cael ar ein pysgodfeydd, beth am yr adar yma sy'n gwledda ar y pysgod bach, mae adar fel y bilidowcar neu yn adnabyddus i rai fel Llanciau Llandudno yn eu cael. Mae rhain wedi symud o'i cartref naturiol sef y môr am fod bwyd yn brin yn y fan honno oherwydd eto gor-rwydo, potsio a llygredd.

Ond efallai fod rhyw obaith yn dod o'r llefydd mwyaf annisgwyl, mae'n sicr eich bod wedi sylwi yn ddiweddar ar y cyhoeddusrwydd sydd wedi bod ar draws y cyfryngau oherwydd bod gostyngiad difrifol yn nifer y dyfrgwn ledled y wlad. Mae mwy o sylw ar hyn wedi ei roi mewn wythnos na sydd wedi ei roi am flynyddoedd i argyfwng yr eog. Cawn weld beth a ddaw.

Wyddoch chi be, mi gawsom yr hen Govid yma dros y flwyddyn newydd, gorfod aros yn y tŷ am ddyddiau, ond mi gefais gyfle o'r diwedd i fynd drwy sleidiau roeddwn wedi eu tynnu dros flynyddoedd lawer, cyn i'r hen gamarau digidol a nawr y ffonau symudol gymryd drosodd yn gyfan gwbwl. Sgwn i faint o luniau fydd yn goroesi o'r hen ffôns 'ma ymhen 40 mlynedd. Mi fydd llawer o'n hanes wedi mynd yn anghof. Ond yn ôl at y sleidiau, gan fy mod rwan yn tipyn o foi hefo'r cyfrifiadur, dwi wrthi'n trosglwyddo'r sleidiau i'r cyfrifiadur, mi fydd rhai yn dod eich ffordd yn yr *Eco,* fel atgof i'r cof.

Erbyn Ebrill mi fydd y tymor wedi dechrau, a cewch wybod yn ddigon buan sut mae pethau'n mynd, ond rwy'n ddigon hyderus gan fod yr hen badell allan ac yn barod i'w bwydo.

**Huw Price Hughes**

# Garddio



## MAWRTH

**'Mawrth a ladd ac Ebrill a fling' yn ôl yr hen ddywediad...**

Ers talwm byddai'r gwanwyn yn arfer cyrraedd erbyn canol mis Mawrth, ond erbyn y dyddiau hyn o newid hinsawdd, does wybod sut fydd y tywydd ym mis Mawrth. Bu dechrau'r flwyddyn yn dyner, ac yna'n sefydlog lonydd ac oer, cyn troi'n wlyb a gwyntog ganol mis Chwefror. Buom yn ffodus i fethu effeithiau mwyaf hegar Storm Malik a Storm Eunice fodd bynnag. Dydy hyn i gyd yn fawr o help i'r garddwr druan, sy'n trio penderfynu beth i'w blannu, beth i'w hadu, beth i'w adael i mewn neu fentro ei roi allan.



Mi ydw i wedi penderfynu peidio â bod yn rhy barod i hadu pethau eleni, gan fy mod wedi rhedeg allan o le i roi'r planhigion ifanc y llynedd a cholli rhai a roddais yn y tŷ gwydr (di-wres). Eto i gyd, mae'n hyfryd gweld bod cennin pedr wedi mentro ymwthio drwy'r pridd, yn enwedig yn y mannau mwyaf cysgodol, er bod llawer heb flodeuo yn yr ardd acw eto. Mae eu lliwiau melyn yn codi calon rhywun ar ddyddiau oer a llwm ac yn barod i ni wisgo un neu osod bwnsiad mewn jwg i ddathlu Dydd Gŵyl Ddewi. Rhaid cyfaddef fod gen i wendid am y rhai bach '*miniatures*' megis Tete a Tete, sy'n gwrthsefyll y gwynt yma lawer yn well na'u cefndryd mawr, ac efo llai o ddail i farw i lawr cyn torri'r lawnt ymhellach ymlaen yn y flwyddyn. Gallwch hefyd fwynhau persawr hyfryd rhai bychain megis '*Odoratus*' neu '*Canaliulatus*'. Gallwch hefyd ddewis siapiau gwahanol megis *Narcissus bulbocodium,* y cennin pedr cylch pais (*hoop petticoat):* siâp y blodyn anarferol sy'n rhoi'r enw iddo.

Mae'n hawdd gweld bod y dydd wedi ymestyn bellach, ac ar ddyddiau tawel, heb wynt, cenllysg, eira na glaw trwm, mae angen gwneud y gorau o bob cyfle i wneud amrywiaeth o dasgau yn yr ardd. Mae'n amser i baratoi gwelyau ar gyfer yr hadau, hau amryw o bethau yn y *'propogator'*, tocio llwyni a thacluso'n gyffredinol o gwmpas yr ardd.

**Tasgau**

1. Ymdrechu i warchod unrhyw dyfiant newydd rhag malwod a gwlithod.
2. Plannu slots neu nionod bach *shallots*, nionod sets. Rydw i'n rhoi rhyw hanner dwsin o nionod yn y tŷ gwydr, a rhai o dan chwarel o wydr (rhyw fath o '*cold frame'* cartref) yn yr ardd, i gael rhai'n barod yn gynt na'r rhai rydw i'n eu plannu yn y tir. Os nad ydynt wedi mynd i frechdan gaws neu salad mi fyddai'n piclo unrhyw rai fydd ar ôl.
3. Plannu tatws cynnar. Eto, gan ei bod hi mor oer a gwlyb yma ar lethrau Eryri mi fyddaf yn plannu rhyw bedair taten mewn potyn mawr yng nghornel y tŷ gwydr. Maen nhw'n tyfu'n gynt na'u cyfoedion yn yr ardd, ond fel arfer fyddan nhw ddim mor fawr: dim ots, mi fydd y blas yn fendigedig. Mi ddylen nhw fod yn barod ymhen rhyw 10 i 12 wythnos.
4. Plannu bylbiau sy'n blodeuo yn yr haf.
5. Codi a hollti ambell glwstwr o flodau lluosflwydd *'perennial'*. Dyma gyfle da i godi a rhannu clympiau o eirlysiau os ydych am gael mwy ohonynt. Mae'n hynod anodd eu plannu'n llwyddiannus fel bylbiau yn yr hydref. Rydw i wedi trio droeon ac wedi methu, ond wedi llwyddo eleni, am y tro cyntaf erioed, i gael rhai blannais i yn eu dail i flodeuo'r gwanwyn hwn! Wrth fy modd! Os yw'n damp, dyma gyfle da i blannu coed bythol wyrdd.
6. Gallwch hefyd blannu planhigion alpaidd (*alpines)* mewn cafnau neu dybiau, gan wneud yn siŵr bod digon o raean (cerrig mân) yn y pridd, fel nad yw'r pridd yn aros yn wlyb a'r planhigion yn pydru.
7. Gosod rhyw ddwy fodfedd o gompost newydd di-fawn (5 cm os ydach chi'n mesur mewn metrig) yn y potiau fydd yn dal eich blodau ac ychwanegu gwrtaith neu '*bonemeal*'.
8. Ar ddiwrnod sych, gallwch dorri'r lawnt os oes angen, ond cofiwch osod y llafnau ar y toriad uchaf.
9. Chwynnu! Mwya'n y byd godwch chi rŵan, lleia'n y byd fydd i'w codi ymhellach ymlaen yn y flwyddyn.

**Amser i ddechrau plannu!**

Er bod y dyddiau'n ymestyn a'r haul yn cryfhau, mae'n well oedi ychydig nes bod llai o bosibilrwydd i ni gael rhew caled; ond dyma'r amser i ychwanegu maeth i'r pridd. Fforchiwch yr wyneb er mwyn i'r awyr dreiddio oddi tano.

Gorffennwch docio'r rhosynnau a phrysgwydd eraill, gan edrych am afiechyd neu ffwng. Byddwch yn ofalus wrth docio rhosmari a'r lafant – dydyn nhw ddim yn tyfu allan o hen bren.

Plannwch datws cynnar. Arbrofwch drwy eu tyfu mewn bwced neu botyn mawr os nad oes gennych lawer o ardd. Gallwch hefyd brynu bagiau pwrpasol o'r ganolfan arddio leol, neu hyd yn oed ddefnyddio hen deiars ar ben ei gilydd. Gallwch blannu pannas, ffa a chennin hefyd. Mi fu ffa *aqua dulce* yn llwyddiannus i mi y llynedd.

Gallwch hau planhigion salad a blodau unflwydd lledgaled (*half-hardy annuals)* mewn potiau i geisio cael cnwd cynnar a blasus.

Mi ydw i wedi plannu garlleg ar ddechrau'r gaeaf o dan hen ffenest yn yr ardd ac mewn potyn yn y tŷ gwydr, a hyd yma maen nhw i'w gweld yn tyfu'n dda. Os na chawsoch chi amser i blannu bryd hynny, cofiwch fod teulu'r nionod, slots *(shallots*) a garlleg yn wydn iawn. Plannwch nhw rŵan, yn agos i'r wyneb ond cadwch olwg arnyn nhw am fod adar yn gallu gwneud difrod, heb sôn am gathod mawr sunsur! Mae nionod yn hoff o bridd mân. Peidiwch â rhoi gormod o wrtaith iddynt, neu fe gewch chi nionod meddal yn y pen draw fydd yn dda i ddim i'w cadw dros y gaeaf.

***Rhosyn Mynydd***



**Garlleg Tŷ Gwydr**



**Garlleg tu allan**

# Creu, creu, creu

Creu, creu, creu oedd y neges mewn sesiwn hwyliog gynhaliwyd yn Y Bedol, Bethel ar ddydd Sul olaf mis Ionawr. Mae'r grŵp Tecstiliau yn trefnu cyrsiau yn rheolaidd, sy'n dysgu bob math o sgiliau gwahanol er mwyn trin… ia tecstiliau. Os oes gennych chi ddiddordeb mewn creu, darlunio, gwnïo, gweu, crosio, gwehyddu ayb, yna mae'n debygol iawn y bydd yna gwrs neu sesiwn creu 'galw heibio' fydd yn apelio atoch, a hynny ar garreg y drws.

Yn dilyn mis Ionawr hir a llwm mi o'n i wir yn edrych ymlaen at gael dianc i fyd hamddenol Y Bedol a threulio diwrnod yn dysgu sgil newydd. Roedd y cwrs yn mynd i'n dysgu sut i ddefnyddio defnydd sy'n toddi mewn dŵr er mwyn creu darnau o waith celf neu frodwaith. Daeth criw bychan ohonom at ein gilydd (gan ddilyn rheolau Covid-19 wrth gwrs) o dan arweiniad y tiwtor Kate Philbin. Mae Kate yn hynod brofiadol fel artist ac fel tiwtor ac roedd ei brwdfrydedd yn heintus, ac fel dysgwraig roedd ei Chymraeg hefyd yn ardderchog.

Roedd yna ddwy ohonom o fro'r Eco yn bresennol, sef Carol Adlam o Benisarwaun a minnau. Roedd eraill wedi teithio o'r Felinheli, Môn a Phwllheli, a phawb yn eiddgar i gael dysgu sut i weithio gyda'r defnydd hudol oedd





yn diflannu mewn dŵr. Mynd amdani'n syth wnaeth pawb, gyda Kate yn rhoi cyflwyniad i ni, a ninnau wedyn yn troi at ein peiriant gwnïo ac yn bwrw ati. Mae'r defnydd – *Solufleece* – yn teimlo fel *interfacing* a gallwch osod unrhyw ddefnydd neu edau arall ar ei ben a gwnïo drosto. Fel wnaethon ni ddechrau drwy osod tameidiau o ddefnydd, edau, *mesh* ayb mewn brechdan rhwng y solufleece a haen denau o ddefnydd *organza*. Roedd rhyddid wedyn i bwytho'n rhydd i bob cyfeiriad, ac fe fyddai'r pwythau yn dal yr holl dameidiau at ei gilydd.

Ar ôl gorffen pwytho, wel dyna pryd oedd yr hud yn dechrau! Y cwbl oedd angen ei wneud oedd socian y darn gwaith mewn dŵr fymrym bach yn gynnes, ac fe fyddai'r defnydd *solufleece* yn toddi gan adael dim ond y defnydd a'r pwythau ar ôl. Mae angen gadael y darnau i sychu, ac wedyn mae gennych chi waith gorffenedig bendigedig. Fyddwch chi ddim yn gwybod yn union sut fydd y darn gorffenedig yn edrych tan ar ôl i bopeth sychu, ond mae hynny'n rhan o'r hwyl! Mae'r lluniau y dangos ychydig ar y broses a rhai o ddarnau gorffenedig Carol a minnau.

Mae yna botensial mawr i greu darnau o waith 2D neu 3D hyd yn oed gyda'r dechneg yma. Os wnewch chi adael i'ch gwaith sychu dros ben siâp 3D, megis powlen neu falŵn yna mi gewch chi ddarn gorffenedig o'r un siâp. Chwiliwch drwy'r cyfryngau cymdeithasol i gael eich ysbrydoli!

Os ydach chi ddefnyddiwr Instagram dilynwch #watersolublefabric, #dissolvablefabric, #solufleece, #tecstiliau.


I ganfod mwy am be' fydd ymlaen yn Y Bedol dilynwch @Tecstiliau ar Facebook neu Instagram, neu ewch i'w gwefan – www.tecstiliau.org

**Bethan Richardson**






Bethan a Carol



SIÂN GWENLLIAN
AELOD O SENEDD CYMRU DROS ARFON

01286 672076
8 Stryd y Castell Caernarfon
sian.gwenllian@senedd.cymru
Talwyd costau'r cyhoeddiad hwn gan Gomisiwn y Senedd, o gronfeydd cyhoeddus


FFRAMIA
Parc Padarn Llanberis
(01286) 870922
Gwasanaeth
FFRAMIO LLUNIAU
www.fframia.com
Dewis eang o luniau yn yr oriel ac ar y wefan
William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwy

GERAINT OWEN
CARPEDI

Cil y Mynydd
Waunfawr
Gwynedd
A Uned 5 Gwyrfai Mill, Bontnewydd
(01286)650552 Symudol - 07712779475
CARPEDI
TEILS
VINYLS
DEWIS MAWR O BATRYMAU

SAMARIAID
Gogledd Orllewin Cymru
Cyfle i Wirfoddoli
Ydych chi'n gallu gwrando ar bobl eraill?
- Gweledigaeth y Samariaid yw lleihau nifer y bobl sy'n marw trwy hunanladdiad, ond rydyn ni'n cynnig cymorth emosiynol i bawb.
- Rydyn ni'n chwilio am ragor o wirfoddolwyr, yn arbennig siaradwyr Cymraeg, i ymuno â'n cangen ym Mharc Menai, Bangor.
- Bydd ein hyfforddiant cyfrwng Cymraeg nesaf yn dechrau ar 23 Ebrill 2022.

Am ragor o wybodaeth: Ffoniwch 01248 674984 neu e-bostiwch recriwtio@samariaidbangor.org
Gwefan: www.samariaidbangor.cymru

## Cornel Ddarllen

# DATHLU 25AIN MLYNEDD ERS DECHRAU DIWRNOD Y LLYFR

Lle fydden ni heb lyfrau?
Does dim angen llyfrau medd rhai. Gallwch '*gwglio*' ar y rhyngrwyd i ganfod gwybodaeth, yn enwedig pan ydw i wedi colli llawlyfr pa bynnag declyn dwi wedi anghofio sut i'w weithio! Ond os ydy efe a fi'n mynd am dro ac am adnabod aderyn, gallaf roi llyfr adar Iolo Williams ym mhoced fy nghôt yn hawdd, heb boeni os oes gen i ddigon o fatri ar fy ffôn! Ia, gallwch ddarllen llyfrau ar sgrin eich '*kindle*' neu ffôn neu dabled, ond i mi does dim i guro gafael mewn llyfr newydd sbon ac ymgolli yn ei gynnwys. Erbyn meddwl, mi ydw i hefyd yn mwynhau ymgolli rhwng cloriau llyfrau sydd gen i ers blynyddoedd, hen gyfeillion, ail-ymweld â stori dda neu ddod o hyd i wybodaeth neu ddilyn cyfarwyddiadau rysáit nad oeddwn i'n gallu ei ddwyn i gof heb y llyfr.

Pan fyddwch yn dewis llyfr ac efallai awdur anghyfarwydd, rhaid pori dros y '*blurb*' ar y clawr cefn neu efallai ddarllen adolygiad amdano neu wrando ar y radio i gael canmoliaeth neu bigo beiau, cyn talu amdano. Mae angen llonydd wedyn i ddarllen. Fel arfer mi fyddai'n gwybod o fewn ychydig dudalennau os yw'r awdur wedi fy mhlesio neu os ydw i'n gallu unieithu â'r hyn ysgrifennwyd. Mi fyddai'n hoffi trio awdur neu fath o lyfr anghyfarwydd o bryd i'w gilydd, a gan amlaf mi fyddai'n mwynhau'r darllen. Prin yw'r llyfrau nad wyf yn gallu eu darllen, er rhaid i mi gyfaddef, er trio ngorau sawl gwaith dros y blynyddoedd, nad wyf wedi medru darllen dwy gyfrol fuddugol y Fedal Ryddiaith gan Robin Llywelyn, dyn a ŵyr pam...

Mae fy null o drin llyfrau wedi newid wrth i mi fynd yn hŷn. Pan oeddwn i'n blentyn doedd fiw troi cornel tudalen i gadw'ch lle, rhaid cael nod llyfr ac yn sicr gwae chi os oedd fy nhad yn gweld bod hoel dwylo budr neu waeth fyth eich bod wedi ysgrifennu sylw ar y llyfr neu liwio'r lluniau du a gwyn (prin) yn y llyfr. Doedd o ddim yn ddyn blin na llym ei ddisgyblaeth, ond yn hoff iawn o ddarllen, debyg mai o'r fan honno gefais i fy nghariad at lyfrau. Dydw i dal ddim yn troi cornel tudalen a does dim lluniau bellach i helpu fy narllen. Dwi'n cyfaddef y byddai'n ysgrifennu nodiadau mewn pensel ar lyfrau coginio. Pam? Oherwydd mae llawer o rysetiau yn rhai ar gyfer pedwar o bobl a dim ond dau ohonom sy'n bwyta yma fel arfer. Felly rhag gwastraffu cynhwysion ac i beidio gorfwyta mi ydw i'n nodi faint o gynhwysion sydd ei angen i ddau. Mi ydw i hefyd, ar ôl gwneud rysáit am y tro cyntaf, gan ddilyn pob cam yn union, wedyn yn ei addasu, gan ychwanegu ambell i gynhwysyn neu ei gyfnewid am rywbeth arall, neu'n nodi pa sosban neu dun coginio sy'n gweithio orau ac fel arfer yn lleihau'r tymheredd a'r amser coginio a nodir gan fod fy mhopty i i'w weld yn boethach na'r hyn nodir yn y llyfrau. Mae'n arbed llawer o amser ac amynedd…

Eleni cynhelir **Diwrnod y Llyfr** ar **ddydd Iau, 3ydd Mawrth, 2022**. Yng Nghymru bydd y Cyngor Llyfrau yn cydlynu Diwrnod y Llyfr, a'i gefnogi gan Lywodraeth Cymru a chwmni Waterstones. Un broblem fach yng Nghymru, gan fod ffocws y gweithgareddau o fewn yr ysgolion, yw ein bod fel cenedl yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi ar y 1af o Fawrth. Ond mae'n dal i fod yn achlysur i ddod â llyfrau'n fyw i blant drwy amrywiaeth o ddigwyddiadau a gweithgareddau.






Creodd UNESCO Ddiwrnod Llyfr y Byd yn 1995 i ddathlu llyfrau ac awduron ac i annog pobl ifanc i ddarganfod pleserau darllen. Erbyn hyn, mae Diwrnod y Llyfr yn cael ei ddathlu mewn 100 o wledydd ar draws y byd, gyda'r nod o hyrwyddo darllen er pleser, a chynnig cyfle i bob plentyn a pherson ifanc i ddewis a meddu ar eu llyfr eu hunain.

Bydd pob plentyn yn derbyn tocyn llyfr £1 yn yr ysgol neu feithrinfa a gellir cyfnewid y tocyn naill ai am un o lyfrau £1 Diwrnod y Llyfr neu ei ddefnyddio tuag at brynu llyfr arall. Mae'r llyfrau £1 hefyd ar gael mewn *braille*, print bras a sain trwy'r RNIB. Cenhadaeth Diwrnod y Llyfr yw annog y plant i fwynhau llyfrau a darllen, drwy roi cyfle iddyn nhw gael eu llyfr eu hunain.

Fel rhiant, nain a chyn-athrawes rwyf yn gwybod pa mor anodd yw arwain rhai plant at lyfrau a faint o bleser gall llyfr roi i bawb, trwy gydol eu bywydau. Fel plentyn dwi'n cofio eistedd efo criw yn chwarae'n swnllyd o'm cwmpas a minnau a fy mysedd yn fy nghlustiau yn trio gorffen fy llyfr newydd! Cof arall melys yw darllen *The Borrowers* ac ymgolli gymaint yn y llyfr, fy mod i wedi mynd i chwilio os oedd y pethau oedd yn mynd ar goll yn ein tŷ ni wedi cael eu 'benthyg' gan y bobl bach o'r llyfrau bendigedig yma.

Pa fath o lyfr(au) sy'n apelio atoch chi? Oes ganddoch chi ffefryn, neu ydy'r un diweddaraf ddarllenoch chi yn ffefryn tan gewch chi gyfle i ddarllen un arall?


Rhai o fy hoff lyfrau Cymraeg yw **Martha Jac a Sianco** gan Caryl Lewis. Rhai eraill yw **Gwrach y Gwyllt** a'r dilyniant **Merch y Gwyllt** heb anghofio **Hi Yw fy Ffrind** a'i ddilyniant **Hi Oedd fy Ffrind** gan Bethan Gwanas. Cefais fy nghyfareddu gan **Llyfr Glas Nebo** gan Steffan Manon Ros, a'i ddarllen o glawr i glawr mewn un eisteddiad. Un arall mae'n rhaid i mi ei gynnwys yw'r clasur **Un Nos Ola Leuad** gan Caradog Pritchard, darllen hanfodol i bobl bro'r Eco a thu hwnt.

Byddai'n ddifyr parhau'r **Gornel Ddarllen** yn rhifynnau nesaf yr Eco, yn dilyn yr erthygl Llyfrau Llesol sydd yn y rhifyn hwn. Tybed allwch chi gyfrannu, trwy nodi a thrafod eich hoff lyfr(-au) chi?

# Llyfrau Llesol

Yn rhifyn fis Chwefror o'r Eco fe gofiwch i ni rannu stori am *Gaeaf Llawn Lles a Llyfrau*. Bryd hynny roedd yr Asiantaeth Ddarllen a llyfrgelloedd ar draws Cymru yn cydweithio er mwyn holi plant a phobl ifanc pa lyfrau oedd yn gwneud iddyn nhw deimlo'n well, neu'n gwneud iddyn nhw deimlo bod pobl eraill yn eu deall.

Gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru, nod ymgyrch *Gaeaf Llawn Lles* yw helpu plant a phobl ifanc i wella o'r pandemig, ac mae'n gwneud gwyrthiau mewn siroedd ledled Cymru. Bydd yn parhau hyd at ddiwedd mis Mawrth gyda rhaglen o weithgareddau a digwyddiadau yn cael eu darparu ar-lein ac mewn llyfrgelloedd. Mae rhai wedi cychwyn eisoes i groesawu'r awduron Eloise Williams, Sarah KilBride, Manon Steffan Ros a Children's Laureate Wales Connor Allen a Bardd Plant Cymru Casi Wyn. Mae llawer mwy i ddod ym mis Mawrth, y cyfan am ddim ac ar gael i'w archebu ar wefan www.readingagency.org.




Erbyn hyn mae canlyniad yr ymgynghoriad wedi eu cyhoeddi, ac mae yna restr o 25 o lyfrau yn y Gymraeg a'r Saesneg sydd wedi cyrraedd y brig. Cofiwch fod y rhain yn llyfrau gan unrhyw awdur, mewn unrhyw iaith, o unrhyw wlad.

Meddai Manon Steffan Ros - "Mae'n anrhydedd fawr cael fy enwebu ar gyfer rhestr lyfrau Gaeaf Llawn Lles, a hoffwn ddiolch yn fawr iawn i bawb sy'n rhoi o'u hamser a'u hegni i ddarllen fy ngwaith. Mae llyfrau wastad wedi bod yn gwmni ardderchog ac yn ffrindiau ffyddlon i mi, felly mae cael fy nghynnwys ar y rhestr hon yn golygu llawer iawn." Mae ei chyfrol ***Fi ac Aaron Ramsey***, stori dau ffrind wrth i Gymru gyrraedd yr Ewros yn 2020, ar y rhestr o'r 25 llyfr sy'n codi calon.

Dyma'r llyfrau Cymraeg eu hiaith sy'n ymddangos ar y rhestr:

- ***Sharing a Shell*** gan Julia Donaldson a lluniau gan Lydia Monks / Ferswin Gymraeg: ***Croeso I'n Cragen*** *(Rily Publications Cyf.)*
- **Sometimes I feel...SUNNY** gan Gillian Shields a lluniau gan Georgie Birkett *(Penguin)* / Ferswin Gymraeg: ***Weithiau Dwi'n Teimlo'n Heulog*** *(Dref Wen)*
- ***Sw Sara Mai*** gan Casia Wiliam a lluniau gan Gwen Millward *(Y Lolfa)*
- ***The Pond*** gan Nicola Davies a Cathy Fisher *(Graffeg)* / Ferswin Gymraeg: ***Y Pwll***
- ***Fi ac Aaron Ramsey*** gan Manon Steffan Ros *(Y Lolfa)*
- ***Scrambled*** gan Huw Davies *(Firefly Press)* / ***Ferswin Gymraeg: Sgramblo*** *(Firefly)*
- ***War Horse*** gan Michael Morpurgo *(Egmont)*/ Ferswin Gymraeg: ***Ceffyl Rhyfel*** *(Gwasg Carreg Gwalch)*
- ***The Boy, The Mole, The Fox and The Horse*** gan Charlie Mackesy *(Penguin)* / Ferswin Gymraeg: ***Y Bachgen, y Wahadden, y Llwynog a'r Ceffyl*** *(Graffeg)*

Llyfrau sy'n addas i bawb o bob oed a dweud y gwir, felly porwch yn eich siop lyfrau lleol neu ewch am dro i'r llyfrgell i gael eich tonic o lyfr da i godi calon.

# Chwilota

**Erthyglau hanes lleol, Bro Eco'r Wyddfa.**

chwilota.wordpress.com

### Helynt y pysgod a'r blawd

Mae dros fil o aelodau yn perthyn i'r grŵp 'Englyn Bedd' ar y cyfryngau cymdeithasol, a'r bwriad yw cofnodi englynion bedd, nid yn unig yng Nghymru ond mewn gwledydd eraill hefyd. Yn ddiweddar, dangoswyd lluniau cerrig beddi o fynwent Caeathro a oedd yn cynnwys englyn. Cyfeiria un at feibion melinydd o Gaeathro. Bu'r ddau fab farw'n ifanc – Tachwedd 1900 a Medi 1908 – y naill yn 19 oed a'r llall yn 23 oed. Claddwyd y ddau gyda'i tad Hugh Gray, a fu farw ddiwedd Rhagfyr 1899.

Ond ymhle tybed y bu Hugh, y tad, yn felinydd? Roedd cryn dipyn o felinau ar lannau'r Saint bryd hynny – o Bontrug i Bont Peblig ac ymlaen am Gaernarfon – i gyd o fewn pellter cerdded i'r melinydd o Gaeathro, ond prin yw'r cofnodion amdanynt. Gallai hefyd fod yn gweithio mewn melin wlân, melin flawd neu felin llechi ysgrifennu. Felly, beth oedd cefndir Hugh?

Yn ôl y cyfrifiadau, cafodd ei eni ym Mhwll Fanogl, Llanedwen, ar lannau'r Fenai, yn fab i Thomas Gray, oedd hefyd yn felinydd. Ym Mhwll Fanogl wrth gwrs y bu Glan Padarn (awdur 'Hen Ffon fy Nain') yn byw wedi iddo symud yno o Ddeiniolen. Ym mis Rhagfyr 1862, priododd Hugh efo Mary Griffith yn eglwys Llaneilian, ger Amlwch, ac yn yr ardal honno y ganwyd eu tri phlentyn hynaf: Owen, Margaret a Thomas. Erbyn 1870, roedd yn byw yn nhai Brynteg, Caeathro, oherwydd yno y ganwyd Mary ddiwedd y flwyddyn honno. Diddorol yw nodi fod pum melinydd arall yn byw yn y pentref bryd hynny. Byr fu ei arhosiad yno, ac mae'n amlwg iddo symud yn ôl i Fôn, oherwydd yn Amlwch y ganwyd Elizabeth ac Ellen. Roedd y teulu yn ôl yng Nghaeathro erbyn 1878, ac yn Nhai Glangwna y ganwyd y ddau fab ieuengaf, William a Walter. Does wybod am faint y bu'r teulu yn byw yma, oherwydd erbyn 1891 roeddent yn ôl yn Nhai Brynteg.

Yn anffodus, mewn adroddiadau'n sôn am achosion o dor-cyfraith yn Llys Ynadon, Caernarfon y cawn wybod ymhle roedd Hugh yn gweithio. Ddiwedd mis Gorffennaf 1877, mae'n ymddangos yn y llys ar gyhuddiad o geisio trywannu eogiaid yn afon Saint. Fe'i daliwyd yn y weithred gan y cipar. Cafodd ddirwy o £2. Ond mae'n siwr iddo fod yn eithaf ffodus, oherwydd yr oedd cyhuddiad o daflu calch i'r afon yn ei erbyn hefyd – trosedd llawer mwy difrifol. Ond doedd gan y Llys Ynadon mo'r hawl i benderfynu ar yr achos hwnnw, ac am ryw reswm penderfynwyd gollwng y cyhuddiad yn ei erbyn yn hytrach na'i anfon i lys uwch.

O fewn ychydig fisoedd, ym mis Ionawr 1878, roedd yn ôl yn Llys yr Ynadon ar gyhuddiad o ddwyn sachaid o 'sharps', sef blawd a werthid i fwydo moch. Roedd gŵr o'r enw John Thomas, o'r Morfa, Caernarfon yn wynebu'r un cyhuddiad. A dyma pryd y cawn wybod mai ym Melin Seiont, Caernarfon roedd Hugh yn gweithio, ac mai o'r felin honno'r oedd y blawd wedi ei ddwyn. Plediodd Hugh Gray yn euog o'r cychwyn cyntaf, ond roedd John Thomas yn mynnu ei fod ef yn ddi-euog o'r weithred.

Cwmni oedd yn berchen ar Felin Seiont bryd hynny, a gŵr o'r enw John Edmunds yn arolygwr ac yn un o gyfarwyddwyr y cwmni. Roedd amheuaeth fod blawd yn cael ei ddwyn o'r felin, a bu John Edmunds ac un arall yn aros i fyny'r nos i geisio dal y lleidr neu'r lladron. A chafodd y ddau eu dal yn y weithred. Apeliodd Hugh Gray am faddeuant a chyfaddef ei ran yn y lladrad, ond penderfynodd Edmunds anfon am yr heddgeidwaid. Aeth y rheiny i dŷ John Thomas ar y Morfa a darganfod nifer fechan o sachau blawd mewn adeilad allanol. Doedd dim posib profi mai o Felin Seiont roedd y sachau wedi dod, ond roedd amheuaeth. Cafodd y ddau eu cymryd i'r ddalfa.

Yn y Llys, plediodd John Thomas yn ddi-euog, a gofynnodd am i'r achos gael ei ohirio er mwyn iddo drefnu i'w gyfreithiwr fod yn bresennol. Roedd Hugh Gray yn dymuno i'r ynadon benderfynu'n ddi-oed *"gan ei fod yn hollol euog o'r cyhuddiad"*. Rhoddodd John Edmunds eirda i Hugh, gan ddweud iddo fod yn gweithio yn y felin ers chwe blynedd, a'i fod wedi ei gael yn ŵr geirwir. Plediodd ar ei ran, a gofyn i'r ynadon ddangos trugaredd tuag ato gan fod gwraig a saith o blant ganddo i'w cynnal. Wedi gwrando hyn, penderfynodd John Thomas bledio'n euog hefyd.

O ddarllen rhwng y llinellau, mae'n amlwg mai John Thomas oedd yn trefnu'r lladrad o'r felin, ac yn manteisio ar Hugh am ei fod yn weithiwr yno. Ar eiddo John Thomas yr oedd yr ysbail o flawd yn cael ei storio hefyd. Ond yn yr achos dan sylw, yr un oedd trosedd y ddau. Roedd trosedd o'r fath yn haeddu chwe mis o lafur caled, ond mae'n amlwg fod apêl Edmunds ar ran ei weithiwr wedi cael sylw, a chwtogwyd y ddedfryd i bedwar mis.


Does dim posibl dychmygu sut y bu i Mary Gray gynnal ei hun a'i saith plentyn dros y pedwar mis canlynol. Er fod Hugh mewn gwaith, mae'n sicr fod amgylchiadau byw yn anodd iawn, ac mai cael dau ben-llinyn ynghyd oedd yr achos iddo geisio dal pysgod yn anghyfreithlon. Ond roedd yn ddigon gonest i gyfaddef ei gamwedd heb geisio unrhyw esgus.

Wyddom ni ddim a fu John Edmunds yn ddigon haelfrydig i gynnig ei waith yn ôl i Hugh Gray wedi iddo ddod o'r carchar. Gobeithio mai dyna ddigwyddodd.

### Dirgelwch yr Ewyllysiau

Yn ystod mis Rhagfyr y llynedd daeth dwy ewyllys i'm meddiant, a'r rheiny wedi eu darganfod mewn tŷ yng Ngarn Dolbenmaen. Yr unig gysylltiad sydd gen i â'r pentref hwnnw yw'r ffaith fod chwaer i fy hen, hen nain wedi bod yn cadw tafarn y Cross Pipes yno, ac i'w chartref gael ei adael yn ei hewyllys i fab ei brawd, oedd yn byw yng Nghlwt y Bont. Ac yn y tŷ hwnnw y cafwyd y ddwy ewyllys.

Ewyllys rhyw William Roberts, Tŷ Croes, Garn Dolbenmaen oedd y gyntaf, yn dyddio o 1832. Yr ail ewyllys fydd gobeithio o ddiddordeb i rywun yn ardal yr 'Eco'. Mae'n ddyddiedig 23ain Medi 1910, sef ewyllys William William Roberts, Cartrefle, Caradog Place, Ebenezer. Mae'n gadael £20 i Gapel Ebenezer, £10 i Gapel Maes y Dre, £20 i'w chwaer yng nghyfraith, Ellen Hughes, 2 High Street, Ebenezer, a'r gweddill o'i eiddo i'w wraig Dorothy Roberts tra pery yn weddw. Os byddai'n ail-briodi, byddai'n derbyn £300 a holl ddodrefn y cartref, ond byddai'r tŷ ei hun yn cael ei adael i'w rannu'n gyfartal rhwng ei frodyr Evan Roberts, Rhiwen a Hugh Roberts, Cefn Coch. Byddai unrhyw eiddo arall yn cael ei rannu'n gyfartal rhwng ei frodyr (sef Evan a Hugh), a David Roberts, Caradog Place. Y tystion oedd John H.


This is the last Will and Testament of me William William
Roberts, Cartrefle, Caradog Place, Ebenezer, in the parish of
Llanddeiniolen, Carnarvon, I give, devise and bequeath the
sum of twenty pounds to the Welsh Congregational Church
Ebenezer, and the sum of ten pounds to the Congregational
Church Maesydre, and the sum of twenty pounds to my
sister-in-law Ellen Hughes of 2 High St, Ebenezer, and I
further give, devise and bequeath all my real and personal
estate, comprising the house at Caradog Place known as
Cartrefle to my wife Dorothy [illegible], to enjoy the income
therefrom during the period of her natural life, so long

Williams, Glyn Terrace, Ebenezer a'r Parch E. Wynn Jones, gweinidog Capel Ebenezer. Mae atodiad ddwy flynedd yn ddiweddarach yn nodi gwerth yr eiddo yn £1579-5-11.

Methais â darganfod unrhyw gysylltiad rhwng y teulu hwn â'r tŷ yng Ngarn Dolbenmaen. Ganwyd y William William Roberts uchod yn Llanllechid, yn fab i William ac Ellen Roberts (William yn enedigol o Landwrog – ardal Brynrodyn mae'n ymddangos; ac Ellen o Lanllechid). Roeddent yn byw yn Incline Clwt y Bont erbyn 1871. William oedd yr hynaf. Y plant eraill oedd Catherine, David, Hugh, Jane, Ellen ac Evan; ac yr oedd wyres o'r enw Elizabeth Parry yno hefyd.

Erbyn 1891 roedd William William Roberts yn byw yn Caradog Place efo'i wraig, Anne a merch, Jane (10 oed). Bu Anne, ei wraig gyntaf farw yn 1897 yn 40 oed, a nodir ei bod yn ferch i Sarjant Thomas, Llanrug. Yn 1900 priododd â Dorothy, ond does dim sôn am ei ferch Jane yn Caradog Place yn 1901. Nid yw'n cael ei henwi yn ei ewyllys chwaith. Beth ddigwyddoodd i Jane tybed? A phwy yw Ellen, ei chwaer yng nghyfraith? Roedd yn wraig i Morris Hughes, 2 High Street, Ebenezer. Ond ai chwaer Anne, gwraig gyntaf William oedd hi, ynteu chwaer Dorothy?

Ond gyda chymaint o'r teulu'n byw yn Ebenezer, sut yn y byd y cyrhaeddodd yr ewyllys i dŷ yng Ngarn Dolbenmaen a dod i sylw'r perchennog gant a deg o flynyddoedd yn ddiweddarach?

Os oes unrhyw aelod o'r teulu uchod yn dal i fyw yn Neiniolen neu Glwt y Bont, byddwn yn falch iawn o glywed gennych. Mae nifer wedi bod yn gwneud ymholiadau am eu teuluoedd ar y cyfryngau cymdeithasol yn ddiweddar, gan gynnwys 'Deiniolen ddoe a heddiw'.

Cysylltwch ynglŷn ag unrhyw agwedd o hanes bro 'Eco'r Wyddfa' – Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Pontrhythallt, Llanrug, Caernarfon LL55 4BA, Ffôn 01286 673515 neu ar e-bost dafydd.wthomas@btinternet.com

# Cyngor Cymuned Llanrug

## 21ain Rhagfyr 2021

Gweithredu yn gynaliadwy – un o brif amcanion y cyngor yn ystod 2022-2023

Adroddwyd fod angen i'r Cyngor fabwysiadu polisi amgylchedd a fyddai'n cymeradwyo llai o ddefnydd o blastig. Nodwyd fod y Cyngor wedi peidio dosbarthu siocledi ar gyfer cystadleuwyr addurniadau Nadolig eleni mewn bocsys plastig ond wedi rhoi siocledi mewn bocsys cardfwrdd fyddai yn ei gwneud yn haws i'w hail-gylchu.

Penderfynwyd creu polisi amgylcheddol i'r Cyngor.

**Ymateb i gais gan Gylch yr Iaith.**
Adroddwyd fod polisi twristiaeth Parc Cenedlaethol Eryri wedi'i gyhoeddi ar gyfer twristiaid yr ardal.

Penderfynwyd cadw llygad ar y sefyllfa ac unrhyw ddatblygiadau a gweithgorau sydd yn cael eu cynnal.

**Adroddiad gan y Cynghorydd Berwyn Parry Jones aelod dros Gwm y Glo ar Gyngor Gwynedd.**

- Twristiaeth Gynaliadwy

Mae Cyngor Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri yn cyd-weithio i geisio creu strategaeth twristiaeth gynaliadwy. Fel rhan o hyn bu gweithdy yn ddiweddar i rhanddeiliaid, yn cynnwys cwmnïau twristiaid, cynghorwyr sir a chymunedol ac arbenigwyr yn y maes. Roedd tua 100 yn bresennol ar Zoom. Megis dechrau oedd y cyfarfod yma a chynhelir un arall ym mis Ionawr. Fe ddylai fod gwahoddiad yn dod i'r cynghorau cymuned.

- Cwmnïau yn prynu ffermydd yng Nghymru er mwyn lleihau eu hôl troed Carbon

Mae hyn wedi amlygu ei hun yn broblem yn ddiweddar gan fod cwmnïau o'r tu allan i Gymru yn prynu ffermydd, yn derbyn grantiau mawr Glastir – Creu Coetir (GWC) a defnyddio'r tir i greu coedwigoedd i unioni eu hallyriadau carbon. Mae hyn wrth gwrs yn tanseilio ffermio a thyfu bwyd yng Nghymru.

Mae'r Cyngor Sir wedi pleidleisio i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru yn gofyn iddynt newid ar fyrder y cymhwyster i dderbyn eu grant Glastir (GWC) fel mai dim ond ffermwyr gweithredol yng Nghymru sy'n gallu gwneud cais, a hefyd gofyn iddynt gyflwyno deddfwriaeth datblygu cynllunio i alluogi awdurdodau cynllunio lleol fel Gwynedd i reoli prosiectau coedwigo.

- Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

Mi fydd llawer o newidiadau yn dilyn y ddeddfwriaeth yma – un o'r rheini yw, o fis Ebrill nesaf y bydd rhaid i draean o aelodau o'r Pwyllgor archwilio a llywodraethu fod yn rhai lleyg. Yn bresennol dim ond un aelod lleyg sydd ar y pwyllgor, a bydd y Cadeirydd yn dod o'u plith. Pwyllgor o 18 sydd ar y funud, felly bydd 6 aelod lleyg. Mae'n gyfle i aelodau o'r cyhoedd gael mewnbwn i redeg y Cyngor.

- Fforwm Gwyrfai

Mewn diweddariad gan yr heddlu, soniwyd fod swyddi gwag a cholli staff yn gyffredinol yn dal i fod yn broblem iddynt. Cytunwyd i ail yrru enwau PCSO's i bob cynghorydd.

Y ffordd orau i gysylltu hefo'r Heddlu, os nad yw yn argyfwng, ydi trwy ddefnyddio y "chat" ar y wefan.

- Yn Lleol

Rwyf yn dal i ddisgwyl ymatebion gan swyddogion y Cyngor Sir ar amryw o achosion. Mae'r Prif Weithredwr yn ymwybodol o'r sefyllfa, ac yn gofyn am dystiolaeth. Mi fyddaf yn rhannu fy nhystiolaeth gyda fo.

**Pwyllgor y fynwent**
Adroddwyd fod gwaith cynnal a chadw'r fynwent yn parhau ac yn ogystal penderfynwyd ceisio cyfathrebu gyda pherchnogion y cofebion drwy osod llythyr ar bob stêc yn gofyn iddynt gysylltu â'r cyngor. Hyd yn hyn roedd chwech wedi cysylltu, pump ohonynt yn holi am y drefn a beth sydd angen iddynt hwy ei wneud nesaf. Derbyniwyd un gŵyn am weledEdd y fynwent ond nid oedd y gŵyn yn cyfeirio at unrhyw gofeb benodol.

**Pwyllgor Bwyd a Llesiant**
Adroddwyd fod y trefniadau yn parhau a bod y bwyd yn cael ei ddosbarthu yn wythnosol. Adroddwyd fod ein cais am grant wedi bod yn llwyddiannus a bod cyllideb i ariannu'r cynllun am 12 mis gyda phwysau'r bwyd yn wythnosol wedi cynyddo o 80kg i 120kg.

**Ceisiadau Cynllunio**
'Doedd dim gwrthwynebiad i'r ceisiadau canlynol:

(1) Adeiladu estyniad a chreu mynediad newydd i'r ty a gofod swyddfa fach -
Tŷ Felin Ffordd Pontrug, Pontrug

(2) Cais i ddiwygio amod 3 ar gais sy'n ymwneud a newid dyluniad ar flaen y tŷ o estyniad deulawr i estyniad unllawr - 48 Nant Y Glyn, Llanrug

(3) Estyniad deulawr - Pen Y Graig, Lôn Ceunant, Ceunant

(4) Estyniad unllawr cefn - Rhyd Y Delyn Ffordd Glan Moelyn, Llanrug



Ogwen
Adferiad Corfforol
Eli Lichtenstein
Manual Therapy (diploma)
07743373895
Ogwen.Physical.Rehab@gmail.com
Proffesiynol, diogel a chyfrinachol
LLEDDFU POEN
cefn, cyhyrau, esgyrn, cymalau a thensiwn cur pen



## Bobliadur – Dyddiadur y gath ddwad

Dyma hanes cath fawr goch a ddaeth, flwyddyn yn ôl, i fyw ar lethrau Eryri. Doedd o ddim wedi dewis dod yno i fyw ond doedd ei fywyd hyd hynny ddim wir wedi bod yn beth fyddai unrhyw gath gall wedi ei ddewis.

Oeddech chi'n gwybod bod yr Eifftiaid, amser maith yn ôl, yn addoli cathod? Mae pethau wedi newid coeliwch chi fi, ac erbyn hyn mae ambell i bêl-droediwr, efo mwy o arian na synnwyr, yn cael ei lun yn y papurau am ddefnyddio ei gath fel pêl i'w chicio! Mae'r gath unigryw yma, Bob, wedi setlo, ers ychydig dros flwyddyn, ar lethrau Moel Rhiwen. Bellach mae'n rhannu tŷ efo dau o bobl (ei berchnogion meddan nhw – ond wir i chi does gan gath byth berchnogion), gwas a morwyn sy'n ateb ei ofynion o ddydd i ddydd ydyn nhw go iawn. Mae cathod yn greaduriaid annibynnol, wnawn nhw ddim bownsio i fyny ag i lawr fel ci i'ch croesawu, dydyn nhw ddim bob amser eisiau mwythau ac wrth gwrs nhw sy'n dewis ble fyddan nhw'n eistedd/cysgu yn eich tŷ. Efallai mai dyna pam dydy pawb ddim yn hoff iawn o gathod.

Felly dros y misoedd nesaf cewch gyfle i ddilyn hanes Bob, yn y cyfnod pan oedd o newydd symud i fro'r Eco, gan ei fod wedi hen setlo yn ei gynefin newydd, yn mwynhau bywyd dipyn mwy nag oedd o yn ystod ei flynyddoedd cynnar ac efo amser ar ei bawennau i ddweud ei stori.

Cewch mwy o'i hanes yn rhifyn mis Ebrill…

# Cyngor Cymuned Llanddeiniolen

## Crynodeb o Gofnodion Cyfarfod 11eg Ionawr 2022

**Cofnodion 7fed Rhagfyr 2021:** Cafwyd y Cofnodion yn gywir:

**Giât Drydan Llwybr Rhif 22:** O'r diwedd, cafwyd cadarnhad nad oes hawl gan berchennog i osod giât o'r fath ar lwybrau cyhoeddus. Felly, bydd y Cyngor Sir yn mynd ati i drafod gyda'r perchennog iddo waredu'r rhwystr dan sylw.

**Gwelliannau i lwybrau cyhoeddus:** O'r diwedd, mae'r adran wedi ymateb i gais y Cyngor Cymuned i edrych a symud ymlaen gyda'r llwybrau dan sylw. Gobeithio y bydd mwy o wybodaeth ar gyfer trafodaethau'n cyrraedd erbyn canol Ionawr er mwyn i ni drafod y ffordd ymlaen.

**Caead Cwter yn ben allt Cefn y Waun:** Cafwyd neges fod caead cwter wedi disgyn i mewn i'r gwter ac o bryder diogelwch yn yr ardal yma. Bu i'r Clerc gysylltu'n syth gyda'r Cyngor min nos. Diolch i'r tîm Cyngor Sir a aeth allan i ddiogelu'r safle'r noson honno, ynghyd â gyrru criw i'w drwsio'r bore canlynol.

**Cysgodfan Bws Brynrefail:** Bu i'r Clerc gysylltu am amcan bris gan y cwmni a awgrymwyd iddynt gan y Cyngor Sir. Ond roedd y pris rhataf y gallai ei gynnig am gysgodfan bws dros £6,000. Mae 2 amcan bris i gael gan gwmni arall o Nottingham, a hefyd mae un o'r cynghorwyr am drafod i gael mwy o wybodaeth am rai pren fel yn Felinheli.

**Goleuadau Stesion Pentir:** Sawl un wedi sylwi fod y goleuadau'n llachar, ac nid yn unig hynny ond eu bod yn adlewyrchu i fyny yn ogystal ag i lawr. Mae'r golau ymlaen yn barhaus yn ystod y nos: tybed oes wir angen hyn, neu gallwn leihau llygredd? Cysylltu gydag Adran Amgylchedd y Cyngor Sir.

**Groesffordd Tre Gof, Bethel**
Mae yna arwydd 'Plant' ac 'Ysgol' ar y lôn wrth fynd i fyny am y Neuadd, ond yn amlwg mae rhywbeth wedi ei daro ac mae'r polyn wedi plygu. Tybed oes modd cael un yn ei le neu atgyweirio?

## CHWILAIR DYDD GŴYL DEWI

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ll | H | N | A | P | A | U | L | I | N | U | S |
| W | A | O | Ll | E | R | P | Ng | D | Dd | E | Y |
| Ff | N | N | I | Ch | C | E | R | E | D | I | G |
| L | C | I | Dd | N | Y | R | B | L | Rh | N | O |
| N | E | C | H | E | P | E | Ph | T | S | U | R |
| A | S | O | P | U | W | R | D | E | A | F | Y |
| W | I | L | D | E | W | I | S | A | N | T | M |
| Dd | G | O | A | H | P | N | B | U | T | W | D |
| S | W | M | Th | L | U | D | T | R | N | E | A |
| A | Ch | E | L | E | R | O | Ff | Dd | E | M | I |
| N | A | N | U | T | S | D | B | E | T | F | Th |
| T | Y | Dd | E | W | I | G | W | Y | R | Th | I |

BRYN
CEREDIG
COLOMEN
DATHLU
DEWI SANT
GORYMDAITH
GWYRTH
HANCES
LLANDDEWIBREFI
NAWDDSANT
NON
PAULINUS
PERERINDOD
SANT
TY DDEWI

Cofiwch bod rhai llythrennau dwbl yn Gymraeg, sydd yn llenwi un sgwâr yn y chwilair.

### ATEBION CHWILAIR CHWEFROR Y CARIADON

Yr un peth nad oedd wedi ei gynnwys yn Chwilair mis Chwefror oedd Folant.

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| N | O | L | A | C | G | M | O | R | S | T | A |
| O | B | C | D | R | E | F | C | D | U | N | W |
| D | M | F | E | A | Rh | A | M | E | Y | G | Ph |
| A | E | G | L | O | N | H | B | W | Ch | I | D |
| I | Ch | Y | C | N | A | W | DD | S | A | N | T |
| R | F | R | O | W | L | N | O | L | E | A | M |
| A | O | S | I | N | A | S | U | C | D | L | O |
| C | T | Ff | S | LL | W | Y | G | A | R | U | D |
| Dd | RH | O | S | O | D | H | T | R | C | E | R |
| D | W | Y | N | W | E | N | L | I | Ll | A | W |
| T | N | A | M | A | RH | B | R | A | S | N | Y |
| Y | F | Ng | C | L | O | U | H | D | O | N | P |

# Cyngor Cymuned Llanberis

## 12fed Ionawr, 2022

**1. Presennol ac Ymddiheuriadau:**
***Ward Padarn:*** Rhys ap Gwilym (Cadeirydd), Heather L Jones, Cyng. Kevin Morris Jones, Kim Jones, Helen Sharp.
***Ward Peris:*** Iola Owen, Llinos Haf Pritchard.
***Ymddiheuriadau:*** Gwilym Evans, Bethan Holding, Olwen Gwilym, Iwan Harding, Trystan Thomas.
Hefyd yn bresennol: Dei Tomos (Clerc).

**2. Croesawu:**
Croesawyd **Elen Hughes** a **Mari Beynon Owen,** y naill yn gweithio i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE) a'r llall i Chambers Conservation mewn perthynas â phrosiect newydd ***Ardaloedd Cadwraeth Eryri sy'n addas ar gyfer yr Unfed Ganrif ar Hugain***. Ymhlith y 14 ardal o fewn ffiniau'r Parc mae canol pentref Nantperis.

Eglurwyd fod hon yn Ardal Cadwraeth ers sawl blwyddyn a bod APCE yn adolygu'r cynlluniau ac yn ystyried o bosib mwy nag adeiladau'n unig. Ar hyn o bryd mae'r Ardal Cadwraeth yn y Nant yn cynnwys yr Eglwys, tafarn Ty'n Llan, Capel Rehoboth a'r hen Ysgol, Rhesdai Glanrafon, yr hen Bost, Bron Eryri, Dôl Peris a Ty'n Lôn. Awgrymir ehangu peth ar hynny, a bydd APCE yn ymgynghori ynglŷn â hynny'n fuan er mwyn ystyried dyheadau'r pentrefwyr ynglŷn â'r modd o ddiogelu'r pentref yn well.

**3. Datgan Buddiant:**
Cofnodir, os yn berthnasol, o dan y gwahanol benawdau.

**4. Cadarnhau Cofnodion:**
Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod nos Fercher, yr 8fed o Ragfyr, fel rhai cywir .

**5. Materion yn codi o'r Cofnodion:**
***1. Cyflwr fflat ym Maes Padarn:***
Unwaith eto, daeth cwynion am y fflat ym Maes Padarn ac addewidion gan gwmni Adra i wneud gwaith ar ddyddiau penodol wedi eu torri. Roedd y Clerc wedi ysgrifennu eto at y cwmni ac wedi gofyn am ymateb oddi wrth y Prif Weithredwr. Yn y cyfamser, yn y cyfarfod dywedodd y Cyng



KMJ iddo dderbyn ebost yn dweud fod peth o'r gwaith wedi ei wneud, ac am iddo roi gwybod i'r Clerc (a oedd wedi ysgrifennu'n benodol ynglŷn â'r torri addewid). Chafwyd dim eglurhad pam na chysylltwyd â'r Clerc, ond addawodd ef holi ymhellach

• [**Datgan Diddordeb:** Gan fod KJ yn gyflogedig gan Adra, wnaeth hi ddim cymryd rhan yn y drafodaeth.]

***2. Cyngor Gwynedd (CG) – Llifogydd A4086:***
Dim pellach i'w adrodd, ond KMJ newydd gysylltu eto â Chyngor Gwynedd am y dŵr rhwng Ynys Wen a mynediad Y Glyn.

***3. Goleuadau Nadolig:***
Adroddwyd i'r coed a'r goleuadau newydd fod yn llwyddiant eleni gyda chryn ganmol yn ôl yr aelodau. Diolchwyd i'r nifer fach a fu yn eu codi a'u tynnu i lawr, a hynny'r ddau dro mewn tywydd stormus. Cytunwyd bod rhaid ystyried ail oleuo'r Stryd Fawr bron yn gyfan gwbl erbyn y flwyddyn nesaf, a pharatoi'n ddigon buan at hynny. Dywedodd IO iddi ddeall fod rhai cynghorau'n llogi goleuadau stryd. Byddai hynny'n rhywbeth i'w ystyried.

***4. Cae Pêl-droed UEFA:***
At yr arian a addawyd gan Cist Gwynedd (£15,000) a'r arian a dderbyniwyd gan gwmni First Hydro (£2,500) adroddodd y Clerc iddo gael addewid am £5,000 oddi wrth Elusen Dyffryn Peris sy'n derbyn arian o'r cwmni trydan-dŵr Ynni Padarn Peris. Bydd hyn fwy neu lai'n talu'n gyfangwbl am y gwaith a bydd modd hawlio'r TAW yn ôl hefyd. Mynegwyd diolch i'r gwahanol gyrff am eu cyfraniadau. Mae'r gwaith wedi ei archebu; bydd angen talu blaen-dâl o 60% yn y dyfodol agos.

***5. Cysgodfan Bws:***
Adroddwyd fod y gysgodfan newydd wedi ei harchebu, cafwyd cadarnhad hefyd y bydd y cwmni a'i gosododd yn y gorffennol yn barod i osod hon hefyd.

***6. Arolwg Ail-gartrefi a Llety hunan-ddarpar (Air B&B):***
Adroddwyd fod rhai aelodau wedi dechrau'r arolwg o dai gwyliau a thai gwag; pwyswyd am gwblhau'r gwaith erbyn y cyfarfod nesaf.

***7. Y Fynwent:***
Adroddwyd bod ymwelwyr â'r Fynwent yn gadael blodau gwastraff o gwmpas y biniau yn lle yn y biniau eu hunain am fod y biniau'n ymddangos yn llawn. Penderfynwyd gosod arwydd i ofyn i bobl i gadw'r Fynwent yn daclus a defnyddio'r biniau niferus.

**6. Materion Eraill:**

***1. Coed Fictoria:***
Awgrymodd y Cyng KMJ y byddai'n hoffi gweld y llwybr cyhoeddus trwy Goed Fictoria'n dod yn llwybr swyddogol i'r Wyddfa o Lanberis. Mae'r llwybr yma'n mynd o'r A4086 o flaen y Gwesty hyd at Benceunant. Byddai defnyddio hwn yn golygu llawer llai o bobl a thrafnidiaeth ar y ffordd heibio Teras Efrog, Bythynnod y Faenol a Maes Derlwyn. Trafodwyd na fyddai'n hawdd cael pawb i ddefnyddio'r llwybr ond fe allai wneud gwahaniaeth, a phenderfynwyd yn unfrydol y dylid ysgrifennu at Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE) i ymgynghori.

***2. APCE – Gwella Llwybr:***
Bu cysylltiad pellach rhwng Prif Warden y Gogledd i APCE a'r Clerc ynglŷn â'r bwriad i wella'r llwybr oedd yn arwain o'r Brithdir tuag at Benceunant Uchaf ac i holi am ymateb y Cyngor. Bydd peth newid yn y cynlluniau a gyflwynwyd yn ôl yn yr hydref, ond roedd y Warden yn awyddus i gael ymateb y Cyngor.

Yn naturiol, mae'r Cyngor yn croesawu unrhyw fwriad i wella llwybrau'r ardal ond yn bryderus fod gormod o waith ar rai llwybrau. Enghraifft oedd y llwybr trwy Fwlch Maesgwm sydd yn hynod o lydan ac wedi ei wynebu â cherrig mân. Y teimlad gan y rhai a oedd yn gyfarwydd â'r gwaith hwnnw oedd ei fod yn ormodol. Er yn cydnabod ei bwysigrwydd fel rhan o lwybr cylch o gwmpas Yr Wyddfa, ac i gysylltu Dyffryn Peris a Nant y Betws, y farn oedd bod y llwybr erbyn hyn yn gyfan gwbl rhy fawr ac allan o gymeriad. Ym marn yr aelodau roedd angen cynildeb a chadw at natur a chymeriad ardal wrth adnewyddu llwybrau gan gofio hefyd fod cynnal a chadw'r llwybrau mawr yn mynd i fod yn gostus yn y dyfodol.

3. Cysgodfannau Bws, Cae'r Ddôl:
Nodwyd eu bod angen eu trwsio. Adroddodd y Clerc iddo roi gwybod ar ddau achlysur i CG.

**7. Gohebiaeth:**

***1. Un Llais Cymru:***
Daeth nodyn i law yn egluro'r rheolau diweddaraf ynglŷn â Covid-19 a chynnal cyfarfodydd cyhoeddus. Yn y nodiadau roedd eglurhad ynglŷn â chyfrifoldeb trefnwyr cyfarfodydd. Roedd y Clerc wedi anfon copi at Ysgrifennydd Pwyllgor Y Ganolfan i wneud yn siwr ei fod yn ymwybodol o'r cyngor a'r rheolau diweddaraf.

***2. CG – Cynhadledd Twristiaeth Gynaliadwy yng Ngwynedd:***
Bydd dwy gynhadledd ar gyfer gwahanol ardaloedd. Dyddiad cynhadledd Bro Peris ydi'r 7fed o Chwefror am 4yh, ac angen cofrestru erbyn yr 2il o Chwefror.

***3. National Grid***
Nodyn pellach am y gwaith sydd ar y gweill eleni i adnewyddu'r cysylltiad rhwng First Hydro a'r Grid ym Mhentir.

***4. Llywodraeth Cymru (LlC) – Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol:***
Nodyn gan y Gweinidog i ddweud y bydd LlC yn bwrw 'mlaen â deddfwriaeth a fydd yn caniatau creu Cynghorau Cymuned Cymwys (Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol) er mwyn i rai cynghorau, os dymunant, symud o'u statws presennol i bŵer cymhwysedd cyffredinol lle bydd rhaid i'w Clercod fod wedi ennill cymwysterau proffesiynol. Mater o ddewis bydd hyn, ond fydd dim gorfodaeth ar unrhyw gyngor i newid o'u statws presennol. Daw'r newidiadau i rym ar y 5ed o Fai 2022.

***5. APCE – Ymgynghoriad Cyhoeddus Canllaw Cynllunio Atodol:***
Yr ymgynghoriad ar agor tan y 9fed o Chwefror yn dilyn dynodi Tirwedd Llechi Gogledd-orllewin Cymru fel Safle Treftadaeth y Byd.

***6. CG – Mainc Cyfeillgarwch:***
Cynllun yn gofyn am neilltuo nifer o feinciau i fod yn Fainc Cyfeillgarwch. O weld y gwaith a wnaed mewn ardaloedd eraill penderfynwyd peidio ymuno â'r cynllun. Gwelwyd lluniau o feinciau wedi eu paentio a theimlid bod peth o'r gwaith yn amaturaidd ac mewn blwyddyn neu ddwy y byddai angen eu hail baentio. Penderfynwyd gwrthod.

**8. Cyllideb a Praesept:**
Dywedwyd mai chwyddiant oedd y pryder mwyaf ar hyn o bryd wrth geisio gosod cyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd. Mae'r flwyddyn bresennol wedi bod yn un o wario sylweddol gydag offer newydd (cwrs coed a rhaffau a siglen ddwbl) wedi eu gosod yn y maes chwarae ger y llyn, sy'n wariant o bron i ugain mil o bunnau. Wrth gwrs, mae'n llecyn deniadol a phoblogaidd ac mae'n fwy na thebyg bod tipyn o gerdded oddi yno i'r Stryd Fawr yn dod yn sgîl ymweld â'r cae. Cyn diwedd y flwyddyn hefyd bydd y cae pêl-droed pob tywydd wedi cael wyneb newydd, ond heb fawr ddim cost i'r Cyngor oherwydd cymorth hael gwahanol gyrff. Mae angen peth gwario eto yn y cae chwarae ger y llyn lle mae angen offer i'r plant lleiaf un, yn ogystal â gwella'r goleuadau Nadolig ar y Stryd Fawr. Hefyd bydd angen cefnogi'r Cynllun Cofeb sydd bellach dan reolaeth pwyllgor allanol.

Penderfynwyd cynyddu'r braesept o £2,000 a byddai hynny'n golygu £2.54 o gynnydd ar dreth Band D.

Mae Sylfaen Drethiannol Cymuned Llanberis yn £788.78. Felly, i godi treth o £1,000 mae'n dod yn £1.27 (£1,000 / 788.78). I ychwanegu £2,000 at y praesept, dyna £2.54 o gynnydd; a chyda praesept o £34,000, sef £2,000 yn fwy na'r llynedd, bydd y dreth gymunedol yn (34 x £1.27) sef £43.18 (34 x £1.27) i gartrefi Band D.

**9 Adroddiadau Allanol:**

***1. Mynydd Gwefru:***
Adroddiad gan y Cyng KMJ iddo fynychu cyfarfod rhithiol gyda chwmni Engie. Prin fod dim wedi newid ers y cyfarfodydd blaenorol.

## Cwblhau Ffurflenni - Cymorth gan Undeb Amaethwyr Cymru

Mae'r amser yna o'r flwyddyn wedi cyrraedd unwaith eto wrth i ni ddechrau meddwl am y Ffurflenni Cais Sengl (SAF). Mae'r cyfnod ymgeisio yn agor ar 1af Mawrth ac mae Undeb Amaethwyr Cymru (UAC) yn atgoffa ei haelodau bod staff y sir yma i helpu ac yn barod i ysgwyddo'r baich o lenwi'r ffurflen.

Mae UAC yn darparu'r gwasanaeth hwn yn arbennig ar gyfer aelodau llawn fel rhan o'u pecyn aelodaeth, sydd wedi bod yn amhrisiadwy i filoedd o aelodau dros y blynyddoedd - gan arbed amser a phenbleth gwaith papur.

Dywedodd Ymgynghorwr Polisi Arbennig Rebecca Voyle:

"Yn ôl pob tebyg, y broses o gwblhau'r SAF yw'r un ymarferiad cwblhau ffurflen bwysicaf sy'n cael ei wneud gan ffermwyr Cymru ers 2004, a gall gwallau ar y ffurflenni arwain at ganlyniadau ariannol difrifol. Nid yn unig mae ein staff wedi'u hyfforddi'n dda ond mae ganddynt brofiad helaeth o ymdrin â'r broses ymgeisio gymhleth."

Ers i Lywodraeth Cymru orchymyn y dylid gwneud pob cais ar-lein, mae UAC yn canolbwyntio ar ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl i'w haelodau.

"Rwy'n annog ein haelodau a'r rhai sy'n llenwi ffurflenni am y tro cyntaf i gysylltu â'u swyddfa leol cyn gynted ag y bo modd i drefnu apwyntiad os oes angen help i lenwi'r ffurflen," ychwanegodd Rebecca Voyle.

# Dathlu'r Cant – Sefydliad Coffa, Llanrug

Ar y 23ain o Fawrth eleni bydd Sefydliad Coffa Llanrug yn dathlu canmlwyddiant ei agoriad swyddogol gan y Fonesig Margaret Lloyd George. Dyma benllanw bron i bedair blynedd o ymgyrchu a chasglu i sefydlu 'Cofeb y Milwyr' yn dilyn erchylltra a cholledion y Rhyfel Byd Cyntaf.

Y bwriad gwreiddiol gan Gyngor Plwyf Llanrug oedd sefydlu tair 'institute' o fewn y plwyf – yng Nghwm-y-glo, Caeathro a Llanrug. Bu gwirfoddolwyr yn casglu o ddrws i ddrws, ond erbyn diwedd 1919 dim ond £130 oedd i law – swm hollol annigonol, ond nid yn syndod o gofio'r cyfyngiadau ariannol y bu pawb yn eu hwynebu dros gyfnod y rhyfel. Penderfynwyd y dylai'r tri phentref geisio sefydlu "ystafell ymgynnull".

Y ddau a fu'n fwyaf blaenllaw gyda'r ymdrech yn Llanrug oedd R. T. Jones, Gwaith Llechi Crawia, a chynrychiolydd Llanrug ar y Cyngor Sir, ac R.W. Ellis, Rhos Elan. Addaswyd tŷ ar gornel y Lôn Groes a Ffordd yr Orsaf, a daeth y Sefydliad Coffa i fodolaeth.

Mae llyfr cofnodion yn dyddio o 1939 ar gael, ac mae'n rhestru ymddiriedolwyr cyntaf y Sefydliad. O'r cychwyn cyntaf, roedd deuddeg ymddiriedolwr, ac yna etholwyd pwyllgor gwaith i'w cynorthwyo gyda rheolaeth y Sefydliad. Diddorol nodi o'r ymddiriedolwyr gwreiddiol, fod dwy yn ferched, sef Mrs Ann Roberts Tŷ Fry a Mrs Jane Closs, Llwyn Brain. Roedd merched hefyd yn cael eu hethol yn rheolaidd ar y pwyllgor gwaith o'r cychwyn cyntaf.




O'i ddechreuad bu'r Sefydliad yn gofalu am anghenion addysgol, diwylliannol a hamdden y pentref. Roedd un ystafell yn llyfrgell, gyda llyfrau o eiddo'r pentref ynddi a chyflenwad ychwanegol yn cael eu cyfnewid bob tri mis gan Lyfrgell y Sir. Un llyfr ar y tro a fenthycid, a rhaid ei ddychwelyd o fewn wythnos. Yno hefyd roedd ystafell billiards, a ddatblygodd dros y blynyddoedd yn ystafell snwcer fel y daeth y gêm honno yn fwy poblogaidd.

Er bod tim pêl-droed yn Llanrug ers 1923, ysbeidiol oedd ei dymhorau cynnar, ond sefydlwyd y Llanrug Institue F.C. tua 1933, gan ddefnyddio cae a roddwyd i'r pentref gan Elliot Alves, Bryn Bras (sef y cae a elwir yn Nant y Glyn heddiw, ac sy'n parhau i gael ei ddefnyddio gan dimau iau y pentref). Yn y Sefydliad y byddai pwyllgor y Llanrug Institute yn cyfarfod, ac yno hefyd y byddai'r timau yn newid cyn ac ar ôl pob gêm. Pan ail-sefydlwyd y tim yn dilyn yr Ail Ryfel Byd, roedd y pwyllgor pêl-droed yn talu dau swllt yr wythnos am ddefnydd ystafell bwyllgor, ond oherwydd bod aelodau'r tim hefyd yn aelodau o'r Sefydliad, roedd dwy ystafell yn cael eu rhoi am ddim iddynt ar brynhawniau Sadwrn i newid. Yn y Sefydliad hefyd y cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus i ail-sefydlu Clwb Pêl-droed Llanrug ym Mehefin 1968, ac am rai blynyddoedd wedyn, yno roedd y pwyllgor yn cyfarfod yn wythnosol.

Mae billiards a snwcer wedi bod yn rhan annatod o'r adeilad o'r cychwyn. Mae rhai o'r rheolau gwreiddiol ar gael. Doedd neb o dan 16 oed yn cael mynediad i'r ystafell. Doedd dim hawl rhoi sigaret na phibell ar ymyl y bwrdd tra roedd gêm ymlaen. (Mae'n ymddangos fod hawl i wneud hynny os nad oedd rhywun yn chwarae!!) Roedd rhegi, gamblo a phoeri ar y llawr yn cael eu gwahardd. Byddai'n angenrheidiol i bob



**W.I. Llanrug yn fuddugol yng nghystadleuaeth Meim Gwledd Belthesar yn Eisteddfod Llangefni 1957**






chwaraewr fod wedi gwisgo'n addas (does dim eglurhad) cyn y ca'i chwarae. Ac er bod merched wedi bod yn amlwg yng ngweinyddu'r Sefydliad o'r cychwyn cyntaf, mae'n ddiddorol nodi fod merch wedi cael ei gwrthod rhag chware snwcer yno yn 1980. Yn 1990 y ffurfiwyd pwyllgor annibynol i'r Sefydliad i fod â gofal am y Clwb (a'r ystafell) Snwcer.

Diddorol fu edrych yn ôl dros y Llyfr Cofnodion sy'n rhychwantu'r cyfnod o 1939 hyd Chwefror 2000. Dyma rai pigion o ddiddordeb.

1947. *"Dylid trafod y doethineb o werthu'r adeilad neu ei gau yn wyneb y sefyllfa ariannol."* Roedd blynyddoedd llwm yr Ail Ryfel Byd yn amlwg wedi effeithio ar yr elw a wnai'r Sefydliad o gynnal gwahanol weithgareddau – yn enwedig y snwcer, gan fod cymaint o ddynion ifanc y pentref wedi gorfod ymuno â'r fyddin. Roedd y gofalwr ar y pryd yn honni ei fod angen £3 a deuddeg swllt yr wythnos am y gwaith a wna'i, ond na allai'r pwyllgor fforddio talu dim mwy na £1 a deg swllt. Erbyn diwedd y flwyddyn penderfynwyd mai parhau â'r achos oedd orau, a chynlluniwyd i gynnal cyngherddau a noson o ddramau i godi arian.

1948. Pwyllgor Merched yn cael ei sefydlu i helpu gyda'r ymdrech codi arian. Erbyn diwedd y flwyddyn roedd sôn am ehangu'r adeilad hyd yn oed!

1950. Penderfynwyd y dylid symud ymlaen i gael cofeb o fewn yr adeilad i'r rhai a gollodd eu bywyd yn y rhyfel. Cysylltwyd â'r capeli i gael enwau aelodau a gollwyd, ond roedd trafferthion gyda chael y wybodaeth angenrheidiol gan y Lleng Brydeinig, a bu'r achos yn llusgo ymlaen am rai blynyddoedd.

1956. Penderfynwyd y byddai'n fuddiol agor cyfrif baco a sigarets gyda Nefydd Jones, Caernarfon – gwerth £15 yr wythnos. Fe ddaethpwyd i gytundeb â rhyw R. Williams, Tobacco Factor, Glan Conwy yn y diwedd.

1962. Cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus i drafod 'Cronfa Canolfan Gyhoeddus Llanrug'. Bymtheng mlynedd ynghynt roedd arian wedi ei gasglu i sefydlu canolfan ble gellid cynnal cyngherddau ac eisteddfodau, ond ddaeth dim o'r syniad. Rhaid cofio fod Neuadd yr Eglwys yn ateb y gofynion hyn bymtheng mlynedd ynghynt, a bod neuadd Ysgol Brynrefail ar gael i'r pentref ers agoriad yr ysgol yn Llanrug rai blynyddoedd cyn hyn. Mae'n ymddangos fod tua £150 yn sefyll yn y gronfa, a'r bwriad oedd ei drosglwyddo i goffrau'r Sefydliad. Ond byddai angen cysylltu â'r Comisiynwyr Elusennau, ac y mae'r rheini yn nodedig am symud mor araf a phosib. Byddai'n fis Mawrth 1970 – wyth mlynedd yn ddiweddarach, ac yn dilyn ymweliad â phrif swyddfa'r Comisiynwyr gan yr Aelod Seneddol Goronwy Roberts – cyn i'r arian gael ei drosglwyddo. Erbyn hynny, roedd llogau wedi cynyddu'r swm i £186.

1966. Paratoi ar gyfer y gwaith o wneud estyniad yng nghefn yr adeilad ar gyfer dau fwrdd snwcer.

1967. Prynu bwrdd snwcer ychwanegol o Lanllyfni am £25.

1970. Derbyn £186 drwy ganiatad y Comisiynwyr Elusennau – a fu'n fodd i orffen talu am yr estyniad.

1972. Sefydliad y Merched yn gwneud cais am gael rhoi piano yn y brif ystafell. Gwrthod y cais am fod mudiadau eraill hefyd yn gofyn am gael dod a gwahanol ddodrefn i'r ystafell. Ond yn dilyn cyfarfod arbennig rhwng yr Ymddiriedolwyr, y Pwyllgor Gwaith a swyddogion Sefydliad y Merched, rhoi caniatad i gael piano yno. Tybed a'i hon oedd y piano gyntaf i'w gosod yn yr adeilad? Yn y cyfnod hwn hefyd roedd y gratiau tân glo yn cael eu tynnu allan, a chyflenwad nwy yn cael ei osod ar gyfer gwresogi'r adeilad.

1974. Cais yn cael ei ganiatau i feddygon y Waunfawr a Llanberis ddefnyddio'r adeilad ar gyfer syrjeris.

1979. Derbyn y gŵyn gyntaf fod llain gefn yr adeilad yn cael ei defnyddio i barcio ceir heb ganiatad.

1998. Dechrau'r broses o gasglu arian i adnewyddu ac ehangu'r adeilad, a thair blynedd o waith ar weddnewid y Sefydliad.

2001. Ar ddechrau Mai trosglwyddwyd yr adeilad yn ôl i'r Ymddiriedolwyr, a'r ystafell snwcer newydd ar y llawr uchaf oedd y gyntaf i'w hagor, gyda chiw (!) o lanciau ifanc yn disgwyl am fynediad.

Dros y ganrif ddiwethaf daeth newidiadau sylweddol o fewn ein cymdeithas – a'r rheini'n cael eu hadlewyrchu yn y defnydd a oedd yn cael ei gynnig a'r defnydd yr oedd galw amdano yn y Sefydliad Coffa. Diflannodd y llyfrgell, ond daeth gwersi ar ddefnyddio cyfrifiaduron a gwersi dysgu Cymraeg i'w disodli. Diflannodd y rheol oedran ac yma mae cartref Clwb Ieuenctid Llanrug. Aeth Sefydliad y Merched yn angof, ond mae cangen gref o Ferched y Wawr yn cyfarfod yma bellach. Mae'n siwr fod Clwb yr Hen Bensiynwyr yn ateb galw hanner can mlynedd a mwy yn ôl, ond roedd Blodau'r Grug yn swnio'n ieuengach rhywsut, nes i hwnnw hefyd wywo. Yma hefyd mae cartref Cyngor Cymuned Llanrug, pwyllgor gwaith 'Eco'r Wyddfa' a gwasanaethau'r Eglwys yng Nghymru.

Yn ddiweddarach eleni, y gobaith yw cynnal diwrnod agored i groesawu trigolion yr ardal i sefydliad sy'n edrych ymlaen at ganrif newydd yn ei hanes.

# A fydd Cymru yng Nghwpan Y Byd 2022?

Mae bron yn amser i Gymru hawlio eu lle yng Nghwpan y Byd Qatar 2022. Dim ond dwy gêm sydd rhyngddyn nhw â lle yn un o gystadlaethau mwyaf y byd! Bydd Cymru'n herio Awstria yn Stadiwm Dinas Caerdydd ar 24ain Mawrth; ac os yn fuddugol mi fyddant wedyn yn mynd ati i herio un ai'r Alban neu'r Wcrain ar 29ain Mawrth, hefyd yn Stadiwm Dinas Caerdydd. Ennill y ddwy, ac mi fydd Cymru'n hawlio eu lle yn Qatar.

Awstria felly fydd gwrthwynebwyr Cymru yn y rownd gyn-derfynol. Y tro diwethaf i ni chwarae yn erbyn Awstria fe enillodd Cymru o un gôl i ddim, a hynny yn 2017. Rydym wedi llwyddo i ennill dwy allan o'r tair gêm ddiwethaf yn eu herbyn. Fe hawliodd Awstria eu lle yn y gemau ail-gyfle drwy ennill eu grŵp Cynghrair y Cenhedloedd gan orffen uwchben Norwy, Romania a Gogledd Iwerddon. Maent wedi llwyddo i ennill tair o'u pedair gêm ddiwethaf, hynny yn erbyn Moldova, Israel ac Ynysoedd y Faroe, ac er eu bod felly'n mynd i mewn i'r gêm ar gefn canlyniadau da, mi fydd Cymru dwi'n siwr yn hyderus am fuddugoliaeth.

Os bydd Cymru'n fuddugol yn erbyn Awstria, mi fydd un ai'r Wcrain neu'r Alban yn eu disgwyl yn y rownd derfynol. Os na fydd Cymru'n fuddugol yn erbyn Awstria, mi fyddant yn chwarae gêm gyfeillgar ar 29ain Mawrth yn erbyn collwyr y gêm rhwng Yr Alban a'r Wcrain.

Dim ond tair gwaith y mae Cymru wedi wynebu'r Wcrain, a hynny heb lwyddo i ennill un. Y tro diwethaf i ni eu chwarae oedd yn 2016 mewn gêm gyfeillgar, gyda'r Wcrain yn ennill o un gôl i ddim. Ar hyn o bryd mae'r Wcrain ar rediad cryf; heb golli mewn saith gêm, a'r tro olaf iddynt golli gêm oedd yn erbyn Lloegr yn rownd y chwarteri yn Ewro 2020. Yn ystod gemau grŵp Cwpan y Byd roeddent yn ddi-guro gan ennill chwe gêm a chael dwy gêm gyfartal. Os bydd Cymru yn eu wynebu mi fydd hi'n dipyn o her i dorri eu rhediad. Mae'r sefyllfa wleidyddol yn yr Wcrain yn ansicr iawn fel mae'r Eco yn cael ei baratoi ar gyfer y wasg, felly byddwn yn gwylio'n ofalus, a gweddio, y bydd y wlad yn parhau'n ddiogel.

Efallai mai'r Alban fydd ein gwrthwynebwyr ar y 29ain Mawrth, os byddant yn llwyddo i dorri rhediad Yr Wcrain. Mae gan Gymru a'r Alban dipyn o hanes pan mae'n dod i bêl-droed. Mae cyfanswm o 107 o gemau wedi cael eu chwarae rhwng y ddau dîm a Chymru dim ond wedi llwyddo i ennill 23 o'r rheiny, gan golli 61. Fodd bynnag, peidiwch â gadael i'r ystadegyn hwnnw eich dychryn oherwydd mae Cymru wedi ennill pedair o'r pum gêm ddiwethaf ers 2004. Daeth y ddiwethaf yn 2013, o ddwy gôl i un. Yn debyg i'r Wcrain, mae'r Alban hefyd ar rediad da ar hyn o bryd, wedi ennill eu chwe gêm ddiwethaf. Mae gan Gymru dipyn o her felly. Gobeithio na fydd hi'n dor-calon fel 1977 a 1985 gyda'r Alban yn chwalu breuddwydion Cymru o gyrraedd Cwpan y Byd 1978 a 1986.

Fe seliodd Cymru eu lle yn y gemau ail-gyfle gan orffen yn ail yn eu grŵp. Rydym ninnau hefyd ar hyn o bryd ar rediad cryf a heb golli mewn saith gêm. Y tro diwethaf i dîm Rob Page golli gêm oedd yn Ewro 2020 pan gawsom ein trechu gan Ddenmarc. Gobeithio felly na fydd mis Mawrth yn torri'r rhediad hwnnw. Gyda nifer o chwaraewyr Cymru'n gwneud yn dda ar hyn o bryd, mae rhywun yn teimlo'n ddistaw




**Baner leol - Penisarwaun - yn y gêm rhwng Awstria a Chymru yn Vienna, 6ed Hydref 2016**

hyderus fod gan Gymru siawns dda. Mae'r bechgyn ifanc megis Brennan Johnson, Harry Wilson a Daniel James yn chwarae'n wych i'w clybiau ac yn barod am yr her ddiwedd mis Mawrth dwi'n siwr. Mae Gareth Bale yn dechrau chwarae'n fwy rheolaidd erbyn hyn, ac mae Neco Williams wedi symud i Fulham fydd yn ei alluogi i gael mwy o gemau yn hytrach nag eistedd ar fainc Lerpwl. Mae Aaron Ramsey erbyn hyn wedi symud ar fenthyg i Rangers. Symudiad da, o ystyried y bydd yn cael gemau rheolaidd, sydd wrth gwrs yn bwysig i Gymru, ond symudiad efallai nad yw'n cael ei ddathlu rhyw lawer gan rai o gefnogwyr Cymru. Gobeithio y gall osgoi taclau caled y Gynghrair a chyrraedd diwedd mis Mawrth yn holliach. Yn sicr, mae hynny'n wir am holl chwaraewyr Cymru. Os bydd pawb yn holliach ac yn galluogi Rob Page i ddewis ei dîm cryfaf, mae gan Gymru siawns dda iawn dwi'n meddwl.

Dim ond dwy gêm sydd felly rhwng Cymru a Qatar 2022. Ni chawn ni gyfle llawer gwell. Bydd rhaid croesi popeth a gobeithio am ddwy fuddugoliaeth.

[Ers i'r golofn hon gael ei llunio, cafwyd y newydd siomedig na fydd Kieffer Moore, 'hogyn Llanrug', ar gael ar gyfer y gemau ym mis Mawrth oherwydd anaf.]


SPAR

**Y Storfa, Spar, Llanrug**

Sgwâr Llanrug
01286 673108



Bwydydd, Diodydd, Papurau Newydd, Cardiau Cyfarch, **Swyddfa Bost**
a chroeso cynnes

Llun - Sadwrn 6:30am - 9pm, Sul 8am - 9am



AM WASANAETH PERSONOL A GOFALUS

**DYLAN GRIFFITH**

*Trefnwyr Angladdau Annibynnol a Lleol*

TROS Y WAEN PENISARWAEN

Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol
24 Awr y Dydd
Capel Gorffwys Preifat
Yn Gwasanaethu yr Holl Ardal
Busnes Teuluol

*Ffôn : 01286 871833 (SYMUDOL: 07778127394)*



**Gwaith Coffaol**
**LLANRUG**

Y Sgwâr
Llanrug
Caernarfon
Gwynedd
LL55 4AA



☎ 01286 672898





## COLOFN CHWARAEON

# Allwch Chi Enwi?



Derbyniais e-bost gan Dafydd Roberts, Bwlchgrwnog, Cwm–y-Glo yn ddiweddar yn holi os allai unrhyw un roddi gwybodaeth iddo am y llun a ddanfonodd gyda'r stori. Dyma e-bost Dafydd.

"Mi ddois ar draws y llun yma'n ddiweddar wrth chwilota yn yr atic. Dwi'n credu mai llun o'r Darans ydi o, o gyfnod diwedd y 20au neu ddechrau 30au'r ganrif ddiwethaf. Yn y canol yn y rhes gefn mae'r gôl-geidwad, sef fy ewythr, Cadwaladr Roberts (Yncl Walad) o fferm Tai Croeslon, Penisarwaun. Yr adeg hynny, fel a ddeallaf, roedd yn yrrwr trên yn Chwarel Dinorwig. Wedi hynny bu'n ffermio yng nghartre'r teulu yn Tai Croeslon gyda'i wraig Mary nes i Glefyd y Ffermwr (Farmers Lung) ei daro'n angeuol yn niwedd y 60au."

Os ydych chi'n adnabod unrhyw un yn y llun, neu fod gennych unrhyw wybodaeth, gadewch i'r Eco wybod. Oes mwy o hen luniau o fyd y campau'n llechu yn eich cartref chi?

**Colled 'Dyn y Chwiban'**

Dros y blynyddoedd yn y colofnau hyn rwyf wedi ceisio coffau nifer o 'hogia ffwtbol' yr ardal yma. Ddiwedd Ionawr, collwyd un arall o'r garfan hon. Bu farw Hugh Davies o Stad Bro Rhos, Bethel. Ie, Hughie Reffari i griw'r bêl gron, a hynny nid yn unig yn lleol ond o Ben Llŷn i Lannau Dyfrdwy. Pan oedd yn 80, gwnes gyfweliad hir gydag o am ei yrfa ym myd y bêl ar gyfer yr Eco.

Roedd yn dal i 'redeg y lein' yn y cynghreiriau lleol yn rheolaidd yn 80 oed. Yn ystod yr wythnos byddai'r bag yn cael ei lenwi i alluogi Hughie i ddyfarnu gemau ysgolion ym Mrynrefail a Chaernarfon. Yr un Hughie. Trwsiadus a mynnu safonau cywir ar y maes chwarae. Ac yntau'n 87 oed pan fu farw, roedd Hughie wedi dyfarnu nes ei fod yn 84 oed. Anhygoel. Roedd yn aelod oes o Gymdeithas Bêl-droed y Gogledd, ac hefyd yn rhai o'r Cynghreiriau lleol. Bu'n aelod ar sawl pwyllgor yn cynrychioli'r dyfarnwyr. Braf nodi bod nifer o gemau yn y Gogledd y Sadwrn wedi ei farwolaeth wedi cynnal dau funud o ddistawrwydd. Bu hefyd am flynyddoedd yn hyfforddi dyfarnwyr.

Howget, o ardal Carneddi oedd Hughie, a chyfaddefodd i mi mai 'gôl geidwad heb gyrraedd unrhyw safon uchel' oedd ei ddyddiau cynnar. Troi felly at ddyfarnu, ac esgyn yn sydyn mewn cyfnod pan oedd yna Welsh League gref yn y Gogledd, a chynghreiriau lleol cystadleuol iawn ym Môn ac Arfon. Yn ystod ei yrfa bu'n dyfarnu sawl ffeinal. Weithiau roedd strictrwydd Hughie yn taro'n groes gyda'r chwaraewyr, yn enwedig yn y 60au a'r 70au gydag elfennau llawer mwy cadarn a chorfforol ar y maes. Mae sawl stori pan fyddai Hughie yn dyfarnu tîm Dyffryn Nantlle dan arweiniad Orig. Mae stori torri sbectol gôl-geidwad y Brifysgol gan un o chwaraewyr Vale am fod y goli'n cael chwip o gêm yn dal ar gof a chadw. Yn aml ymwelai Hughie i roi tystiolaeth o flaen y 'Disciplinary Committee'. Os bu stori i'w dweud yna stori Hughie Reffari fyddai hynny.

Diolch iddo am flynyddoedd o wasanaeth, a chofiwn 'heb reff heb gêm'. Cydymdeimlwn â'i deulu yn eu colled.

**Ceidwad y Ffyn**

Collwyd un arall â chysylltiadau lleol yn ddiweddar, sef Alwyn Pleming, cyn-bennaeth Adran y Gymraeg yn Ysgol Brynrefail. Rhoddodd flynyddoedd o wasanaeth a bu'n gefn yn eu dyddiau cynnar i lawer a wnaeth eu marc yn y byd llenyddol ac ar y llwyfan. Ond am Alwyn o fyd y campau y cofiaf i. Un o Ddyffryn Nantlle oedd Alwyn, a chriced oedd ei briod faes – fel chwaraewr a gwyliwr. Fel pob ysgol ramadeg roedd gan Ysgol Brynrefail dîm criced. Roedd tîm ar gyfer yr oedran hŷn, ond hefyd byddai tîm cymysg o staff a disgyblion. Roedd Alwyn yn fatiwr pwyllog a barchai werth ei wiced. Ond, yn bennaf ef oedd 'ceidwad y ffyn' sef y 'wicket-keeper'. Roedd ganddo lygaid da, a phrin y cofiaf ef yn 'sefyll yn ôl' o'r wiced. Pwysau ar y batiwr wrth sefyll i fyny. Dwylo da. Tipyn o gamp ar leiniau amrywiol neu'r 'matiau' ar gaeau ysgol donnog. I'w dîm lleol, Penygroes, ac ymhellach ymlaen ambell gêm i Fron Dinas y chwaraeodd Alwyn.

Yn amlach na pheidio, draw ym Mae Colwyn y byddwn yn cyfarfod Alwyn, pan ddeuai Morgannwg ar eu hald ogleddol. Trist meddwl eu bod wedi gohirio'r daith eleni, am resymau ariannol mae'n ymddengys. Anodd credu hynny gan fod y torfeydd teyrngar ym Mae Colwyn yn tueddu i fod yn uwch na'r torfeydd a ddenir i Erddi Soffia. Mae'n dryllio'r ethos o Dîm Cymru hefyd. Yno ar y bryncyn y tu ôl i'r bowliwr yr eisteddai criw Llanfairpwll, gydag Alwyn a Derec Llwyd Morgan fel rhyw bartneriaeth Arlott/Laker yn eu mysg. Gwn o brofiad fod y ddau yma'n ddehonglwyr praff o elfennau'r gêm, ac fel y gellid ei ddychmygu mewn Cymraeg croyw Cefn Bryn Brain a Dyffryn Nantlle. Cefais fod yn rhan o'r seiat yn aml. Yn ddios, oherwydd safon iaith a dehongliad rwy'n siŵr y buasai Alwyn wedi gwneud sylwebydd da, yn enwedig ar y radio ble mae'r angen i ddarlunio yn ogystal â disgrifio. Athro a dyn poblogaidd. Cwsg yn dawel, Alwyn.

## Cyfres rasus mynydd ganol wythnos Joe Browns

Dyma'r rhaglen ar gyfer y tymor i ddod:

| | | | |
|---|---|---|---|
| 29ain Mawrth | 7:00pm | Moel Tryfan | Ysgol y Fron |
| 5ed Ebrill | 7:15pm | Aber Dash | Maes Parcio Aber Falls |
| 12fed Ebrill | 7:15pm | Foel Lus | Dwygyfylchi |
| 19eg Ebrill | 7:15pm | 3 Hills | Cytiau cŵn, Penmaenmawr |
| 26ain Ebrill | 7:15pm | Pen Dinas | Vaynol Arms, Nant Peris |
| 3ydd Mai | 7:15pm | Moel y Gest | Maes Gwersylla Tyddyn Llwyn |
| 10fed Mai | 7:15pm | Mynydd Mawr | Ysgol y Fron |
| 17eg Mai | 7:15pm | Orme | Canolfan Sgïo, Llandudno |
| 24ain Mai | 7:15pm | Y Garn | Maes parcio'r rheilffordd, Rhydd Ddu |
| 31ain Mai | 7:15pm | Tal y Mignedd | Maes gwersylla Tal y Mignedd |
| 7fed Mehefin | 7:15pm | Abergwyngregyn | Caffi Hen Felin |
| 14eg Mehefin | 7:00pm | Llanberis | Yr Heights - Cyflwyniadau |

Gwobrau ar y noson ym mhob categori. Cofiwch ddod a'ch cit llawn efo chi. Tâl mynediad - £2.00 i oedolion, £1 i blant. Cynnig arbennig ar gyfer y ras gyntaf - cofrestrwch ar gyfer y 12 ras am bris 10. Trefnwr y gyfres - Mike Blake - 01286 831115 / 07778 145144 / eryriharriers. races@gmail.com

ISSN 2516-7235